TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES



# Adroddiad blynyddol

2022/23

# Cynnwys

## Adroddiad strategol


Datganiad y Cadeirydd 5
Datganiad y Prif Swyddog Gweithredol 7
Gwybodaeth am Trafnidiaeth Cymru 10
Ein strwythur 11
Neges gan Lee Waters AS, Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd 12
Adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Llywodraethu 14
Newid ymddygiad teithio 20
Integreiddio trafnidiaeth 22
System docynnau 24
Teithio llesol 26
Bws 28
Rheilffyrdd a seilwaith 32
Cysylltu cymunedau gwledig a threfol 36
Datblygu cynaliadwy 40
Diogelwch, diogeledd a risg 42
Ail-ddychmygu ffyrdd a'r defnydd o geir 44
Gweithio gyda chymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid 46
Barn, adborth ac anghenion cwsmeriaid 48
Ein cydweithwyr a'n diwylliant 49
Bwlch cyflog rhwng y rhywiau 52
Risg 54
Datganiad Adran 172 59


## Llywodraethu


Ein Bwrdd 63
Pwyllgorau'r Bwrdd ac adroddiadau gan eu cadeiryddion 68
Datganiad llywodraethu corfforaethol 76
Datganiad cydnerthedd 82
Datganiad datgarboneiddio trafnidiaeth 84
Adroddiad taliadau 88
Adroddiad y cyfarwyddwyr 92
Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol 94


## Datganiadau ariannol


Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Trafnidiaeth Cymru 96
Datganiad Incwm Cyfunol 100
Datganiad sefyllfa ariannol cyfunol 101
Datganiad cyfunol am newidiadau mewn ecwiti 102
Datganiad cyfun o lifoedd arian 103
Datganiad y cwmni o sefyllfa ariannol 104
Datganiad y cwmni o newidiadau mewn ecwiti 105
Nodiadau 106

# Cipolwg ar y flwyddyn 2022/23

## Ebrill – Mai

Daeth Traveline Cymru yn rhan o TrC.

Gyda Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, fe wnaethom lansio ymgyrch i leihau fandaliaeth ar ddiffibrilwyr yng Nghymru.

## Mehefin – Gorffennaf

Fe wnaethom sefydlu canolfannau cyrraedd yng ngorsaf Caerdydd Canolog a gorsafoedd rheilffordd cyffredinol i groesawu ffoaduriaid o Wcráin i Gymru.

Lansiwyd Sherpa'r Wyddfa, gwasanaeth bws newydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

## Awst – Medi

Lansio'r ymgyrch O'r Cledrau i'r Llwybrau, gan dynnu sylw at lwybrau cerdded y gellir eu cyrraedd ar y trên.

Rydym yn noddi Pride Cymru a Charnifal Butetown.





























## Hydref – Tachwedd

Lansio'r Hwb Menywod Mewn Trafnidiaeth.

Agor ein cyfleuster hyfforddi gyrwyr trenau newydd yng Nghaer.

## Rhagfyr – Ionawr

Gosod 6,500 metr o wifrau trydaneiddio uwchben ar Linellau Craidd y Cymoedd dros gyfnod y gwyliau.

Lansio ein trenau Dosbarth 197 sydd wedi'u hadeiladu yng Nghymru.

## Chwefror – Mawrth

Lansio bysiau trydan TrawsCymru T1, gan gysylltu Caerfyrddin ac Aberystwyth.

Lansio ein trenau Dosbarth 231.

# Datganiad y Cadeirydd

## Scott Waddington



Mae angen i drafnidiaeth gyhoeddus fod o leiaf yr un mor gyfleus â defnyddio car.

Yn Trafnidiaeth Cymru, rydym eisiau newid y ffordd mae pobl yn teithio. Rydym eisiau i bobl gerdded, beicio, teithio ar olwynion a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na gyrru eu car. Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru i leihau 10% ar deithiau mewn ceir yng Nghymru erbyn 2030.

Os yw pobl am roi'r gorau i deithio mewn car, rhaid iddynt gael dewisiadau amgen dibynadwy, cost-effeithiol a diogel. Eleni, gwnaethom enillion sylweddol er mwyn gwireddu'r uchelgais hon ym maes rheilffyrdd. Mae trenau fel ein trenau 197 a 231 yn fwy hygyrch a chyfforddus. Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu ardaloedd Metro, gan gyflwyno'r achos busnes dros orsafoedd newydd, gan wella seilwaith a chynyddu amlder trenau.

Mae angen i drafnidiaeth gyhoeddus fod o leiaf yr un mor gyfleus â defnyddio car. Er mwyn hwyluso hyn, rydym wedi canoli ein gwasanaethau i gwsmeriaid yng Nghanolfan Ymgysylltu â Chwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru. Rydym yn sefydlu cynlluniau peilot i ddangos amseroedd bysiau byw mewn safleoedd bysiau. Rydym yn buddsoddi mewn canolfannau trafnidiaeth i alluogi pobl i feicio, cerdded a theithio ar olwynion i orsafoedd trenau a bysiau.

Rydym hefyd yn symleiddio'r broses docynnau. Rydym wedi cynnal treialon ar gyfer un tocyn y gellir ei ddefnyddio ar nifer o fysiau a chwmnïau bysiau yng Ngogledd Cymru. Mae ein ap newydd wedi gweld tocynnau trên digidol yn cynyddu i 65% o'r holl docynnau sy'n cael eu gwerthu. Rydym yn cynnal cynlluniau peilot er mwyn i bobl allu defnyddio eu cardiau banc i dapio ar y dechrau a'r diwedd ar fysiau yng Ngogledd Cymru.

Pan welwn fod bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth drafnidiaeth, rydym yn ceisio eu cysylltu. Dosbarthwyd £48 miliwn gennym ar gyfer prosiectau teithio llesol ledled Cymru. Fe wnaethom lansio'r bws T1 trydan, gan gysylltu Caerfyrddin ac Aberystwyth. Rydym yn defnyddio data daearyddol i ddeall anghenion penodol cymunedau gwledig ledled Cymru a'r gororau.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu'r rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy hwn. Eleni, rydym wedi cyd-gadeirio gweithgorau, cydweithio ar adroddiadau a dadansoddi data ar drafnidiaeth mewn cymunedau gwledig.

Mae cydweithio ag awdurdodau lleol, cyd-bwyllgorau corfforaethol a busnesau lleol yn allweddol i'n dull gweithredu. Rydym wedi bod yn cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu a darparu prosiectau teithio llesol. Mae cefnogaeth barhaus ein partneriaid a'n rhanddeiliaid yn gwneud ein gwaith yn bosibl. Gyda'n gilydd, rydym yn creu rhwydwaith trafnidiaeth y gall pobl Cymru fod yn falch ohono.

Fodd bynnag, nid yw'r broses hon yn hawdd ac rydym wedi gorfod delio â materion seilwaith, problemau cychwynnol gyda threnau newydd, effeithiau dilynol gweithredu diwydiannol ar draws y DU a'r tarfu ar Linellau Craidd y Cymoedd wrth i ni fuddsoddi ar gyfer y dyfodol. Ar ran pawb sy'n ymwneud â Trafnidiaeth Cymru, hoffwn ddiolch i'n rhanddeiliaid pwysicaf—ein cwsmeriaid—am eu goddefgarwch wrth i ni fynd i'r afael â'r materion hyn a'u goresgyn.

Rydym bob amser yn cynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn rheoli'r risgiau presennol. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i berfformio, mae'n rhaid i ni reoli risgiau cadwyni cyflenwi, chwyddiant, newid yn yr hinsawdd a gweithredu diwydiannol.

Rydym am i'r twf hwn fod yn gynaliadwy. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd yn 2019 ac rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Eleni, cyhoeddwyd ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy, sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwneud teithio yng Nghymru yn fwy cynaliadwy dros y pum mlynedd nesaf. Bydd cydnerthedd yr hinsawdd yn cael ei integreiddio i bob agwedd ar ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Bydd sicrhau ein bod yn newid y ffordd mae pobl yn teithio yng Nghymru yn allweddol i gyflawni'r nodau cynaliadwyedd, sero net a llesiant hyn.

Hoffwn ddiolch i'n Bwrdd am eu cefnogaeth a'u cyfraniad parhaus dros y flwyddyn. Maent wedi ein llywio'n fedrus drwy flwyddyn gymhleth arall. Mae James Price, ein Prif Swyddog Gweithredol, wedi parhau i fod yn arweinydd rhagorol ac mae ganddo gefnogaeth tîm arwain ymroddedig. Mae ein cydweithwyr wedi gweithio'n galed i gyflawni popeth yn yr adroddiad hwn. Maen nhw wedi ymateb yn ystwyth i amgylchiadau sy'n newid ac wedi darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch iddynt i gyd. Mae eleni wedi cadarnhau pa mor bwysig yw trafnidiaeth gyhoeddus i gysylltu cymunedau.

Dros y blynyddoedd nesaf, gan weithio'n agosach fyth gyda'n partneriaid, byddwn yn parhau i wella ac adeiladu ar y cysylltiadau hynny. Bydd hyn yn helpu Cymru i gyflawni ei nodau sero net ac yn darparu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Datganiad y Prif Swyddog Gweithredol

## James Price



Mae mwy o bobl nag erioed yn rhyngweithio â'n llwyfannau digidol. Mae 424,000 o ddefnyddwyr yn ymweld â'n gwefan bob mis ar gyfartaledd, cynnydd o 70% ers y llynedd. Mae gwerthiant tocynnau trên ar ein ap wedi cynyddu 55%.

I TrC, mae eleni wedi bod yn flwyddyn o adferiad. Cafodd cyfyngiadau'r pandemig eu codi ac rydym wedi cael y pleser o groesawu mwy o bobl yn ôl i'n gwasanaethau. Mae refeniw teithwyr yn parhau i wella tuag at lefelau cyn y pandemig ac mae pellteroedd teithio cyfartalog ar y rheilffyrdd 14% yn hirach nag yr oeddent cyn y pandemig. Gan weithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, rydym wedi annog mwy o bobl i ddefnyddio bysiau. Yn Eryri, mae'r gwasanaeth Sherpa'r Wyddfa wedi gweld nifer y teithwyr yn cynyddu i 113% o'u niferoedd cyn y pandemig.

Mae mwy o bobl nag erioed yn rhyngweithio â'n llwyfannau digidol. Mae 424,000 o ddefnyddwyr yn ymweld â'n gwefan bob mis ar gyfartaledd, cynnydd o 70% ers y llynedd. Mae gwerthiant tocynnau trên ar ein ap wedi cynyddu 55%. Mae bron pawb yng Nghymru wedi gweld ein hymgyrch Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn, ymgyrch drafnidiaeth aml-ddull sy'n annog mwy o bobl i gerdded, beicio, teithio ar olwynion a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Rydym wedi ehangu ein gallu i gynnig cynllunio teithio ar-lein drwy brynu Traveline Cymru.

Nid yw hynny'n golygu bod pethau'n ôl i'r arfer. Mae'r argyfwng costau byw a chwyddiant uchel yn effeithio ar lawer o bobl yng Nghymru. Rydym wedi ceisio lliniaru hyn drwy ymestyn cwmpas daearyddol ein tocynnau trên am ddim i blant yn Lerpwl, Manceinion, Birmingham a Cheltenham. Ym mis Ionawr, fe wnaethom werthu tocynnau trên a chardiau rheilffordd am brisiau rhatach. Ar gyfartaledd, roedd ffoaduriaid yn cymryd 7,530 o deithiau am ddim bob mis ar ein gwasanaethau rheilffyrdd.

Yn anffodus, rydym wedi dod o hyd i namau yn rhai o'n trenau ac ar ôl tri digwyddiad thermol, roedd rhaid i ni dynnu ein trenau Dosbarth 175 o'r gwasanaeth tra oedden nhw wedi cael ymchwiliad diogelwch llawn ac uwchraddio dilynol. Byddwn yn dechrau defnyddio trenau unigol eto ar ôl iddyn nhw basio'r archwiliadau diogelwch hynny. Roedd y broses hon yn golygu bod prinder trenau dros dro ac rwy'n cydnabod yr effaith a gafodd hyn, a arweiniodd at broblemau go iawn i gwsmeriaid ledled Cymru. Hoffwn ddiolch i'n cwsmeriaid am fod yn amyneddgar gyda ni wrth i ni ddatrys y broblem.

Rydym wedi gorfod addasu i ddigwyddiadau allanol. Mae Rhyfel Wcráin a Rwsia wedi cynyddu'r pwysau ar linellau cyflenwi sydd eisoes dan straen ers y pandemig ac ymadawiad Prydain â'r UE. Mae'r digwyddiadau hyn wedi arwain at gynnydd anochel yng nghost ein gwaith seilwaith. Byddwn yn parhau i ymateb i'r risgiau hyn a'u lliniaru lle bynnag y bo modd.

Er nad yw Trafnidiaeth Cymru wedi bod mewn anghydfod ag undebau llafur y rheilffyrdd, ac yn wir wedi parhau i feithrin perthynas waith gref â'n cydweithwyr yn yr undebau llafur, mae'r gweithredu diwydiannol rhwng RMT a Network Rail wedi effeithio ar ein gwasanaethau. Byddwn yn parhau i weithio gydag undebau llafur i sicrhau bod unrhyw darfu yn y dyfodol yn cael ei liniaru cymaint ag y bo modd.

Mae tywydd eithafol hefyd wedi effeithio ar ein gwasanaethau. Roedd tymereddau uchel ym mis Gorffennaf yn golygu ein bod yn gorfod canslo gwasanaethau rheilffyrdd mewn ardaloedd â rhybudd tywydd coch. Y gaeaf hwn, mae llifogydd wedi cau llinellau. Mae'r digwyddiadau hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd teithio cynaliadwy a'r angen i ddiogelu ein seilwaith at y dyfodol. Rydym wedi buddsoddi mewn gorsafoedd tywydd a mesurau gwrthsefyll hinsawdd ar Linellau Craidd y Cymoedd er mwyn i ni allu lliniaru'r effeithiau.

Rydym wedi sefydlu ein hunain fel partner dibynadwy Llywodraeth Cymru o ran cyflawni prosiectau trafnidiaeth a'r ymrwymiadau perthnasol yn Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021. Rydym yn defnyddio ein harbenigedd i gynnig opsiynau eraill yn lle ehangu ffyrdd ac i ddarparu ymchwil ar derfynau cyflymder 20mya. Rydym yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i helpu mwy o bobl i gerdded, beicio a theithio ar olwynion i'w cyrchfan. Rydym wedi cyfrannu at yr Adolygiad Ffyrdd ac Uned Gyflawni Burns i gynnig dewisiadau eraill yn lle teithio mewn car.

Hoffwn ddiolch i bobl Cymru a'r gororau am eu hamynedd wrth inni drawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus. Yn y tymor byr, mae rhai o'n newidiadau seilwaith yn tarfu ar bethau, weithiau mewn ffordd real iawn. Yn y tymor hir, bydd mesurau fel trydaneiddio traciau, adeiladu pontydd troed ac ehangu gorsafoedd yn darparu opsiwn teithio cynaliadwy ac yn cysylltu cymunedau am genedlaethau i ddod.

Eleni, fe wnaethom gyflwyno model gweithredu newydd (y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes) a fydd yn ein galluogi i fod yn fwy ystwyth wrth ymateb i anghenion trafnidiaeth yn y dyfodol. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi croesawu Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, Pullman Rail Ltd, PTI Cymru yn ogystal â chyd-weithwyr seilwaith, glanhau ac arlwyo i deulu TrC. Bydd y newid hwn yn caniatáu i ni fod yn un sefydliad ac yn golygu y gallwn weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon. Bydd yn caniatáu i ni ddod yn ddarparwr trafnidiaeth gwirioneddol aml-ddull.

Hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr am eu holl waith caled dros y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn brawf o'u llwyddiannau trawiadol. I'w cefnogi, rydym wedi buddsoddi mewn dysgu a datblygu. Rydym wedi sefydlu gweithgor ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym wedi blaenoriaethu llesiant meddyliol a chorfforol ein cydweithwyr drwy fwy o gymorth iechyd galwedigaethol a hyfforddi swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl. Rydym wedi ymrwymo i ddileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac eleni mae ein bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau ar gyfer cydweithwyr sy'n cael eu cyflogi ar gontractau Grŵp TrC wedi lleihau i 14.0%. Rydym yn cynnig cyflogaeth i bobl sydd wedi bod yn y carchar neu sydd yn y carchar ar hyn o bryd, er mwyn rhoi ail gyfle iddyn nhw. Drwy gynlluniau graddedigion a phrentisiaethau, rydym yn datblygu sgiliau cenedlaethau iau.

Yn olaf, diolch i'n Cadeirydd Scott Waddington, y Bwrdd a'r partneriaid am eu gwaith caled, eu her adeiladol a'u cefnogaeth.



# Gwybodaeth am Trafnidiaeth Cymru

Rydym yn newid ymddygiad teithio. Rydym eisiau llai o deithiau mewn car a mwy o bobl yn cerdded, yn teithio ar olwynion, yn beicio ac yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Rydym yn adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth integredig, gan ddarparu teithio didrafferth a syml. Bydd ein rhwydwaith trafnidiaeth yn cyfrannu at gynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol hirdymor Cymru a'r gororau.

## Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw creu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid drwy rwydwaith trafnidiaeth diogel y mae Cymru'n falch ohono.

Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar wella cysylltedd. Rydym yn cyflawni hynny drwy gynllunio, comisiynu a rheoli rhwydweithiau trafnidiaeth effeithlon, a drwy fanteisio ar y sgiliau gorau o bob rhan o ddiwydiant, llywodraeth a chymdeithas.

## Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn hanfodol i bopeth a wnawn. Maent yn rhan annatod o'n diwylliant a'n ffyrdd o weithio. Byddwn ni'n creu perthynas o ymddiriedaeth gyda'n cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n rhanddeiliaid, yn seiliedig ar y canlynol:

- Bod yn ddiogel – iechyd, diogelwch a llesiant
- Bod y gorau – perfformiad uchel, cyflymder
- Bod yn bositif – os gallwn ni, fe wnawn ni
- Bod yn gysylltiedig – mentrus a rhwydweithiol
- Bod yn deg – gonestrwydd a chydraddoldeb
- Creu llwyddiant ar y cyd - brwdfrydedd dros gael y fargen orau

## Ein pwrpas

Ein pwrpas yw darparu gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy sy'n cadw Cymru i symud.

Mae trafnidiaeth yn cysylltu pobl â chymunedau, yn sail i ddatblygu cynaliadwy ac yn galluogi twf economaidd. Bydd gwell gwasanaethau/trafnidiaeth gyhoeddus yn arwain at fuddion gwirioneddol i bobl, yn cynnwys gwell mynediad at gyfleoedd gwaith ac addysg.

## Ein rôl

Mae TrC yn cydweithio â darparwyr trafnidiaeth, partneriaid, cymunedau a rhanddeiliaid eraill. Gyda'n gilydd, rydym yn darparu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, hygyrch, cynaliadwy, dibynadwy a fforddiadwy.

Nid yw TrC yn pennu polisïau, nac ychwaith yn cyflawni unrhyw swyddogaethau statudol. Ni yw partner cyflenwi trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynghorydd arbenigol ac eiriolwr dros yr holl faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Mae popeth a wnawn o fewn fframwaith polisi Llywodraeth Cymru.

# Ein strwythur

Mae Trafnidiaeth Cymru ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Rydym yn sefydliad nid-er-elw. Mae gennym dri is-gwmni gweithredol: Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig (Rheilffyrdd TrC), Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig a Pullman Rail Limited.

Eleni, fe wnaethom gyflwyno model gweithredu newydd (y ffordd rydym yn gweithredu fel busnes). Cafodd ei gyflwyno i alluogi dulliau gwell o integreiddio a chydweithio ar draws ein busnes. Wrth i'n cylch gwaith ehangu, bydd yn caniatáu i ni ymateb yn ystwyth i anghenion a pholisïau trafnidiaeth sy'n newid. Ar ben hynny, gwnaethom gyfuno ein systemau TG, gan ei gwneud yn llawer haws i ni weithio gyda'n gilydd fel un tîm.

Mae Rheilffyrdd TrC yn gyfrifol am redeg gwasanaethau rheilffyrdd o ddydd i ddydd ar hyd rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Cafodd Rheilffyrdd TrC ei greu fel Gweithredwr y Dewis Olaf a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan olynu KeolisAmey Cymru fel gweithredwr y rhwydwaith ym mis Chwefror 2021.

Mae Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn rheoli 248 o orsafoedd ac yn gweithredu'r holl brif wasanaethau sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ogystal â gwasanaethau sy'n cysylltu Cymru â Chaer, Amwythig, Lerpwl, Manceinion, Crewe, Bidston a Cheltenham.

Mae Pullman Rail Limited yn gweithredu fel cwmni annibynnol sy'n darparu gwasanaethau o dan ei frand ei hun. Mae Pullman Rail Limited yn darparu arbenigedd technegol ar y rheilffyrdd, atebion peirianyddol arbenigol, uwchraddio a thrwsio cerbydau, adnewyddu a chynnal a chadw pob cerbyd rheilffordd cludo nwyddau a theithwyr.

Mae Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn fenter ar y cyd rhwng TrC, Keolis ac Amey. TrC sydd â'r rhan fwyaf o gyfranddaliadau. Mae'r cwmni'n darparu arbenigedd a gallu arbenigol i sbarduno arloesedd a newid ar gyfer grŵp ehangach TrC, gan eu galluogi i ddarparu system drafnidiaeth aml-ddull integredig ar gyfer pobl Cymru a'r gororau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig**
Cwmni dan berchnogaeth lwyr Trafnidiaeth Cymru

**Pullman Rail Limited**
Cwmni dan berchnogaeth lwyr Trafnidiaeth Cymru

**Gwasanaethau Arloesi TrC**
Menter ar y cyd rhwng Trafnidiaeth Cymru, Keolis ac Amey



# Neges gan Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Mae awdurdod trafnidiaeth aml-ddull effeithlon, effeithiol ac atebol yn hanfodol er mwyn annog mwy o bobl i wneud penderfyniadau teithio cynaliadwy. Yng nghylch gwaith TrC a gyhoeddwyd gennyf y llynedd, nodais ein blaenoriaethau i TrC ein cefnogi ni i annog pobl i wneud penderfyniadau teithio cynaliadwy er mwyn cyrraedd ein targed Llwybr Newydd o 45% o deithiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040. Bydd cyflawni hyn yn gofyn am drawsnewid diwylliannol ar draws TrC a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru wrth galon y broses o wneud penderfyniadau.

Mae cwmpas, graddfa a chymhlethdod y gwasanaethau, sydd bellach yn cael eu darparu gan TrC, wedi tyfu'n sylweddol ers ei sefydlu. O ganlyniad i'r newidiadau sylweddol hyn ac er mwyn cyd-fynd yn well â'n hamcanion cyffredin, mae TrC wedi rhoi dulliau newydd ar waith i wella integreiddio a hyrwyddo dull aml-ddull. Rydym felly'n disgwyl gweld manteision yr ad-drefnu hwn o ran effeithlonrwydd, ystwythder ac—yn bwysicaf oll—canlyniadau.

Gwasanaethau bysiau fydd prif ffocws nesaf ein hagenda trafnidiaeth gynaliadwy ar draws y ddau sefydliad. Yn ystod tymor y Senedd hon, nid yn unig rydym yn deddfu i ailreoleiddio gwasanaethau bysiau drwy fodel masnachfraint, ond byddwn hefyd yn ystyried pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau bysiau gan gynnwys seilwaith, dyrannu ffyrdd, hygyrchedd ac integreiddio. Bydd gan TrC rôl allweddol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r model newydd ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae rôl TrC yn allweddol o ran gwella'r gwaith o ddarparu seilwaith teithio llesol ledled Cymru, o ran graddfa ac ansawdd, a manteisio i'r eithaf ar y buddsoddiad sylweddol y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Gan weithio gyda ni, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, bydd gan TrC felly rôl allweddol yn y gwaith o ysgogi'r newid ymddygiad sydd ei angen i weld y newid sylweddol mewn cyfraddau teithio llesol sy'n ofynnol wrth gyflawni ein targedau carbon.

Yn olaf, bydd cyflawni ein huchelgeisiau ehangach i ddatgarboneiddio'r rhwydwaith, lleihau anghydraddoldebau a chefnogi cymunedau gwledig yn gofyn am weithio gyda phartneriaid eraill, yn enwedig mewn llywodraeth leol ac rydym yn datblygu ein ffyrdd o weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ar draws pob ffordd o deithio i sicrhau bod eu gwybodaeth am faterion trafnidiaeth leol yn llywio ein gwaith ar draws Llywodraeth Cymru a TrC.

Felly, mae llawer eto i'w wneud. Yn anffodus, mae gwelliannau i'r seilwaith wedi achosi tarfu a byddant yn parhau i amharu ar deithwyr, yn enwedig ar ein rhwydwaith rheilffyrdd sy'n elwa o'i fuddsoddiad mwyaf ers cenedlaethau. Rwy'n deall y rhwystredigaeth y mae hyn wedi'i achosi i deithwyr ac i'r cymunedau yr effeithir arnynt ac rwy'n diolch iddynt am eu hamynedd a'u dealltwriaeth. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol i adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth integredig aml-ddull sy'n gweithio i Gymru nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Lee Waters AS**


Traws Cymru
CE72 YOL

# Adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Llywodraethu

## Heather Clash



"Nawr yn fwy nag erioed, mae angen i ni sicrhau bod popeth a wnawn yn darparu gwerth am arian i bobl Cymru."

Eleni, rydym wedi gweld ein refeniw yn cynyddu ac mae mwy o bobl yn dychwelyd i deithio ar drenau. Bydd ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol fel rhan o'r rhaglen drawsnewid ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd a Metro De Cymru yn cefnogi'r economi gyda mwy o wasanaethau rheilffyrdd. Rydym yn ei gwneud hi'n haws teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus drwy wella'r gwaith o gynllunio teithiau a symleiddio tocynnau. Gan gydweithio ag awdurdodau lleol, rydym yn gwella'r seilwaith teithio llesol. Gyda'i gilydd, bydd y prosiectau hyn yn galluogi pobl Cymru i newid eu ffordd o deithio.

Mae gan TrC berthynas waith dda â'n partneriaid undebau llafur ac nid yw wedi bod mewn anghydfod â nhw. Fodd bynnag, mae'r gweithredu diwydiannol ehangach wedi effeithio'n sylweddol arnom o hyd. Arweiniodd at achosion o ganslo gan effeithio ar ein refeniw. Gallai canslo o'r fath hefyd danseilio hyder cwsmeriaid yn ein gallu i ddarparu gwasanaethau. Os bydd y gweithredu diwydiannol hwn yn parhau, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i liniaru ei effaith.

Mae'r rhan fwyaf o'n gwariant cyfalaf wedi mynd ar ddatblygu seilwaith a threnau newydd, yn enwedig ar drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd wrth i ni ddatblygu Metro De Cymru. Wrth i ni wella ein seilwaith i wella gwasanaethau, bydd hyn yn tarfu ar gymunedau ac rydym yn parhau i'w leihau lle bynnag y bo modd. Unwaith eto, mae gwaith seilwaith yn gyfran sylweddol o'n hallyriadau carbon—rydym yn cynllunio ar gyfer hynny ac mae'n parhau i fod yn un o'n meysydd ffocws. Mae'r ôl-effeithiau tymor byr yn angenrheidiol ar gyfer nodau tymor hir trafnidiaeth gyhoeddus fodern a chynaliadwy.

Rydym hefyd yn datblygu mathau eraill o drafnidiaeth. Eleni, rydym wedi dyfarnu £48.1 miliwn i ariannu dros 250 o brosiectau teithio llesol awdurdodau lleol a rhai prosiectau rheilffyrdd sy'n ymwneud â theithio llesol ledled Cymru. Fe wnaethom lansio bysiau trydan newydd, ehangu cyfleusterau beicio mewn gorsafoedd ac edrych ar ddewisiadau eraill mewn ardaloedd gwledig yn hytrach na gyrru car.

Er mwyn hwyluso'r gwaith o adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth gwirioneddol aml-ddull, rydym wedi cyflwyno model gweithredu newydd. Bydd yn ein galluogi i symud yn fwy ystwyth rhwng prosiectau trafnidiaeth a byddwn yn gallu integreiddio teithio llesol â thrafnidiaeth gyhoeddus yn well. Bydd hyn yn ein galluogi i gymryd y cam nesaf o ran cynyddu gwasanaethau ledled Cymru.

Nawr yn fwy nag erioed, mae angen i ni sicrhau bod popeth a wnawn yn darparu gwerth am arian i bobl Cymru. Gyda'n cyllid presennol gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn parhau i fod yn gost-effeithiol a sicrhau bod ein gwasanaethau mor fforddiadwy â phosibl.

Rydym yn deall bod angen cyfuno gwerth am arian o'r fath â thryloywder a llywodraethu da. Mae gennym fframwaith llywodraethu cryf sy'n cynnwys Bwrdd Trafnidiaeth Cymru, ei bwyllgorau a'i is-fyrddau cwmnïau, y tîm arwain gweithredol a grwpiau llywodraethu er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ac o ansawdd uchel. Maent yn cefnogi ac yn herio ein gwaith, gan sicrhau ein bod yn darparu'r rhwydwaith trafnidiaeth gorau posibl i bobl Cymru.

## Perfformiad am y flwyddyn

Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau Grŵp TrC ar gyfer y flwyddyn. Rhennir y gwariant yn ôl y math o gyllid grant. Roedd ein gwariant yn unol â'r cyllid cylch gwaith a gwariant awdurdodedig arall, a oedd yn amrywio yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r ymateb i Covid-19.

Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar ffin gyllidebu llywodraeth ganolog. Nid yw'r canlyniadau'n cynnig perfformiad Pullman Rail Limited sy'n cael ei ddosbarthu fel corfforaeth gyhoeddus hyd braich ac felly y tu allan i'r ffin, ac eithrio ar gyfer trafodion cyllido a dosbarthu.

| Gwariant | Cyllid gan Lywodraeth Cymru (cylch gwaith ac ychwanegol) | Alldro: Cyfanswm y gwariant (ac eithrio prosiectau masnachol) | Alldro: Llai Ewropeaidd Cyllid cyfalaf y Gronfa Datblygu Rhanbarthol | Alldro: Llai o refeniw allanol | Alldro: Cyfanswm alldro a ariennir gan Lywodraeth Cymru* |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb refeniw | £312m | £441m | - | (£129m) | £312m |
| Cyllideb cyfalaf | £535m | £613m | (£78m) | - | £535m |
| **Cyfanswm** | **£847m** | **£1,054m** | **(£78m)** | **(£129m)** | **£847m** |

*Mae cyfanswm alldro grant Llywodraeth Cymru'n cynnwys yr elfennau canlynol:

| | Alldro: Cyllid grant gwasanaethau trên | Alldro: Grantiau bysiau a theithio llesol i Awdurdodau Lleol | Alldro: Cyllid grant cylch gwaith arall Llywodraeth Cymru | Alldro: Gweithgaredd Llywodraeth Cymru nad oedd yn cael ei ariannu gan grant | Alldro: Cyfanswm cyllid gan Lywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant refeniw sy'n cael ei ariannu gan grant | £263m | £3m | £43m | £3m | £312m |
| Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan grant | £102m | £48m | £377m | £8m | £535m |
| **Cyfanswm** | **£365m** | **£51m** | **£420m** | **£11m** | **£847m** |

Mae'r cyllid grant gwasanaethau rheilffyrdd a dderbyniwyd yn ymwneud â thaliadau a wneir o dan y cytundeb grant i weithredu masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, sy'n cael ei gweinyddu gan TrC ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae perfformiad y fasnachfraint rheilffyrdd isod. Mae refeniw rheilffyrdd yn parhau i wella o effaith pandemig y coronafeirws er mwyn cyrraedd y safonau a oedd yn bodoli cyn y pandemig. Fodd bynnag, oherwydd effeithiau'r pandemig, nid ydym wedi cyflawni'r twf graddol a ragwelwyd ar sail tybiaethau cyn y pandemig pan wnaeth Llywodraeth Cymru ddyfarnu'r contract gwasanaethau rheilffyrdd i KeolisAmey yn 2018.

| Cymhorthdal refeniw masnachfraint rheilffyrdd | £000 |
|---|---|
| **Cyfanswm refeniw teithwyr a refeniw arall nad yw'n ymwneud â Llywodraeth Cymru** | **£154,138** |
| Costau staff | (£184,602) |
| Taliadau cerbydau (ar sail y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16) | (£149,820) |
| Taliadau perfformiad (net incwm gan Network Rail a chwmnïau trenau eraill am darfu ar wasanaethau) | £19,081 |
| Taliadau seilwaith | (£61,344) |
| Costau gweithredu eraill | (£34,705) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | **(£257,251)** |
| Llog, dibrisiad ac amorteiddiad | (£4,919) |
| **Mae angen cymhorthdal refeniw Llywodraeth Cymru cyn addasiadau IFRS 16** | **(£262,170)** |
| Addasiadau cyllid IFRS 16 | (£638) |
| **Yr angen am gymhorthdal refeniw a les gan Lywodraeth Cymru** | **(£262,808)** |

## Ein datganiadau ariannol

Mae'r datganiad incwm cyfunol yn dangos colled o £26 miliwn ar gyfer y flwyddyn, i lawr o'r £30 miliwn a gollwyd yn 2022. Mae TrC yn defnyddio polisi ailbrisio ar gyfer ei asedau rhwydwaith rheilffyrdd, sy'n golygu bod y dibrisiant blynyddol o £44 miliwn (yn 2022, £44 miliwn) ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd yn sylweddol uwch na'r cyllid grant o £15 miliwn (yn 2022, £14 miliwn) i gaffael a gwella'r rhwydwaith rheilffyrdd sy'n cael ei amorteiddio drwy'r datganiad incwm. Felly, bydd hyn yn arwain at golled flynyddol barhaus yn y datganiad incwm yn unig. Caiff y golled hon ei gwrthbwyso drwy drosglwyddiad yn y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti o'r gronfa ailbrisio i warged wrth gefn o £29 miliwn (yn 2022, £30 miliwn).

Mae'r gwarged/(colled) wrth gefn ar ôl yr addasiadau hyn wedi'u nodi isod:

| Cymhorthdal refeniw | 2022/23 £000 | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| Gwarged/(colled) cyn trosglwyddo cronfeydd wrth gefn ac addasiadau caffael masnachfraint rheilffyrdd | (£26,026) | (£29,732) |
| Trosglwyddo arian wrth gefn | £29,045 | £29,622 |
| Symudiadau OCI eraill | £565 | £44 |
| **Gwarged/(colled) wrth gefn ar gyfer y flwyddyn** | **£3,584** | **(£66)** |

Gan nad yw TrC a Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn gwneud elw, mae'r gwarged wrth gefn yn cynnwys gwahaniaethau amseru yn Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf, yn bennaf mewn perthynas â lesoedd a threth gorfforaeth, yn ogystal â pherfformiad Pullman Rail Limited.

Roedd cyfanswm y treuliau ar gyfer y flwyddyn yn £656 miliwn (yn 2022, £565 miliwn). Mae'r twf hwn yn cael ei sbarduno gan gynnydd mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â rheilffyrdd (er enghraifft, datblygu strategaeth bysiau yn y dyfodol) ochr yn ochr â chynnydd mewn chwyddiant, twf mewn staff a chostau eraill sy'n gysylltiedig â cherbydau newydd ar gyfer gwasanaethau amlach.

Roeddem hefyd wedi hwyluso taliadau grant uniongyrchol i awdurdodau lleol o £3 miliwn o daliadau grant bws refeniw TrawsCymru a £48 miliwn o daliadau grant teithio llesol (fel gwerth net yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr gan fod TrC yn gweithredu fel asiant gweinyddol i Lywodraeth Cymru, nid rhoddwr grant).

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr asedau cyfalaf sydd gennym yn werth £3.4 biliwn (yn 2022, £2.7 biliwn). Gwnaethom godi £541 miliwn o ychwanegiadau cyfalaf a ariannwyd gan grant gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn ystod y flwyddyn (yn 2022, £286 miliwn), yn ogystal â £25 miliwn o wariant cyfalaf a ariannwyd gan grant (yn 2022, £6 miliwn) mewn perthynas â gwariant sy'n gymwys ar gyfer cyllid grant cyfalaf ond nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ar ein mantolen; mae hyn wedi'i gynnwys o fewn y treuliau gweinyddol yn y datganiad incwm.


Rydym yn asesu gwerth rhwydwaith trên Llinellau Craidd y Cymoedd drwy broses brisio, sydd wedi'i nodi yn nodyn 8 y cyfrifon. Mae'r prisiad yn seiliedig ar gost amnewid dibrisiedig cyfwerth modern. Y gwerth ym mis Mawrth 2023 oedd £2,135 miliwn, cynnydd o £101 miliwn o'i gymharu â'r ffigur blaenorol, yn bennaf oherwydd mynegeio, yn ogystal â £23m o adnewyddu cyfalaf a rhai diwygiadau pellach i fywydau defnyddiol wrth i'n dealltwriaeth fanwl o'r sylfaen asedau barhau i wella yn dilyn y pryniant ym mis Mawrth 2020 gan Network Rail.

Mae'r rhan fwyaf o'n hasedau eiddo, offer a chyfarpar yn gysylltiedig â seilwaith rheilffyrdd ond rydym hefyd yn dal £282m miliwn (yn 2022, £173 miliwn) o asedau cyfalaf mewnol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo, cerbydau, offer a pheiriannau, prydlesi, TG a meddalwedd a thrwyddedau data. Mae gennym £959 miliwn (yn 2022, £474 miliwn) o asedau wrthi'n cael eu hadeiladu ym mis Mawrth 2023, sy'n cynnwys y rhaglen waith sy'n cael ei gwneud i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Metro De Cymru a chostau cyfalaf mewn perthynas â sefydlu fflyd newydd.

Mae gennym £262 miliwn o asedau cyfredol, symiau masnach derbyniadwy yn bennaf a £289 miliwn o rwymedigaethau cyfredol, tymor byr, symiau taladwy cronedig yn bennaf. Mae'r symiau taladwy drwy fasnach a anfonebir yn gymharol isel (£40 miliwn) gan ein bod yn ceisio talu'r holl gyflenwyr yn brydlon.

Mae gennym rwymedigaethau anghyfredol o £1,729 miliwn, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â balansau grant cyfalaf gohiriedig i'w rhyddhau yn erbyn yr asedau. Mae'r gweddill yn cynnwys rhwymedigaethau pensiwn buddion diffiniedig, prydlesi a darpariaethau dadfeiliadau cysylltiedig.

## Sut gwnaethom wario cyllid Llywodraeth Cymru yn ystod 2022/23




011
197011



# Newid ymddygiad teithio

Rydym eisiau llai o bobl yn teithio mewn car. Dim ond os yw'r dewisiadau hynny'n hawdd eu defnyddio, yn rhad ac yn ddiogel y bydd newid i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded, beicio a theithio ar olwynion. Dyna pam rydym yn defnyddio gwyddor ymddygiad i annog pobl i newid y ffordd maen nhw'n teithio.

Bydd yn rhoi mwy o gyfleoedd a mwy o gymhelliant i bobl wneud dewisiadau teithio cynaliadwy. Rydym yn helpu pobl i wneud newidiadau i'r ffordd maen nhw'n teithio gyda hyfforddiant, cymorth a drwy gael gwared ar rwystrau. Mae rhai o'r prosiectau hyn yn ymyriadau lleol, wedi'u targedu i newid ymddygiad grwpiau a chymunedau penodol. Mae eraill ar gyfer Cymru gyfan, gyda'r bwriad o annog newid mewn ymddygiad trafnidiaeth yn genedlaethol.

## Grŵp llywio newid ymddygiad

Fe wnaethom sefydlu grŵp llywio newid ymddygiad traws-sefydliad i oruchwylio ein cynlluniau i annog newid ymddygiad. Rydym yn datblygu ein strategaeth newid ymddygiad newydd. Mae ein strategaeth yn seiliedig ar bedwar nod lefel uchel:

- lleihau'r defnydd o geir preifat
- cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio dulliau teithio llesol
- cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus
- cynyddu'r defnydd o wyddor ymddygiad yn TrC.

Rydym yn defnyddio'r dadansoddiad Gallu, Cyfle, Cymhelliant ac Ymddygiad (COM-B) i ddeall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag teithio'n fwy cynaliadwy. Mae'r dadansoddiad hwn yn ein galluogi i dargedu ein prosiectau i leihau'r rhwystrau hyn.

## Ymgyrch y Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn

Ym mis Ebrill, fe wnaethon ni lansio Y Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn. Dyma'r ymgyrch aml-ddull gyntaf ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer Cymru. Mae'r ymgyrch yn cynnwys hysbysebion teledu, radio a hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae wedi cael ei ffilmio mewn lleoliadau ledled Cymru, ac mae'n dangos pobl gyffredin yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i ymweld â'r bobl a'r llefydd maen nhw'n eu caru.

Mae'r ymgyrch 18 mis hon yn annog mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol wrth ymweld â theulu a ffrindiau, cymudo i'r gwaith a theithio ar gyfer hamdden. Yng Nghymru, mae rhagolygon yn dangos bod 99.4% o oedolion wedi gweld neu glywed ein hymgyrch. Mae'r ymgyrch wedi cynyddu'r traffig i'n gwefan a'r ymgysylltu â'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.

I fesur effaith yr ymgyrch, rydym wedi datblygu model gwerthuso pwrpasol sydd wedi'i adeiladu o amgylch y model COM-B ar gyfer newid ymddygiad. Mae'r model hwn yn ein galluogi i werthuso amrywiaeth o fesurau gan gynnwys diddordeb yn y cyfryngau, effaith fasnachol, newid ymddygiad, ac effeithiolrwydd costau. Rydym hefyd yn cynnal arolwg ymhlith cwsmeriaid er mwyn deall perfformiad yr ymgyrch.

## Troeon Trên

Rydym yn cefnogi Troeon Trên i ddarparu teithiau cerdded tywys yng nghanolbarth Cymru o orsafoedd rheilffyrdd. Drwy ymgysylltu â'r cyhoedd o bob oed—yn enwedig y rheini a allai fod â diddordeb ond sydd heb yr hyder i ymuno—rydym wedi annog defnyddio'r rheilffyrdd i gyrraedd llwybrau cerdded. Drwy ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, rydym yn hyrwyddo manteision iechyd a llesiant archwilio cefn gwlad Cymru ar droed. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Troeon Trên wedi darparu 56 o deithiau cerdded i 1,017 o gerddwyr, ac roedd 783 o'r rheini wedi teithio ar y trên (77%).

## Hyder i deithio

Rydym wedi bod yn gweithio gyda ysgolion, colegau a grwpiau cymunedol i roi'r hyder iddyn nhw deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys darparu ar gyfer anghenion penodol pobl anabl sydd â gorbryder, sy'n colli eu golwg neu sydd â symudedd cyfyngedig. Rydym yn ymgorffori hyfforddiant diogelwch a magu hyder yn y digwyddiadau.

## Ymgyrch costau byw

Ym mis Ionawr 2023, fe wnaethom lansio ymgyrch farchnata fawr i hyrwyddo cynigion i leihau prisiau i liniaru'r cynnydd mewn costau byw gan fod cost yn rhwystr allweddol i newid ymddygiad. Fe wnaethom dargedu cymudwyr a chwsmeriaid sy'n teithio pellteroedd hir, rhwng dinasoedd a theithio hamdden. Elfen allweddol yr ymgyrch hon oedd annog pobl i barhau i fabwysiadu teithio ar drenau. Nid oedd cyfyngiad ar nifer y tocynnau rhatach y gallai cwsmer eu prynu. Cafodd llwytho ap TrC i lawr ei hyrwyddo gan fod tueddiadau manwerthu yn dangos bod cyswllt cryf rhwng cadw cwsmeriaid a mabwysiadu apiau. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos cynnydd o tua 32,000 o siwrneiau ychwanegol ar y defnydd o'r rheilffyrdd ar gyfer cymudo a hamdden drwy gydol y cyfnod ymgyrchu. Mae nifer y lawrlwythiadau ar ap TrC a nifer yr ymwelwyr â'r wefan hefyd wedi cynyddu, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cynllunio ac yn prynu teithiau trên cynaliadwy yn y tymor hwy.

**99.4%**

Mae 99.4% **o oedolion yng Nghymru** wedi gweld neu wedi clywed am ein hymgyrch Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn









# Trafnidiaeth integredig

Yn TrC, rydym yn gwneud teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn fwy didrafferth ac effeithlon. Drwy Traveline Cymru a TrawsCymru, rydym yn ei gwneud hi'n haws i bobl gynllunio teithiau ar draws dulliau trafnidiaeth. Mae'r cynllunio hwn yn galluogi mwy o bobl i deithio'n gynaliadwy.

## Canolfan Ymgysylltu â Chwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru

Eleni, fe wnaethon ni greu Canolfan Ymgysylltu â Chwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru. Mae'n canoli cysylltiadau cwsmeriaid PTI Cymru, canolfan gyswllt PTI, canolfan gyswllt fflecsi a theithio consesiynol De Cymru a'r tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid.

Ein nod yw darparu gwasanaeth dwyieithog, aml-ddull o'r radd flaenaf i'r cyhoedd sy'n teithio. Rydym yn uwchsgilio ein timau cwsmeriaid i sicrhau eu bod yn gallu ymateb i amrywiadau yn y galw.


Fe wnaethom ysgrifennu strategaeth Canolfan Gyswllt y Dyfodol, yn amlinellu sut byddwn yn canoli ein holl anghenion cysylltu â chwsmeriaid ar draws y busnes dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys prosiectau newydd a chynlluniau peilot megis tocynnau Talu Wrth Ddefnyddio, Coets ar gyfer Capasiti, Cerbydau Trydan ac eraill sy'n cael eu rhoi ar gontract allanol i gyflenwyr ar hyn o bryd.

## PTI Cymru (Traveline Cymru)

PTI Cymru (Traveline Cymru) oedd y gwasanaeth gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru. Daeth yn rhan o TrC ar 1 Ebrill 2022. Mae gwasanaethau Traveline Cymru yn caniatáu i bobl gynllunio teithiau ar fws, trên, beic, awyren ac ar droed. Mae'n rhoi cyngor ar brisiau a thocynnau a gwybodaeth am hysbysiadau teithio. Eleni, derbyniodd y ganolfan gyswllt i gwsmeriaid 385,958 o alwadau. Yn yr un cyfnod, darparodd gwefan Traveline Cymru a'r ganolfan cyswllt i gwsmeriaid dros 3.3 miliwn o ddarnau o wybodaeth am gynllunio teithiau ac amserlenni i bobl sy'n teithio yng Nghymru.

## TrawsCymru

TrawsCymru yw ein gwasanaethau bysiau pellter hir ledled Cymru ac i rai cyrchfannau yn Lloegr. Fe wnaethom lansio ap a gwefan newydd ar gyfer TrawsCymru. Mae'n cyfuno cynllunio teithiau, gwybodaeth am lwybrau, tracio cerbydau byw, tocynnau ap ar ffôn symudol ac arbed carbon mewn perthynas â theithio mewn car.




## Gwneud cais am feddalwedd Hearing Enhanced Audio Relay

Fe wnaethom dreialu ap newydd a oedd yn rhoi cyhoeddiadau gwybodaeth bersonol am deithiau i gwsmeriaid sy'n colli eu clyw. Cafodd ei brofi'n llwyddiannus ar drenau TrC ar lwybr Rhymni i Benarth. Mae hysbysiadau'r ap ar gael mewn fformatau darllenadwy. Cafodd Hearing Enhanced Audio Relay ei ariannu gan yr Adran Drafnidiaeth drwy ei chystadleuaeth 'First of a Kind 2021' gwerth £9m.

**Mae 3.3 miliwn**
**darn o wybodaeth** am gynllunio teithiau ar draws y wefan a'r ganolfan gyswllt

**Cafwyd 385,958**
**o alwadau eleni** i'n canolfan gyswllt i gwsmeriaid

# Tocynnau

Er mwyn gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn haws ac yn rhatach i'w defnyddio, rydym wedi ymestyn teithio ar drenau am ddim i blant, tocynnau rhatach a phrisio deinamig. Rydym yn integreiddio tocynnau fel mai dim ond un tocyn fydd ei angen ar gwsmeriaid ar gyfer teithiau gan ddefnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth. Drwy ddatblygu atebion digidol arloesol, rydym yn lleihau gwastraff.

## Teithio ar drenau ar ôl y pandemig

Ar ôl y pandemig, mae newid wedi bod o ran sut a phryd mae pobl yn teithio ar drenau: rydym wedi gweld ein refeniw yn cynyddu a mwy o bobl yn dychwelyd i deithio ar drenau.

Bu newidiadau ar ddiwrnodau penodol a newidiadau mewn ymddygiad teithio. Ar ddydd Sul, mae'r galw yn 107% o'r lefelau cyn y pandemig. Mae hyd teithiau ar gyfartaledd wedi cynyddu 14%.

## Rhoi gwerth am arian i'n cwsmeriaid

Rydym wedi sicrhau bod mwy o bobl yn gallu elwa o'n gwasanaethau.

Rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2022, fe wnaethom ailgyflwyno prisio deinamig a gwella ein cynnyrch Prynu Tocynnau Advance ar y Diwrnod, gan alluogi cwsmeriaid i brynu tocynnau rhatach hyd at bum munud cyn teithio.

Ym mis Ionawr 2023, fe wnaethom gyflwyno nifer o gynigion costau byw, gan gynnwys gwerthu tocynnau Advance, tocynnau Multiflex rhatach a gwerthiant ar Gardiau Rheilffordd Lleol.

Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom ymestyn ein cynigion tocynnau plant am ddim i gynnwys pobl sy'n teithio i Lerpwl, Manceinion, Birmingham a Cheltenham ac oddi yno.

Ar gyfartaledd, roedd ffoaduriaid yn cymryd 7,530 o deithiau am ddim bob mis ar ein gwasanaethau rheilffyrdd.

## Ap TrC

Fe wnaethom lansio ein ap TrC dwyieithog, gan gynyddu'r refeniw o docynnau a gynhyrchir gan yr ap o 55%. Yn seiliedig ar adborth, gwnaethom welliannau o ran defnydd i alluogi cwsmeriaid i wneud y canlynol:

- rhannu taliadau dros dri rhandaliad gan ddefnyddio PayPal, 'Talu mewn 3'
- mewngofnodi'n gyflymach drwy ddefnyddio olion bysedd a dull adnabod wyneb
- dod o hyd i drenau tawelach drwy'r Gwiriwr Capasiti
- ychwanegu opsiwn cefndir tywyll i achub batri'r ffôn ac i amddiffyn straen ar y llygaid.

Cawsom ein cyhoeddi fel Pencampwyr Digidol 2022 yn y gwobrau Tocynnau Trafnidiaeth Byd-eang.

## Un tocyn ar gyfer bws a thrên

Rydym yn gweithio tuag at deithio gydag un tocyn, hyd yn oed wrth deithio ar wahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus. Eleni, fe wnaethom gyflwyno cynllun peilot un tocyn ar gyfer y llwybr bysiau T1 rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin a chysylltu teithio ar drenau.

## Gwerthu tocynnau mewn partneriaeth

Mewn partneriaeth â Trainline, fe wnaethom lansio tocynnau tymor rheilffordd â chod bar digidol, gan gynyddu'r defnydd o docynnau clyfar i dros 65% ar draws y rhwydwaith.

Mewn partneriaeth â Payzone ac Silverrail, fe wnaethom lansio cynllun peilot 12 mis i bobl brynu tocynnau trên o'u siop gornel leol neu siop cyfleus.

**14%**

Mae **hyd teithiau ar gyfartaledd** 14% yn hirach na chyn y pandemig



Allanfa
Exit
Seddi
Seats
17 - 24
Rhybudd
Caution
Seddi
Seats
25 - 40



# Teithio llesol

Mae teithio llesol yn golygu cerdded, beicio a theithio ar olwynion. Erbyn 2040, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y targed o 45% o'r holl deithiau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy. Rydym eisiau i deithio llesol fod yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer teithiau byr bob dydd.

Mae TrC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Sustrans Cymru i gyflawni prosiectau teithio llesol, gan helpu awdurdodau lleol Cymru i gyflawni eu gofyniad cyfreithiol i fapio a chynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol.

### Rhaglen y Gronfa Teithio Llesol

Byddwn yn rheoli'r rhaglen Cronfa Teithio Llesol ar ran Llywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi, datblygu a darparu llwybrau teithio llesol.

Eleni, rydym wedi cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni dros 250 o gynlluniau unigol ledled Cymru drwy reoli'r £48.1 miliwn a ddyfarnwyd iddynt gan Lywodraeth Cymru.

### Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd

Rydym yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ddatblygu Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd i wella mynediad teithio llesol at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau pellter canolig a phellter hir. Yn 2022/23, fe wnaethom ganolbwyntio ar ein gorsafoedd rheilffyrdd. Rydym wedi cwblhau cynlluniau ar gyfer gorsafoedd Pen-y-bont ar Ogwr, Hwlffordd, Llanelli, Castell-nedd a Phontypridd. Rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dyluniadau ar gyfer 11 llwybr i bum gorsaf arall (Bangor, Fflint, Caergybi, Shotton a Wrecsam Cyffredinol).

## Datblygu Rhwydwaith Teithio Llesol

Ar gyfer Llywodraeth Cymru, fe wnaethom arwain yr adolygiad o'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Gan ddefnyddio ein gwybodaeth strategol am deithio aml-ddull, fe wnaethom gynnig awgrymiadau ar gyfer gwelliannau a diwygiadau i gryfhau'r cynigion. O ganlyniad, mae 21 o'r 22 o fapiau awdurdodau lleol bellach wedi cael eu cymeradwyo gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd.

Gan weithio gyda thri awdurdod lleol, rydym yn datblygu adnodd i nodi'r llwybrau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gynyddu siwrneiau teithio llesol. Gall awdurdodau lleol wedyn flaenoriaethu'r llwybrau hyn mewn ceisiadau am gyllid.

## Llogi beiciau

Rydym yn cwblhau astudiaeth i gyfleoedd posibl i ehangu argaeledd llogi beiciau. Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn helpu i ganfod lleoliadau a allai fod yn addas ar gyfer cynlluniau llogi beiciau cyhoeddus tebyg i'r rhai yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Bydd yr astudiaeth hefyd yn tynnu sylw at orsafoedd rheilffordd a allai fod yn addas ar gyfer cyfleusterau llogi beiciau yn ôl i'r lleoliad. Gallai hyn wella'r integreiddio rhwng trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol ar gyfer teithiau o un pen i'r llall.

## Cydweithio

Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom gynnal cyfarfod ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Sustrans Cymru. Daeth y gweithdy â swyddogion allweddol o bob sefydliad at ei gilydd gyda'r nod o nodi'r blaenoriaethau teithio llesol ar gyfer pob sefydliad, gan alluogi meithrin cysylltiadau a rhannu arferion da. Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio gyda'n gilydd i nodi ein gweithgareddau presennol ac yn y dyfodol i nodi llwyddiannau cyflym posibl a meysydd ar gyfer cydweithio i gyflawni'r targedau perthnasol yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.



# Cyfleusterau storio beiciau

**Rydym yn darparu cyfleusterau storio beiciau gwell yn ein gorsafoedd.**

Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau storio beiciau sy'n cael eu monitro gan deledu cylch cyfyng, gan sicrhau y bydd gan gwsmeriaid le diogel i adael eu beic. Rydym yn gwella'r cyfleusterau ar gyfer cludo beiciau ar drenau. Rydym yn darparu cyfleusterau parcio beiciau gwell yng ngorsafoedd Cwmbrân, Caergybi, Llanharan, Pontarddulais a Dinbych-y-pysgod.

Mae Uned Gyflawni Burns—yr ydym yn ei hariannu—wedi ariannu'r gwaith o ddatblygu dau gyfleuster storio beiciau newydd yng Nghaerdydd a Chasnewydd, gan wella'r cyfle i deithio'n llesol yn y dinasoedd. Mae Spokesafe yng Nghasnewydd yn cynnig cyfleusterau storio beiciau diogel yn ystod y dydd a'r nos. Sefydlwyd yr uned gan Gap Wales, elusen ar lawr gwlad yng Nghasnewydd sy'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'r Bike Lock yng Nghaerdydd yn fenter gymdeithasol annibynnol sy'n cynnig lle storio ar gyfer oddeutu 80 o feiciau, mannau gwefru ar gyfer e-feiciau a chyfleusterau cawod.

# Bysiau

Mae TrC yn helpu awdurdodau lleol i redeg gwasanaethau bysiau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau TrawsCymru pellter hir a phellter chanolig a mwy o wasanaethau fflecsi lleol, ar-alw. Rydym yn edrych ar ffyrdd o wella cynaliadwyedd teithio ar fysiau drwy fuddsoddi mewn bysiau trydan.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni wella'r gwasanaethau bysiau sy'n cael eu darparu yng Nghymru. Mae ein gwaith yn cynnwys seilwaith, dyrannu ffyrdd, hygyrchedd ac integreiddio bysiau â dulliau trafnidiaeth gyhoeddus eraill. Rydym yn symleiddio'r system docynnau, yn ehangu llwybrau ac yn darparu gwybodaeth glir.

## Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd

Fe wnaethom gymryd perchnogaeth dros Gyfnewidfa Bws Caerdydd ar 21 Mawrth 2023. Mae'r gwaith adeiladu allanol wedi'i gwblhau erbyn hyn a gall camau nesaf y gwaith, fel y gwaith gosod mewnol, ddechrau. Rydym yn gwella'r broses o ganfod y ffordd i sicrhau bod y gyfnewidfa'n cysylltu â Chaerdydd Canolog a dulliau trafnidiaeth eraill.

## TrawsCymru T1

Fe wnaethom lansio wyth bws trydan ar lwybr TrawsCymru T1. Mae'r llwybr yn rhedeg rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Mae'n cysylltu â gwasanaethau rheilffyrdd ym mhob tref. Drwy systemau rheilffyrdd Prydain Fawr, rydym yn cynnig cyfuno cynllunio teithiau a thocynnau unffordd ar gyfer teithio ar fws a thrên. Fe wnaethom agor hyb gwefru newydd gyda chyfleusterau i yrwyr yn Sir Gaerfyrddin.

Gyda'r bysiau hyn, gellir cwblhau'r daith gyfan am un pris. Mae'r bysiau wedi cael eu profi'n helaeth. Mae ganddyn nhw system awyru, goleuadau darllen, byrddau a socedi ar gyfer gwefru ffonau symudol. Mae'r gwasanaeth newydd yn cynnwys amserlen gwell a phrisiau is sy'n seiliedig ar bellter.

## TrawsCymru T8

Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, fe wnaethom gyflwyno gwasanaeth bws T8 TrawsCymru newydd bob awr rhwng Corwen, Rhuthun, yr Wyddgrug a Chaer. Mae'n cynnig gwasanaethau amlach a chyflymach a gall teithwyr deithio heb newid bysiau. Mae'r gwasanaeth hwn yn cysylltu trefi gwledig nad ydynt ar y rhwydwaith rheilffyrdd â'i gilydd a gyda'r ganolfan drafnidiaeth yng Nghaer.

## TrawsCymru T10

Cafodd gwasanaeth bws newydd T10 TrawsCymru ei lansio ym mis Gorffennaf, ac mae'n rhedeg o Fangor i Gorwen. Mae'n darparu ffordd fwy cynaliadwy o deithio ym Mharc Cenedlaethol Eryri a'r cyffiniau. Mae'n cysylltu â'r gwasanaeth T3 presennol a'r gwasanaeth T8 newydd yng Nghorwen. Mae hyn yn caniatáu i deithwyr barhau i Langollen a Wrecsam neu Ruthin, yr Wyddgrug a Chaer.

## fflecsi

Mae'r gwasanaeth fflecsi yn fws ar-alw sy'n codi cwsmeriaid o leoliad sy'n addas iddyn nhw. Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, rydym yn rhedeg 11 cynllun fflecsi ar draws Cymru ym Mlaenau Gwent, Bwcle, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Dinbych, Treffynnon, Pen Llŷn, Sir Benfro, Prestatyn, Rhondda Cynon Taf a Rhuthun. Mae fflecsi Sir Benfro nawr yn gwasanaethu rhan fwyaf o'r sir. Mae'r parthau yn Rhuthun, Dinbych a Bwcle wedi ehangu. Mae cerbyd trydan wedi cael ei gyflwyno yn Rhuthun a Phen Llŷn.

**x11 fflecsi**

Fe wnaethon ni **gynnal 11 gwasanaeth** fflecsi ledled Cymru

# x8

Mae **bysiau trydan** wedi cael eu lansio ar lwybr TrawsCymru T1



## System docynnau Tapio ar y Dechrau a'r Diwedd ar fysiau

Yng Ngogledd Cymru, fe wnaethom lansio cynllun capio prisiau tapio ar y dechrau a'r diwedd aml-weithredwr. Gall cwsmeriaid ddefnyddio cardiau banc digyswllt neu ffonau symudol i dalu am eu tocyn. Mae'r cynllun (sy'n cynnwys chwe awdurdod lleol, 27 gweithredwr bysiau ar wahân a 200 o lwybrau) yn rhoi uchafswm cost tocyn dyddiol o £6. Y cynllun hwn yw'r mwyaf o'i fath o ran cwmpas daearyddol a chyfranogiad gweithredwyr yn y DU hyd yma.

Rydym wedi hwyluso'r gwaith o roi darllenwyr cardiau tapio ar fysiau ledled Cymru ar waith i gefnogi'r gwaith o barhau i ehangu'r cynllun.

## Diwygio'r Rhwydwaith Bysiau

Rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i adolygu rhwydweithiau bysiau lleol. Rydym wedi datblygu cynigion ar gyfer gwasanaeth bysiau mwy cydlynol, symlach ac integredig Datblygir y rhwydwaith hwn mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau.

## Deallusrwydd artiffisial i wella trafnidiaeth bysiau

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Cityswift i ddadansoddi gwybodaeth am berfformiad ar gyfer pump o brif weithredwyr bysiau Cymru. Drwy ddefnyddio'r data hwn, gall awdurdodau lleol wella amserlenni bysiau a phrydlondeb. Mae hyn yn cynnig gwasanaeth mwy dibynadwy a chyfleus i deithwyr.

## Amseroedd cyrraedd byw mewn safleoedd bysiau

Rydym wedi rhoi'r seilwaith a'r data ar waith i ddangos amseroedd bysiau byw mewn safleoedd bysiau. Rydym wedi caffael system rheoli cynnwys ac wedi sicrhau ei bod ar gael i bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hyn yn eu galluogi i ddangos gwybodaeth amser real gyson. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn treialu'r wybodaeth amser real hon mewn safleoedd bysiau mewn tri awdurdod lleol.

## Datgarboneiddio bysiau

Ein nod yw gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy effeithlon a gwyrdd. Er mwyn symud oddi wrth danwydd ffosil, rydym wedi bod yn archwilio ffynonellau ynni adnewyddadwy. Rydym yn edrych ar y potensial i ôl-osod bysiau disel fel bysiau trydan batri. Rydym yn chwilio am gyfleoedd i hyfforddi pobl yn y cymunedau lleol i wneud y gwaith.

Efallai na fydd rhai llwybrau yng Nghymru yn addas ar gyfer bysiau sy'n rhedeg ar fatri. Felly, rydym yn edrych ar wahanol ffynonellau adnewyddadwy. Ym Mae Abertawe, rydym wedi bod yn edrych ar yr achos busnes dros brosiect bysiau hydrogen. Mae hyn yn cynnwys y seilwaith cyflenwi tanwydd sydd ei angen i bweru'r 20 bws angenrheidiol.



# Sherpa’r Wyddfa

**Lansiwyd Sherpa’r Wyddfa ym mis Gorffennaf 2022, ac mae’n gwasanaethu Parc Cenedlaethol Eryri.**

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Gwynedd i wella gwasanaeth bws Sherpa’r Wyddfa. Mae’n cynnig dewis ymarferol yn lle car i dwristiaid a phobl leol, gan helpu i leddfu tagfeydd ar y ffyrdd.

Mae ganddo fwy o amlder a chysylltedd na’r gwasanaeth blaenorol ac mae’r rhwydwaith newydd yn darparu gwasanaeth bob awr bob dydd rhwng Betws-y-Coed a Chaernarfon, sy’n ardaloedd poblogaidd i dwristiaid. Mae gwasanaethau dyddiol rhwng Bangor a Phen-y-Pass yn rhoi ffordd gynaliadwy i gerddwyr deithio i droed yr Wyddfa. Yn 2022/23, cynyddodd nifer y teithwyr i 113% o’r niferoedd cyn y pandemig.



# Rheilffyrdd a seilwaith

Mae TrC wedi cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. Mae ein gwasanaethau yn cyrraedd dros 93% o boblogaeth Cymru. Rydym yn gwneud yn siŵr bod teithiau o ddrws i ddrws, gan sicrhau bod mwy o bobl yn gallu beicio, cerdded a theithio ar olwynion i'w gorsafoedd lleol ac oddi yno.

### Metro De Cymru

Ein gwariant seilwaith mwyaf eleni fu ein gwaith parhaus o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Metro De Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi ei gyllido'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Bydd y buddsoddiad yn y Metro yn helpu i uno llwybrau rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol. Mae'n brosiect aml-flwyddyn a fydd yn galluogi gwasanaethau cyflymach, amlach rhwng Caerdydd a blaenau'r cymoedd.

Eleni, fe wnaethom gau sawl rhan o'r cledrau er mwyn i ni allu gosod rheilffyrdd trydan, moderneiddio'r signalau a gwella pontydd troed. I wneud y gwaith hwn, fe wnaethom gynnal bysiau yn lle trenau a gweithio gyda'r gymuned leol i liniaru'r tarfu.

**Fe wnaeth 1,000+**
o bobl ymweld â'r **modelau trên** yn Nepo Ffynnon Taf

### Depo Ffynnon Taf

Fe wnaethom barhau i adeiladu'r ganolfan reoli, y cyfleuster cynnal a chadw a'r depo £100 miliwn yn Ffynnon Taf. Cafodd ei drawsnewid o ffrâm ddur ym mis Ebrill 2022 i fod yn gartref i'r cyntaf o'n trenau tram newydd ym mis Mawrth 2023.

Mae'r prosiect yn cynnwys codi pont ffordd a chreu twnnel rheilffordd newydd. Er mwyn gallu gwneud y gwaith hwn, bu'n rhaid i ni ailgyfeirio llwybr beicio a llwybr cerdded Llwybr Taf. Bu'n rhaid i ni gau Ffordd Bleddyn o gyffordd Heol Caerdydd a'r fynedfa i faes parcio gorsaf drenau Ffynnon Taf.

Fe wnaethom gynnal cyfres o ddiwrnodau agored i wrando a rhannu wybodaeth hefo'r gymuned. Ar y cyd â Llenyddiaeth Cymru, buom yn gweithio gydag Ysgol Gynradd Ffynnon Taf ar brosiect llenyddiaeth ynghylch sut mae gwaith y Metro yn trawsnewid Ffynnon Taf. Bydd gwaith y plant yn cael ei arddangos yn yr ysgol ac yn yr orsaf leol. Ymwelodd dros 1,000 o bobl â'r ffug drenau yn y depo yn Ffynnon Taf.






## Prosiect trawsnewid Llinell Bae Caerdydd

Fe wnaethom ddechrau ar brosiect trawsnewid Llinell Bae Caerdydd. Mae'n cynnwys gorsaf reilffordd newydd yn Butetown, ailddatblygu gorsaf Bae Caerdydd a signalau a thrydaneiddio traciau newydd. Mae'r prosiect wedi ei gyllido'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu i roi gwybodaeth i'r gymuned leol a gwrando arni. Roedd yr ymgysylltu hwn yn cynnwys anfon llythyrau at drigolion lleol, ymweld ag ysgolion a gweithleoedd a noddi digwyddiadau cymunedol fel Carnifal Butetown.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

## Rheoli asedau

Gan weithio gyda'n partneriaid, fe wnaethom uwchraddio a rheoli ein seilwaith rheilffyrdd. Roedd y gwaith a gyflawnwyd yn 2022/23 yn cynnwys:

- Clirio a chynnal ymchwiliadau tir yn Onllwyn ar gyfer safle'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd.
- Gwaith trydaneiddio parhaus gan gynnwys drilio tyllau turio, gosod dur a chodi pontydd.
- Adnewyddu pontydd troed yng Nghwmcynon, Mynwent y Crynwyr a Phont Droed y Diafol, Trefforest.
- Dechrau ar y gwaith o wneud gorsaf Trefforest yn gwbl hygyrch fel rhan o gynllun Mynediad i Bawb yr Adran Drafnidiaeth.
- Uwchraddio ein depos Amwythig, Caergybi, Machynlleth a Threganna.
- Prynu Depo y Barri.

## Gwelliannau i orsafoedd

Eleni, rydym wedi gosod:

- Twmpathau Harrington, marcwyr stopio mewn ceir ac uwchraddio croesfannau rheilffordd er mwyn i drenau newydd allu rhedeg ar y rhwydwaith.
- Stondinau storio beiciau mewn pum gorsaf yng Nghwmbrân, Caergybi, Llanharan, Pontarddulais a Dinbych-y-pysgod.
- Sgriniau gwybodaeth i gwsmeriaid yng ngorsafoedd Caerdydd Canolog, Wrecsam Cyffredinol a 12 gorsaf ar Linellau Craidd y Cymoedd.
- 26 lloches mewn 20 o orsafoedd.
- Palmant botymog mewn tair gorsaf.
- 210 o ddiffibrilwyr ar draws Cymru a'r gororau.

## Buddsoddi mewn trenau

Rydym yn buddsoddi £800 miliwn mewn trenau newydd i gynnig trenau mwy hygyrch a chyfforddus i'n cwsmeriaid. Rydym yn adnewyddu trenau hŷn i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid.

Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom gwblhau'r gwaith o adnewyddu ein 26 o drenau Dosbarth 153. Cwblhawyd y gwaith yng ngwaith Landore. Roedd y gwaith adnewyddu'n cynnwys toiledau hygyrch, adfer seddi ac adnewyddu ffitiadau.

Ym mis Ionawr 2023, fe wnaethom lansio'r cyntaf o'n trenau Dosbarth 197. Mae'r 77 trên hyn yn cael eu hadeiladu yng Nghasnewydd, Cymru gan CAF. Mae'r trenau newydd yn fwy hygyrch i gwsmeriaid anabl ac mae mwy o le i storio beiciau.

Ym mis Mawrth 2023, cafodd y cyntaf o'n trenau tram Dosbarth 398 eu danfon i ddepo Ffynnon Taf. Mae'r trenau tram hyn yn rhedeg ar drydan uwchben neu fatris. Byddant yn ymuno â'r gwasanaeth yn 2024.

Ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom lansio'r cyntaf o'n trenau Dosbarth 231. Bydd eu hinjans yn lleihau llygredd aer. Mae'r dechnoleg newydd ar y trenau yn galluogi ein cydweithwyr cynnal a chadw i wneud diagnosis o namau, eu canfod a'u trwsio o bell. Mae hyn yn golygu nad oes angen i drenau ddychwelyd i'r depo. Mae ganddynt le ar gyfer hyd at chwe beic a lefel mynediad awtomatig i deithwyr anabl.

Roeddem wedi darllen tri thrên Dosbarth 230 ar gyfer gwasanaeth ar Lein y Gororau rhwng Wrecsam a Bidston. Mae ganddynt 120 o seddi a chapasiti ar gyfer dros 420 o gwsmeriaid. Mae'r trenau metro, a gafodd eu haddasu o hen drenau tanddaearol Llundain, yn cael eu pweru gan ddisel a batris. Roedd y gwasanaeth cyntaf yn rhedeg ar 3 Ebrill 2023.

## Digwyddiadau thermol ar Ddosbarth 175

Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2023, roedd tri digwyddiad thermol ar ein fflyd Dosbarth 175. Roeddent yn cynnwys mwg a fflamau yn agos i'r injan. Ni chafodd unrhyw deithwyr na chydweithwyr eu hanafu. Roedd y system amddiffyn rhag tân yn atal unrhyw fwg a gwres rhag mynd i mewn i'r cerbydau.

Mewn ymateb, gwnaethom dynnu ein fflyd Dosbarth 175 yn ôl o'r gwasanaeth a'u trwsio yn ein depo yng Nghaer. Roedd hyn yn achosi prinder trenau ac roedden ni'n canolbwyntio ar leihau effaith tynnu'r fflyd yn ôl cymaint â phosibl ar gwsmeriaid. Rydym wedi adolygu ein prosesau gyda'n swyddogion cynnal a chadw a chyrff y diwydiant ehangach yng ngoleuni'r materion. Mae'n ddrwg gennym am yr effaith barhaus y mae hyn wedi'i chael wrth i ni weithio i atgyweirio ac uwchraddio'r trenau.

**210 o ddiffibriliwyr**
**wedi'u gosod** ar draws Cymru a'r gororau


TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES
Cymru a'r Gororau
Wales and Borders
197011

# Cysylltu cymunedau gwledig a threfol

Mae trafnidiaeth yn hanfodol er mwyn cysylltu pobl yng Nghymru ag anwyliaid, addysg, iechyd, twristiaeth a gwaith. Yr her i TrC yw sut mae cysylltu pobl yn fwy cynaliadwy. Rydym yn ymgysylltu â'r heriau penodol i'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

## Gwella trafnidiaeth wledig

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n gweithio i bawb yng Nghymru. Gall pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig wynebu heriau sylweddol wrth deithio i gael mynediad at addysg, cyflogaeth, iechyd a gweithgareddau hamdden. Mae Llywodraeth Cymru a TrC yn cymryd rhan yn yr her hon. Rydym yn edrych ar ba mor hawdd y gall pobl mewn ardaloedd gwledig gael gafael ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a pha mor hawdd y gallant deithio i bentrefi, dinasoedd neu drefi.

Gan ddefnyddio system gwybodaeth ddaearyddol (GIS), rydym wedi cynhyrchu map sy'n dangos lle mae'r 33% o boblogaeth Cymru sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Rydym wedi mapio pa gyfran o'r poblogaethau hyn sy'n gallu cael gafael ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus bob awr (neu'n amlach).

Mae TrC wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio Llwybr Gwledig Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2023. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at sut y gall awdurdodau lleol a chymunedau lleol wella cymunedau gwledig ledled Cymru.

## Clybiau ceir

Rydym yn edrych ar aelodaeth o glybiau ceir ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae clybiau ceir yn galluogi aelodau i logi ceir am y cyfnodau y mae angen iddynt eu defnyddio yn unig. Bydd cynyddu'r cyfle i logi cerbydau yn gwella ansawdd yr aer drwy ddefnyddio cerbydau allyriadau is, lleihau'r pwysau parcio a lleihau tagfeydd. Gallent hefyd helpu i leihau tlodi trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig drwy leihau'r angen i fod yn berchennog ar gar.

Mae TrC wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i alluogi cymunedau i sefydlu clybiau ceir gan ddefnyddio cerbydau ag allyriadau isel, cerbydau trydan yn bennaf. Mae'r fenter yn cefnogi clybiau gyda seilwaith codi tâl a systemau archebu. Gan ganolbwyntio i ddechrau ar Bowys, mae'r fenter wedi'i chynllunio fel y gellir ei hail-wneud yn unrhyw ardal yng Nghymru er mwyn caniatáu sefydlu clybiau ceir ar raddfa fawr.

## Metro Gogledd Cymru

Rydym wedi parhau â chynlluniau ar gyfer ein Rhaglen Metro Gogledd Cymru sy'n werth miliynau o bunnoedd. Bydd yn trawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol ar draws Cymru. Mae gwaith datblygu wedi cael ei wneud ar gapasiti, amseroedd teithio a hygyrchedd.


Rydym wedi bod yn datblygu achos busnes ar gyfer Prif Linell Gogledd Cymru a Lein y Gororau. Ar y cyd â Merseyrail, rydym yn bwriadu cynyddu nifer y trenau uniongyrchol i Lerpwl ar reilffordd y Gororau.

Ar y cyd ag awdurdodau lleol, rydym yn gwella llwybrau beicio a cherdded i orsafoedd yn Llandudno, Bangor, Caergybi, Wrecsam, Shotton a Chyffordd Llandudno.

Rydym wedi bod yn datblygu achosion busnes ac astudiaethau dichonoldeb ar gyfer prosiectau cyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol yng ngorsafoedd Porth Wrecsam, Porth Bangor a Chaergybi. Rydym yn edrych ar ehangu mynediad cynaliadwy i Barc Cenedlaethol Eryri.

# Lle mae pobl yn byw yng nghefn gwlad Cymru

Gan ddefnyddio system gwybodaeth ddaearyddol, rydym wedi cynhyrchu map sy'n dangos lle mae'r 33% o boblogaeth Cymru mewn ardaloedd gwledig yn byw.



- Ffiniau awdurdodau lleol
- Pentrefi gwledig ac anheddau ynysig mewn lleoliad gwasgarog
- Pentrefi gwledig ac anheddau ynysig
- Pentref gwledig mewn lleoliad gwasgarog
- Pentref gwledig
- Tref wledig a'i hymylon mewn lleoliad gwasgarog
- Tref wledig a'i hymylon

Ⓗ Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 OS 0100060670
© Crown copyright and database rights 2021 OS 0100060670

## Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru

Rydym wedi bod yn datblygu achosion busnes ar gyfer saith gorsaf Metro newydd. Rydym wedi datblygu cynnig ar gyfer trenau tram yn ninas Abertawe. Bydd pob gorsaf newydd arfaethedig yn plethu â'r rhwydweithiau bysiau a theithio llesol presennol ac arfaethedig yn y rhanbarth. Byddai hyn yn gwella siwrneiau ac yn darparu mwy o ddewisiadau trafnidiaeth leol ar draws Bae Abertawe.

Gyda chefnogaeth Cyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru, rydym yn datblygu cyfnewidfeydd trafnidiaeth yng ngorsafoedd rheilffordd Caerfyrddin, Llanelli, Hendy-gwyn ar Daf a Phen-bre a Phorth Tywyn. Byddai'r gwelliannau hyn yn ei gwneud yn haws newid rhwng rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol, gan annog defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy.

Rydym wedi adolygu amlder ac amseroedd teithio gwasanaethau rheilffyrdd o Orllewin Cymru. Mae'r adolygiad hwn wedi darparu achosion busnes sy'n canolbwyntio ar dri opsiwn llwybr: Caerfyrddin i Aberdaugleddau, Caerfyrddin i Abergwaun ac Abertawe i Ddoc Penfro.

## Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Buom yn edrych ar sut i wella teithio ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Choridor Gogledd-orllewin Caerdydd. Gwnaethom gwblhau pedwar achos busnes amlinellol ar gyfer cyfnewidfeydd trafnidiaeth, gan flaenoriaethu teithio ar fysiau ar ffyrdd a chynyddu amlder trenau. Fe wnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Rydym wedi cwblhau achos busnes amlinellol a dyluniad dichonoldeb ar gyfer cludo bysiau'n gyflym rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Byddai hyn yn darparu gwasanaethau uniongyrchol amledd uchel gydag amseroedd teithio cyflymach a gwell dibynadwyedd. Byddai'n darparu dewis ymarferol arall yn lle teithio mewn car.

Gwnaethom waith dichonoldeb ar gyfer gorsafoedd newydd posibl ar Linellau Craidd y Cymoedd. Fe wnaethom edrych ar ymarferoldeb cynyddu amlder trenau ar linellau'r Ddinas a Coryton. Gallai'r ymyriadau hyn ei gwneud yn haws i fwy o bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

## Prif Reilffordd De Cymru

Eleni, comisiynodd rhaglen prif reilffordd Trafnidiaeth Cymru (a ariennir gan yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru) y canlynol:

- Achos amlinellol strategol wedi'i ddiweddaru ac achos busnes amlinellol ar gyfer pum prif rheilffordd newydd rhwng Caerdydd Canolog a Chyffordd Twnnel Hafren. Byddai'r gorsafoedd hyn yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau rheilffyrdd newydd rhwng Caerdydd, Casnewydd a Bryste neu Cheltenham.
- Astudiaethau dichonoldeb ar gyfer cynyddu nifer y trenau sy'n teithio drwy Dwnnel Hafren i ddarparu ar gyfer y cynnydd arfaethedig mewn gwasanaethau.
- Achos busnes amlinellol ar gyfer gwasanaethau teithwyr rhanbarthol uniongyrchol rhwng Gorllewin Cymru a Bryste Temple Meads.
- Gwaith datblygu i sicrhau bod yr amserlen yn gydnaws rhwng y Metro rhanbarthol arfaethedig a'r prif wasanaethau.

Mae'r rhaglen yn cael ei datblygu gyda rhanddeiliaid allweddol ar y llwybr, gan gynnwys Network Rail, yr holl weithredwyr trenau perthnasol, ac awdurdodau lleol. Rydym yn gwneud gwaith rhanbarthol ar faterion trawsffiniol gyda Chorff Trafnidiaeth Is-genedlaethol Porth y Gorllewin, Awdurdod Cyfun Gorllewin Lloegr a phartneriaeth Porth y Gorllewin, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu ei weledigaeth rheilffyrdd ar gyfer 2050.




## Rhaglen Metro Canolog

Rydym wedi parhau â'n gwaith ar Raglen Metro Canolog. Bydd y rhaglen yn sefydlu canolfan drafnidiaeth integredig yng nghanol Caerdydd ar gyfer bysiau, rheilffyrdd a theithio llesol. Bydd hyn yn darparu mynediad gwell at gysylltiadau trafnidiaeth a dewisiadau teithio mwy cynaliadwy.

Gwnaethom gomisiynu adroddiad i ystyried y cyfleusterau ar gyfer gwasanaethau bysiau moethus pellter hir yng Nghaerdydd. Yn benodol, roedd gennym ddiddordeb mewn sut gellid gwella'r cyfleusterau ar gyfer bysiau a theithwyr. Gallai hyn gynnwys gorsaf fysiau moethus 24 awr newydd o bosibl. Ymgynghorwyd â Chyngor Caerdydd a gweithredwyr bysiau.

Rydym yn ystyried opsiynau posibl ar gyfer gwella llwybrau teithio yn y dyfodol rhwng Caerdydd Canolog a Heol Casnewydd, drwy Fae Caerdydd a Phorth Teigr, yn amodol ar sicrhau cyllid. Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2023. Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio fel sail i achos busnes amlinellol y prosiect.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chyngor Caerdydd ar ddatblygu a darparu cam cyntaf Crossrail Caerdydd i ddarparu cyswllt trenau tram o orsaf Caerdydd Canolog i Fae Caerdydd. Cafodd cais y Gronfa Ffyniant Bro gwerth £50m a gyflwynwyd gan Gyngor Caerdydd ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £50m arall o arian cyfatebol i'r prosiect.

Fe wnaethom ymchwilio i sut mae pobl yn teithio i Gaerdydd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon ac adloniant. Roedd yr astudiaeth wedi sefydlu llwyfan ar gyfer cydweithio yn y dyfodol rhwng TrC, darparwyr trafnidiaeth eraill a lleoliadau. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddinas mewn sefyllfa gref i gynnal a chyflwyno digwyddiadau yn y dyfodol.

Roeddem wedi adolygu arwyddion a chanfod y ffordd o amgylch ardal Metro Canolog. Nod arwyddion o'r fath yw sicrhau bod cerddwyr a beicwyr yn gallu canfod eu ffordd o amgylch Caerdydd yn gynaliadwy.



# Datblygu cynaliadwy

Mae TrC yn darparu atebion trafnidiaeth gynaliadwy. Rydym am wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Drwy gydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid, rydym yn creu Cymru sy'n fwy cynaliadwy.

### Cynllun datblygu cynaliadwy

Fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy ym mis Tachwedd 2022. Mae'n amlinellu sut y byddwn yn gwneud teithio yng Nghymru yn fwy cynaliadwy dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth. Mae'n gosod fframwaith ar gyfer creu Cymru fwy ffyniannus a chynaliadwy. Mae'n cynnig llwybr cynhwysfawr at gyflawni ein nodau datblygu cynaliadwy a sefydliadol.

**1,300 awr**

Rhoddodd gwirfoddolwyr dros 1,300 o oriau o'u hamser i brosiectau coetiroedd cymunedol

### Coed cymunedol

Drwy Coed Cymunedol, rydym wedi gwella coetiroedd ar lwybrau teithio llesol. Mae TrC a deg o bartneriaid cymunedol wedi cael £100,000 gan Gynllun Coed Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru. Roedd y prosiect yn ariannu'r gwaith o greu, gwella a rheoli wyth coetir newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Roedd yn cefnogi cynllun Coedwig Genedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru.

Buom yn cydweithio ag awdurdodau lleol, mentrau cymdeithasol ac elusennau cymunedol a rhai sy'n ymwneud â choetiroedd. Gwariwyd bron i 90% o gyllideb y prosiect gyda chyflenwyr o Gymru. Fe wnaethom helpu i ddarparu 60 o sesiynau ymgysylltu â'r gymuned a gwirfoddolwyr. Rhoddodd gwirfoddolwyr dros 1,300 awr o'u hamser.

## Llwybrau Gwyrdd

Mae ein prosiect Llwybrau Gwyrdd wedi gwella bioamrywiaeth ac wedi creu cynefinoedd mewn 25 o orsafoedd rheilffordd. Buom yn gweithio gyda 176 o wirfoddolwyr i wella dros 1,000 metr sgwâr o dir. Roedd hyn yn cynnwys gosod 125 o flychau planhigion a 300 o nodweddion gwyrdd yn ein gorsafoedd.

Mae llwyddiant y prosiect hwn wedi ein galluogi i gyflawni hanner targed Llywodraeth Cymru i wella bioamrywiaeth mewn gorsafoedd. Cafodd y prosiect £100,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol drwy Gynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru. Gwariwyd bron i 80% o'r cyllid ar fusnesau a sefydliadau lleol yng Nghymru.

## Y Ddraig Werdd

Mae System Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn rhaglen ardystio bum lefel ar gyfer busnesau yng Nghymru. Mae'n eu helpu i wella eu perfformiad amgylcheddol a'u harferion cynaliadwyedd. Eleni, cyrhaeddodd ein swyddfa yn Llys Cadwyn a'n canolfannau Arlwyo lefel pump, i fyny o lefel tri. Mae ein gorsafoedd wedi gwella i lefel tri, i fyny o lefel dau. Mae Llys Cadwyn, ein tair depo cynnal a chadw trenau a'n pedair canolfan Arlwyo ar y lefel uchaf erbyn hyn.

## Addasu a chydnerthedd o ran yr hinsawdd

Yn 2021/22, fe wnaethom ddechrau datblygu ein Cynllun Addasu a Chydnerthedd Hinsawdd. Mae'r cynllun, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, yn nodi amrywiaeth o risgiau a heriau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys llifogydd, tywydd eithafol, a lefel y môr yn codi. Er mwyn meithrin cydnerthedd yn erbyn y risgiau hyn, gallwn wella systemau draenio a buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth mwy cynaliadwy.

Bydd cydnerthedd yr hinsawdd yn cael ei integreiddio i'n prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, cymunedau a'r cyhoedd i ddatblygu atebion a hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r cynllun yn gam sylweddol tuag at adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth mwy cydnerth a chynaliadwy.

## Adroddiad Dyletswydd A6

Ym mis Rhagfyr 2022, roeddem wedi cyhoeddi ein Hadroddiad Dyletswydd A6 sy'n bodloni'r gofyniad i adrodd ar ein camau gweithredu o dan Adran 6 (A6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r adroddiad yn rhoi enghreifftiau allweddol o sut rydym yn cydymffurfio â dyletswydd A6. Mae'n nodi sut rydym yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac yn sicrhau cadernid yr ecosystemau rydym yn gofalu amdanynt ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'n dangos sut byddwn yn gwreiddio arferion cynaliadwy ar draws TrC.



# Gorsafoedd tywydd

**Fe wnaethom osod saith gorsaf dywydd ar hyd Llinellau Craidd y Cymoedd.**

Maen nhw ym Mae Caerdydd, Pontypridd, Treherbert, Aberdâr, Merthyr, Cwmbargoed a Rhymni. Mae'r gorsafoedd tywydd hyn yn darparu data tywydd byw ac yn anfon rhybuddion er mwyn i ni allu ymateb i dywydd eithafol.

Mae'r gorsafoedd tywydd wedi cael eu cyhoeddi ar system Weatherlink Davis. Maen nhw'n rhan o rwydwaith ehangach o orsafoedd tywydd ledled y DU sy'n cael eu defnyddio i wella rhagolygon y tywydd.




# Diogelwch, diogeledd a risg

Bydd diogelwch, diogeledd a risg wrth galon popeth mae TrC yn ei wneud bob amser. Rydym yn chwilio am ffyrdd o leihau hunanladdiad ar ein rhwydwaith. Rydym gwneud yn siŵr bod ein cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n gweithrediadau yn ddiogel rhag troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac aflonyddu.

Rydym yn cydnabod yr effaith y gall digwyddiadau ei chael ar unigolion a'n gallu i weithredu'n ddiogel. Rydym yn cydweithio â rhanddeiliaid i leihau a rheoli risgiau. Rydym yn ystyriol o'r cymunedau a'r amgylchedd rydym yn gweithredu ynddo.

## Cadw pobl yn ddiogel

Yn ystod Wythnos Diogelwch y Rheilffyrdd, fe wnaethom ddatblygu sioe deithiol ar ddiogelwch, Beware of the Bubble, i annog cwsmeriaid i fod yn ymwybodol o'u hamgylchedd ar blatfformau gorsafoedd.

Ar y cyd â Network Rail ac Amey Infrastructure Wales, fe wnaethom gynnal cynllun i godi ymwybyddiaeth o sut mae defnyddio croesfannau rheilffordd yn ddiogel.

Rydym yn parhau i weithredu ein strategaeth ar gyfer atal hunanladdiad. Rydym wedi cysylltu â rhanddeiliaid ac wedi adolygu arwyddion y Samariaid yn ein gorsafoedd.

Yng ngorsaf Caerdydd Canolog, fe wnaethon ni gynnal Lions Barber Collective. Mae'r grŵp hwn yn ymgysylltu ag iechyd meddwl dynion, gyda'r nod o leihau hunanladdiad ymysg dynion.

## Gosod diffibrilwyr yn ein gorsafoedd

Eleni, fe wnaethom osod 210 o ddiffibrilwyr ledled Cymru a'r gororau. Gall diffibriliwr olygu bod rhywun hyd at 70% yn fwy tebygol o oroesi. Mae'r diffibrilwyr wedi'u cofrestru ar-lein, sy'n caniatáu i wasanaethau ambiwlans y GIG gyfeirio aelodau o'r cyhoedd at y diffibriliwr agosaf pan fo angen.

Buom yn gweithio gyda Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ar ymgyrch i annog pobl i beidio â fandaleiddio'r diffibrilwyr hyn. Mae'r chwaraewyr pêl-droed Rubin Colliwill, Mark Harris, Hollie Smith a Seren Watkins i gyd wedi cymryd rhan mewn fideo sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd cael diffibrilwyr mewn cymunedau. Cafodd y fideo ei rannu ar sianeli cyfryngau cymdeithasol TrC a Dinas Caerdydd i dargedu cefnogwyr pêl-droed iau a phobl sy'n defnyddio trenau.

## Ar gyfer cydweithwyr a phartneriaid

Fe wnaethom roi'r defnydd o feddalwedd iAuditor ar waith a'i wreiddio yn ein busnes. Mae'r feddalwedd hon yn rhoi gwybodaeth i helpu i godi safonau diogelwch ac ansawdd.

Gwnaethom fonitro sŵn yn y cab ar ein trenau i fesur effaith amlygiad i sŵn ar ein gyrwyr. Roedd hyn yn pennu a oedd angen mesurau rheoli ychwanegol a mwy o fonitro yn y dyfodol.

Fe wnaethom roi 100 yn rhagor o gamerâu corff i gydweithwyr yn yr orsaf. Mae'r rhain yn helpu i leihau'r achosion o wrthdaro a darparu tystiolaeth o droseddu.

## Diogelwch a chydnerthedd

Rydym yn sefydlu fforymau rhanbarthol i fynd i'r afael â digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu ar y rhwydwaith. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a gwasanaethau eraill yn mynychu'r fforymau hyn. Gan ddefnyddio data, rydym yn canolbwyntio ar fannau problemus.

Rydym yn gweithio gydag elusen School of Hard Knocks ac Ysgol Gyfun Idris Davies, Rhymni i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ers i'r rhaglen ddechrau, bu gostyngiad o 40% yn yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd ar lwybr Cwm Rhymni. Mae'r disgyblion dan sylw wedi gwella eu presenoldeb a'u hymddygiad.

Rydym yn dilyn y Rhaglen Diogelwch Rheilffyrdd Genedlaethol. Rydym yn sicrhau bod ein prosiectau'n ymgorffori diogelwch yn eu dyluniad. Roedd hyn yn cynnwys lliniaru gwrthderfysgaeth yng ngorsaf Caerdydd Canolog a'r gyfnewidfa.

Gwnaethom fonitro ac ymateb i faterion yn ymwneud â diogelwch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar sail y wybodaeth ddiweddaraf o adroddiadau gan ein cydweithwyr rheng flaen.

## Rheoli risg

Er mwyn rheoli risgiau, rydym yn darparu Adroddiad ar Lefel Bygythiadau a Chofrestr Risg Strategol i Fwrdd a Phwyllgor Archwilio a Risg TrC. Eleni, roedd y risgiau roeddem wedi'u rheoli yn cynnwys:

- goblygiadau Rhyfel Wcráin a Rwsia ar gyfer ynni a'n cadwyn gyflenwi
- effaith gweithredu diwydiannol ar draws y DU ar ein gwasanaethau rheilffyrdd
- effaith gyfunol gaeaf oer a chostau ynni uchel
- chwyddiant a chynnydd mewn prisiau.

# Ailddychmygu ffyrdd a'r defnydd o geir

Yn TrC, rydym yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o leihau nifer y milltiroedd sy'n cael eu teithio mewn ceir 10% erbyn 2030. Eleni, fe wnaethom gyfrannu at nifer o adolygiadau sy'n ymwneud â ffyrdd a'r defnydd o ffyrdd. Rydym yn rhoi prosiectau ar waith i leihau a datgarboneiddio'r defnydd o geir.

## Pwyntiau gwefru cerbydau trydan

Er mwyn darparu mwy o bwyntiau gwefru trydan, rydym wedi bod yn gweithio gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Fe wnaethom roi cymorth i Cadw a dau awdurdod lleol gyda chyngor technegol a rheoli prosiectau. Bydd y prosiectau hyn yn codi tâl mewn depos a hyd at 14 o safleoedd cyhoeddus.

Yn Wrecsam, fe wnaethom gynnal digwyddiad ymgysylltu i annog darparwyr masnachol i ddarparu pwyntiau gwefru trydan ar dir cyhoeddus. Rydym wedi datblygu adnoddau i helpu buddsoddwyr i ganfod y safleoedd gorau posibl.

Eleni, fe wnaethom adeiladu pum safle gwefru cerbydau trydan ym meysydd parcio awdurdodau lleol. Rydym yn disgwyl adeiladu 13 safle arall yn ystod 2023. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfleusterau gwefru cyflym o leiaf bob 25 milltir ar y rhan fwyaf o ffyrdd Cymru.

## Strategaeth parcio

Eleni, fe wnaethom lunio strategaeth ar gyfer ein meysydd parcio. Ar draws y rhwydwaith, mae gennym 165 o gyfleusterau parcio gyda dros 10,000 o lefydd parcio. Mae'r strategaeth yn nodi sut byddwn yn casglu data am ddefnyddwyr meysydd parcio ac yn gwella eu profiad. Ein nod yw lleihau dibyniaeth gyffredinol ar geir yng Nghymru, cadw cwsmeriaid yn ddiogel a chynyddu refeniw.

## Panel Adolygu Ffyrdd

Darparodd TrC drefniadau technegol a chefnogi rhaglenni i'r Panel Adolygu Ffyrdd. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Panel adolygu cynlluniau ffyrdd sy'n cael eu datblygu ledled Cymru a gwneud argymhellion ar gyfer dyfodol buddsoddi mewn ffyrdd yng Nghymru.

Cyflwynodd y Panel Adolygu Ffyrdd ei adroddiad terfynol ar Ddyfodol Buddsoddi mewn Ffyrdd yng Nghymru i Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2022. Cafodd ei gyhoeddi ynghyd ag Ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2023.

**5**
pum **safle gwefru cerbydau trydan** ym meysydd parcio awdurdodau lleol

**10,000**
Ar draws y rhwydwaith, mae gennym 165 o gyfleusterau parcio gyda **dros 10,000 o lefydd parcio**




# Uned Gyflawni Burns

**Rydym yn rhoi adnoddau i Uned Gyflawni Burns sy'n cyflawni argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru.**

Nod yr argymhellion yw darparu rhwydwaith o ddewisiadau eraill yn lle siwrneiau ceir ar yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru. Maent yn ceisio gwneud trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn ddewis mwy deniadol yn y rhanbarth. Mae'r uned yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynigion a chynnal ymgynghoriadau cyhoeddus.

Ym mis Mawrth 2023, gyda Chyngor Dinas Casnewydd, fe wnaethom gynnal ymgynghoriad ar welliannau teithio yng nghanol dinas Casnewydd. Fe wnaeth ddenu bron i 2,500 o ymatebion i'r arolwg.

## Polisi terfyn cyflymder o 20mya ar ffyrdd

Cyhoeddodd TrC yr Adroddiad Monitro Interim ar gyfer cam cyntaf y rhaglen terfyn cyflymder 20mya diofyn ar ffyrdd cyfyngedig. Roedd y canfyddiadau'n awgrymu gostyngiad mewn cyflymder cyfartalog ceir a chynnydd yn nifer y bobl sy'n teithio i'r ysgol drwy gerdded, beicio neu deithio ar olwynion.

## Ffordd Blaenau'r Cymoedd

Rydym hanner ffordd drwy'r prosiect pedair blynedd i drawsnewid 17.7km o gefnffordd yr A465 rhwng Dowlais Top a Hirwaun i ffordd ddeuol ddwy lôn. Rydym yn gweithio i Lywodraeth Cymru i fonitro ac ardystio dyluniad, adeiladwaith a gwaith cynnal a chadw seilwaith y prosiect.

Mae gwaith deuoli'r A465 a'r 13km ychwanegol o lwybrau beicio a llwybrau troed yn cefnogi adfywiad economaidd drwy wella mynediad at wasanaethau, swyddi a marchnadoedd allweddol. Bydd y cynllun yn darparu 120 o brentisiaethau, dros 60 o hyfforddeiaethau a dros 300 o interniaethau, gan ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn y gymuned leol.








# Working with communities, partners and stakeholders

Rydym yn meithrin perthynas gref a pharhaol â rhanddeiliaid, partneriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Y flaenoriaeth ar gyfer 2022/23 oedd lliniaru effaith gwaith peirianyddol ac annog pobl i fynd yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus. Buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynllunio trafnidiaeth yn well. Gyda'n partneriaid, rydym yn gwella rhwydwaith trafnidiaeth Cymru.

### Ymgysylltu â chymunedau rydym yn eu gwasanaethu

I enwi ein trenau newydd, fe wnaethom gynnal cystadleuaeth wedi'i hanelu at blant ysgol rhwng 4 ac 11 oed. Roedd yn annog plant i feddwl am enwau sy'n seiliedig ar leoliad go iawn, tirnod, safle hanesyddol neu ffigur chwedlonol sy'n gysylltiedig â llefydd yng Nghymru a'r Gororau. Enillodd Tabitha, o Ysgol Tudno yn Llandudno, y gystadleuaeth ar gyfer ein trên Dosbarth 197 cyntaf, gan ddewis yr enw Happy Valley.

Fe wnaethom osod gwaith celf gan blant ysgol mewn chwe gorsaf reilffordd ledled Cymru. Cynhaliwyd y prosiect mewn partneriaeth â'n Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, preswylwyr, ysgolion a sefydliadau trydydd sector. Roedd y prosiectau'n rhoi sylw i dresmasu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a difrod troseddol. Gosodwyd y gosodiadau celf yng ngorsafoedd Y Waun, Abertawe, Bae Colwyn, Caergybi, Gogledd Llanrwst a Chonwy.

Fe wnaethom ddatblygu Trafod Trafnidiaeth, pecyn i hwyluswyr wrth ymgysylltu â'r cyhoedd ar bynciau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Bu'r cynllun peilot yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, grwpiau cymunedol, ysgolion a grwpiau ieuenctid.

Mae ein cynllun Mabwysiadu Gorsafoedd yn parhau. Mae mabwysiadwyr yn cynnal a chadw planhigion ac yn rhoi gwybod am ddiffygion, problemau a fandaliaeth yn y gorsafoedd maen nhw wedi'u mabwysiadu. Erbyn hyn, mae 330 o fabwysiadwyr gorsafoedd sy'n gwasanaethu 162 o orsafoedd. Cynhaliodd ein Tîm Rheilffyrdd Cymunedol chwe chynhadledd yng Nghaerdydd, Cyffordd Llandudno, Amwythig, Wrecsam, Caerfyrddin a Llandrindod. Daeth dros 200 o wirfoddolwyr i'r digwyddiad.

## Gweithio gyda'r llywodraeth

Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni ar ei rhan ac rydym wedi datblygu cysylltiadau cydweithredol ar draws pob maes gweithgarwch. Rydym yn gweithio i gefnogi swyddogion a'r Gweinidogion drwy gylch gwaith ffurfiol a'r cydweithrediad rhwng timau. Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth y DU i gydweithio a sicrhau darpariaeth effeithiol mewn meysydd lle rydym yn gweithredu gwasanaethau'n uniongyrchol ar eu rhan.

Roeddem wedi diweddaru canllawiau gwerthuso trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau'n helpu rhanddeiliaid a phartneriaid i gynllunio rhaglenni, polisïau a phrosiectau trafnidiaeth effeithiol.

Fe wnaethom ddarparu gwaith ymchwil a chymorth ar gyfer y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, 2022 i 2027. Roedd yn nodi sut byddai'r blaenoriaethau a'r nodau a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn cael eu cyflawni. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2023.

Buom yn gweithio gyda llywodraeth y DU ar ei hadolygiad o Fodel Gweithredu'r Ffin i leihau cost a chyfradd archwiliadau ym mhorthladdoedd y DU. Yn benodol, edrychodd ar yr effaith yng Nghaergybi, Doc Penfro ac Abergwaun.

## Mewn partneriaeth

Eleni, buom yn gweithio mewn partneriaeth â Route Media i arddangos cyfryngau digidol a sefydlog mewn gorsafoedd, ffyrdd a phontydd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe, y Rhyl, Wrecsam, Bangor, Fflint, Caergybi, Amwythig a Chaer.

Gwnaethom barhau i weithio'n agos gyda Network Rail, gan gynnwys cysoni ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi a chefnogi eu Cynlluniau Gweithredu, Cynnal a Chadw ac Adnewyddu, 2024-29. Gyda Network Rail, fe wnaethom lansio prosiect i weithio gyda'n gilydd i sicrhau gwell canlyniadau i deithwyr, cludo nwyddau a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae'r prosiect hwn yn ceisio rhagweld sut mae rhaglen diwygio rheilffyrdd y diwydiant wedi'i nodi yn Adolygiad Rheilffordd Williams-Shapps a'r bwriad i greu Great British Railways.

Drwy Pullman Rail, gwnaethom lofnodi contractau tair blynedd gyda Trafnidiaeth Llundain i drawsnewid bogïau ac olwynion ar gyfer Leiniau'r Jubilee a Piccadilly. Mae hyn wedi helpu i sicrhau swyddi ac wedi creu 15 o swyddi gwag eraill. Mae Pullman Rail yn parhau i gefnogi South West Railways drwy archwilio bogïau ac olwynion dosbarth 455.



Gwirfoddolwyr o grŵp Sgowtiaid Cydweli yn cefnogi ein prosiect Llwybrau Gwyrdd a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng ngorsaf reilffordd Cydweli

# Barn, adborth ac anghenion cwsmeriaid

Rydym bob amser yn ceisio gwella ein gwasanaethau i'n cwsmeriaid a'n defnyddwyr. Eleni, mae ein tîm Mewnwelediadau wedi bod yn gwella ein galluoedd data a dadansoddeg. Rydym wedi cyflwyno dull mwy penodol o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata ac sydd o fudd i fwy o gwsmeriaid. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o fethodolegau ac offer i sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.

### Sgwrs: Panel TrC

Sgwrs yw'r panel cwsmeriaid rydym yn ei ddefnyddio i lywio ein gwaith. Mae'r panel bellach yn cynnwys 1,500 o bobl o bob cwr o Gymru. Rydym yn gofyn i'r panelwyr beth maen nhw'n ei feddwl o frand TrC. Fe wnaethom gynnal arolygon barn ar drydaneiddio rheilffyrdd, arolygu pobl a ddefnyddiodd ein cynllun peilot Coets ar gyfer Capasiti, a chynnal cyfres o brosiectau ymchwil gyda YouGov.

Yn ddiweddar, fe wnaethom gyflwyno adnodd i werthuso effaith ymgyrchoedd fel cynlluniau Hyder wrth Deithio a Gofal wrth Gamu. Roeddem yn mesur canfyddiad pobl o drafnidiaeth gyhoeddus, eu cysylltiadau cymdeithasol cynyddol a'u mynediad at gyflogaeth.

### Dadansoddeg a data

Rydym yn defnyddio data a dadansoddeg i ddeall anghenion ein cwsmeriaid yn well. Eleni, fe wnaethom y canlynol:

- Caffael yr Arolwg Teithio Cenedlaethol. Bydd yr arolwg yn llenwi bwlch mawr mewn gwybodaeth am sut a phryd mae pobl yng Nghymru yn teithio.
- Cael data am y galw am deithio yn ystod hydref 2022 gan weithredwr rhwydwaith ffôn symudol i ddeall teithio ar ôl y pandemig.
- Dadansoddi amser y dydd roedd cwsmeriaid yn defnyddio ein gwasanaethau.
- Mesur cyfraddau gweithio gartref ledled Cymru er mwyn deall y newidiadau yn y galw am gymudwyr.

### Adborth gan banel Sgwrs

> "Gwybod bod fy marn yn cael ei gwerthfawrogi. Rwy'n teimlo fy mod yn gwneud gwahaniaeth tuag at wella trafnidiaeth yng Nghymru."

> "Mae'n rhoi cyfle i mi roi adborth i TrC ar faterion a meysydd allweddol sy'n effeithio ar ddefnyddwyr rheolaidd."

# Ein cydweithwyr a'n diwylliant



## Recriwtio a sgiliau

Yn 2022/23, tyfodd ein gweithgarwch recriwtio gyda'r lefelau uchaf erioed o swyddi gwag newydd a swyddi gwag yn cael eu llenwi.

Cynyddodd nifer staff Grŵp TrC o 602 yn 2022 i 782 (cynnydd o 29.9%). Fe wnaethom recriwtio 308 yn rhagor o gydweithwyr – cynnydd o 33% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd hyn yn cynnwys recriwtio 92 yn fewnol, cynnydd o 50% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn dangos ein hymrwymiad i ddatblygu talent o fewn y cwmni.

Cynyddodd nifer staff Rheilffyrdd TrC 10.8% o 2,762 yn 2022 i 3,060 o gydweithwyr. Fe wnaethom recriwtio 325 yn rhagor o gydweithwyr yn 2022/23 – cynnydd o 29% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd cyfanswm o 644 o drosglwyddiadau mewnol hefyd, 14% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys 449 o ddyrchafiadau, cynnydd o 18% ers y flwyddyn flaenorol.

Gwnaethom barhau i wella ein hysbysebion recriwtio i gynrychioli amrywiaeth y swyddi a'r amrywiaeth o bobl ar draws ein sefydliad. Ein nod yw annog ceisiadau gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i sicrhau bod y bobl rydym yn eu recriwtio yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Fe wnaethom uno'r llwyfannau recriwtio ar gyfer Grŵp TrC a Rheilffyrdd TrC. Arweiniodd hyn at arbedion y gellir eu hail-fuddsoddi mewn meysydd recriwtio eraill.

Ochr yn ochr â'n partner yn y diwydiant, Balfour Beatty, fe wnaethom lofnodi'r cytundeb Sgiliau Gweithio mewn Partneriaeth. Mae hyn yn ffurfioli ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau a'r angen am fwy o amrywiaeth ar draws ein diwydiant.

## Llwybrau at waith

Mae'r Rhaglen Llwybrau at Waith yn gweithio ar draws TrC a Chynghrair Craidd. Mae Cynghrair Craidd yn bartneriaeth â TrC, Balfour Beatty, Siemens Mobility, Alun Griffiths Contractors Ltd ac Amey Infrastructure Wales. Mae'n darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar gyn-filwyr a phobl sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, neu sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system. Mae'r rhaglen Llwybrau yn allweddol i TrC cynhwysol ac amrywiol.

Rydym yn mynd i gymunedau i ymgysylltu ag unigolion talentog a medrus na fyddent fel arall yn gwneud cais am ein swyddi gwag. Rydym yn cefnogi unigolion i fod yn barod am waith. Unwaith mae unigolion yn rhan o TrC, rydym yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi am gyhyd ag y bo angen, gan feithrin eu hyder a chynyddu eu siawns o lwyddo.

Hyd yma, mae 14 o bobl wedi dod drwy'r Rhaglen Llwybrau. Ar hyn o bryd, mae deg yn gweithio i TrC neu'r Gynghrair Craidd. Roedd y rhaglen yn cefnogi pedwar unigolyn arall i fynd ymlaen i ddod o hyd i waith pellach mewn sefydliadau eraill.








## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae 2022/23 wedi ein galluogi i ddatblygu ein tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gynnwys y rhaglen llwybrau at gyflogaeth. Mae'r tîm yn gweithio ar draws TrC i greu diwylliant cynhwysol. Rydym wedi ymwymo i greu Cymru decach ac er mwyn adlewyrchu gwir amrywiaeth poblogaeth Cymru a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Fe wnaethom gwblhau strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a oedd yn cynnwys arolwg gweithwyr Llesiant, Amrywiaeth a Chynhwysiant a grwpiau ffocws ar draws TrC, gan ymgysylltu â 1,700 o gydweithwyr. Roeddem wedi cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i dros 245 o reolwyr. Am yr ail flwyddyn, gwnaethom gynnal ein hymgyrch 'My Name Is' fel rhan o'n rhaglen cydraddoldeb hiliol. Yn ystod 2023/24, byddwn yn datblygu cynllun gwrth-hiliaeth.

Rydym wedi ymrwymo i wella cynrychiolaeth menywod yn y sector trafnidiaeth. Eleni, fe wnaethom y canlynol:

- Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Chwarae Teg, fe wnaethom lansio Menywod mewn Trafnidiaeth yng Nghymru yn y Senedd.
- Fe wnaethom gefnogi rhaglen LeadHERship y Senedd gan Chwarae Teg am y drydedd flwyddyn. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfleoedd cysgodi i fenywod ifanc mewn gwleidyddiaeth genedlaethol yn y Senedd, gwleidyddiaeth leol mewn gwahanol gynghorau lleol, ac ym myd busnes. Roeddem wedi darparu teithio am ddim ar y trên i'r rheini a oedd yn cymryd rhan.
- Fe wnaethom lansio'r Gyfres Iechyd Menywod ar gyfer menywod yn TrC, gan ganolbwyntio ar ymwybyddiaeth o'r Menopos gyda chanllawiau i gefnogi rheolwyr a chydweithwyr.

Fe wnaethon ni gadw ein dyfarniad Arweinydd Hyderus o ran Anabledd Lefel 3. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r materion a'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, cynhaliwyd 15 seminar amser cinio a dysgu. Fe wnaethom gefnogi cyllid a TG gyda rhaglen leoliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Cymru i Bobl Fyddar. Roeddem wedi cynnal rhaglen 16 wythnos ar gyfer nifer o bobl fyddar a thrwm eu clyw a ddatblygodd i gyflogaeth barhaol.

**Cynnydd o 33%**

yn nifer y **cydweithwyr** a gafodd eu recriwtio o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

# Sut i Drwsio Rheilffordd

**Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi rhoi mynediad i'r BBC gynhyrchu rhaglen ddogfen ar TrC. Cafodd ei darlledu ar BBC1 Wales ym mis Mawrth 2023 fel 'Sut i Drwsio Rheilffordd'.**

Roedd y rhaglen ddogfen yn cynnwys llawer o'n staff, o yrwyr a goruchwylwyr i lefel cyfarwyddwr. Roedd yn cofnodi ein staff a ymatebodd i bandemig y coronafeirws, gan uwchraddio Llinellau Craidd y Cymoedd a lansio ein trenau newydd.

"Roeddwn i'n falch iawn o fod yn rhan o'r rhaglen ac roedd hi'n wych gweld cynrychiolaeth gref o Fenywod mewn Trafnidiaeth pan ddarlledwyd y rhaglen. Rhoddodd gipolwg da iawn o'r trafferthion y mae'r busnes wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf, a'r newidiadau cyffrous sydd o'n blaenau."
Holly Flye, Rheolwr Goruchwylwyr




## Doniau cynnar

Daethom yn aelod o'r Clwb 5%. Rydym wedi addo parhau i fuddsoddi mewn prentisiaethau, cynlluniau graddedigion a lleoliadau noddedig. Rydym am i 5% o'n cydweithwyr fod yn un o'r cynlluniau hyn erbyn 2028.

Eleni, ymunodd 11 o raddedigion newydd ag ail flwyddyn y cynllun i raddedigion. 12 o raddedigion newydd yn ymuno yn 2023. Ymunodd chwe intern â ni o Brifysgol Caerdydd a rhaglenni MBA Prifysgol De Cymru.

Fe wnaethom groesawu 21 o brentisiaid newydd sy'n gweithio ym maes Risg, Adnoddau Dynol, Rheoli Prosiectau, Fflyd a Gweithrediadau. Fe wnaethom lansio Academi Prentisiaeth newydd TrC. Mae hon yn strategaeth recriwtio a rhaglen ddatblygu bwrpasol ar gyfer ein prentisiaethau. Fe wnaethom gyflwyno strwythur cyflogau newydd i ddod â chyflogau cychwynnol prentisiaethau yn unol â chyflogau byw cenedlaethol.

## Dysgu a datblygu

Mae dysgu a datblygu yn allweddol i lwyddiant ein sefydliad. Mae'n llywio'r ymddygiadau, y cymwyseddau a'r galluoedd sydd eu hangen ar ein cydweithwyr a'n sefydliad i lwyddo.

Eleni, cafodd dros 80 o gydweithwyr fudd o raglenni arweinyddiaeth fel Arwain yn Hyderus, Arwain drwy Rymuso ac Arwain gyda Dylanwad. Fe wnaethom gynnal dros 200 o sesiynau hyfforddi un-i-un a naw tîm, gan roi cipolwg i gydweithwyr ar eu cryfderau a'u gwendidau.

## Llesiant ein cydweithwyr

Yn TrC, mae iechyd a llesiant ein cydweithwyr yn flaenoriaeth. Rydym eisiau i'n cydweithwyr deimlo'n ddiogel ac yn iach wrth weithio i ni. Mae'n allweddol i lwyddiant ein busnes. Yn y flwyddyn ddiwethaf, y ddau brif reswm dros absenoldeb oedd iechyd meddwl a chyflyrau cyhyrysgerbydol.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi cydweithwyr sydd â chyflyrau iechyd meddwl. Fe wnaethom lofnodi Siarter Iechyd Meddwl y Diwydiant Rheilffyrdd i ymrwymo i beidio â stigmateiddio iechyd meddwl yn y gweithle. Roeddem wedi cefnogi arolwg ar draws y diwydiant a gomisiynwyd gan yr Adran Drafnidiaeth. Roedd yn ceisio deall a darparu argymhellion ar gyfer darpariaeth iechyd meddwl yn y diwydiant rheilffyrdd.

Rydym wedi datblygu gwasanaeth cymorth gan gymheiriaid yn TrC. Fe wnaethom hyfforddi dros 15 o gydweithwyr i fod yn Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i gyfeirio cydweithwyr at wasanaethau cymorth. Cynhaliodd y Samariaid gwrs Taith at Adferiad peilot i'n rheolwyr i roi'r sgiliau iddyn nhw gefnogi cydweithwyr sy'n profi digwyddiadau trawmatig. Cynhaliwyd seminarau ar-lein am awr o hyd gan gwnselwyr wedi'u hyfforddi ar bynciau fel profedigaeth ac iechyd meddwl dynion.

Er mwyn gwella cyflyrau cyhyrysgerbydol, gwnaethom gyflwyno triniaeth ffisiotherapi fel rhan o'n gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol. Mae hyn yn rhoi mynediad cynnar i'n cydweithwyr at driniaeth. Fe wnaethom gomisiynu asesiadau risg ergonomeg ar gyfer ein gyrwyr i atal cyflyrau cyhyrysgerbydol.





# Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

## Bwlch cyflog rhwng y rhywiau Grŵp TrC


Ar 31 Mawrth 2022, roedd Grŵp TrC yn cyflogi 774 o bobl. O blith y rhain, roedd 60.3% (467) yn ddynion ac roedd 39.7% (307) yn fenywod. Y canolrif cyflog fesul awr i ddynion oedd £15.82. I fenywod roedd yn £13.61. Mae hyn yn cynrychioli bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 14.0%. Mae hyn wedi gostwng o 33.2% ym mis Mawrth 2022. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i leihau'r bwlch cyflog.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cau oherwydd nifer o ffactorau. Yn gyntaf, ein ffocws cynyddol ar degwch i fenywod yn TrC drwy reoli talent, dysgu a datblygu a chydraddoleb, amrywiaeth a chynhwysiant. Yn ail, bu i ni gynyddu nifer y menywod mewn swyddi sy'n talu'n well. Ymunodd PTI Cymru â TrC ym mis Ebrill 2022 ac fe wnaethom newid ein Tîm Arwain Gweithredol ym mis Medi 2022. Yn drydydd, gostyngodd y dyfarniad cyflog arlwyo a glanhau y bwlch tâl canolrifol o 32.8% i 23.9%. Yn bedwerydd, roedd TrC wedi gweld cyflwyno cynllun aberthu cyflog ar gyfer ein pensiwn. Mae'r cynllun aberthu cyflog yn dod â phobl sy'n ennill cyflogau uwch ac is yn nes at ei gilydd gan fod y didyniad yn llawer mwy mewn termau ariannol i'r rhai sy'n ennill cyflogau uwch. Mae cyflwyno'r cynllun pensiwn newydd yn golygu nad oes modd cymharu'r bwlch eleni a'r bwlch y llynedd.

**Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau mewn cyflog fesul awr ar gyfer Grŵp TrC, Mawrth 2023**




**Rhyw yn ôl cyfran staff Grŵp TrC, Mawrth 2023**



## Bwlch cyflog rhwng y rhywiau Rheilffyrdd TrC

Ar 5 Ebrill 2022, roedd Rheilffydd TrC yn cyflogi 2,834 o bobl. O blith y rhain, roedd 20.0% (567) yn fenwyod ac roedd 80.0% (2,267) yn ddynion. Y canolrif cyflog fesul awr i ddynion oedd £20.67. I fenywod roedd yn £16.69. Mae hyn yn cynrychioli bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 19.2%. Mae'r bwlch hwn wedi lleihau o'i gymharu â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar 5 Ebrill 2021, sef 21.2%.

Rydym wedi cynyddu cyfran y menywod sy'n cael eu cyflogi, gyda menywod yn cyfrif am 35% o gyfanswm y penodiadau, o gymharu â 25.6% yn 2020/2021. Ar 5 Ebrill 2022, roedd 54 o yrwyr benywaidd (7.9% o'r holl yrwyr).


Drwy grwpiau ffocws a ffeiriau recriwtio, rydym yn ceisio cynyddu nifer y gyrwyr trenau sy'n ferched. Rydym yn gweithio ar y cyd ag ASLEF (yr undeb llafur sy'n cynrychioli gyrwyr trenau) i ddatblygu cynllun gweithredu i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu sy'n gyrru trenau ymhellach. Rydym wedi cwrdd â busnesau rheilffyrdd eraill a phartneriaid yn y diwydiant rheilffyrdd i rannu arferion gorau i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar draws y diwydiant o ran gyrru ar drenau.

## Symud Ymlaen


Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn adeiladu ar y gostyngiadau yn y bylchau cyflog eleni. Bydd ein strwythur newydd yn caniatáu i gydweithwyr o Grŵp TrC a Rheilffyrdd TrC weithio gyda'i gilydd i gau eu bylchau cyflog rhwng y rhywiau. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes rheilffyrdd i fenywod, yn enwedig mewn rolau gyrru trenau a pheirianneg.

Byddwn yn cynyddu ein haelodaeth o'r Ganolfan Menywod mewn Trafnidiaeth i sicrhau ein bod yn darparu pwynt canolog o gymorth a datblygiad proffesiynol i fenywod. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i lywio ein dull cyfannol newydd o ymdrin â materion cydraddoldeb. Rydym yn datblygu ein gwaith rheoli talent ar gyfer menywod drwy recriwtio, talent gynnar, llwybrau a dysgu a datblygu. Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

**Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau mewn cyflog fesul awr ar gyfer Rheilffyrdd TrC, Mawrth 2022**




**Rhyw yn ôl cyfran staff Rheilffyrdd TrC, Ebrill 2022**




Mae gan Grŵp TrC a Rheilffyrdd TrC ddyddiadau gwahanol ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, a dyna pam mae'r ddwy set o ffigurau bron i flwyddyn ar wahân. Mae camgymeriad gyda data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau Rheilffyrdd TrC yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22 yn golygu bod y ffigurau ychydig yn wahanol eleni gan ein bod bellach wedi cywiro'r wybodaeth.

# Risg

Mae risg yn rhan o fywyd bob dydd i bawb. Rydym yn gwybod bod deall risgiau'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud, y gweithgareddau rydym yn eu gwneud a'r effeithiau arnom ni, yn ein helpu ni i lywio a manteisio ar gyfleoedd drwy ein proses rheoli risg.

Mae gan ein fframwaith rheoli risg dair llinell amddiffyn. Mae'r model hwn yn sicrhau bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn cael ei gynnal mewn perthynas â risgiau a materion ar lefel briodol:

- ein llinell amddiffyn gyntaf yw'r timau gweithrediadau neu brosiectau sydd yn y sefyllfa orau i reoli risgiau o ddydd i ddydd. Maen nhw'n cael eu cefnogi i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn drwy ddefnyddio ein cronfa ddata risg a chyngor ein harbenigwyr risg sy'n cynnal cyfarfodydd adolygu risg bob mis, ac yn darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar risg gan sicrhau bod gan y gweithrediadau a'r timau prosiect yr offer angenrheidiol a mynediad at arferion gorau
- mae'r ail linell amddiffyn yn goruchwylio'r broses risg drwy weithdrefnau uwchgyfeirio ac adrodd sefydledig i gyfarfodydd lefel uwch, adolygiadau ac adroddiadau prosiectau ac, yn y pen draw, i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ac yn achos prosiectau i'r Pwyllgor Prosiectau Mawr
- ein trydedd linell amddiffyn yw ein swyddogaeth archwilio mewnol sy'n adolygu effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg y cwmni ac adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r broses hon yn golygu y gall y Bwrdd fod yn hyderus bod systemau risg Grŵp TrC yn effeithiol.

Fel rhan o Raglen Archwilio Flynyddol TrC, mae archwiliad mewnol Rheoli Risg wedi cael ei gynnal ar gyfer 2022/23. Mae'r Archwiliad wedi rhoi barn ar "Da", gan nodi nifer o feysydd o arfer da o ran Rheoli Risg, sef:

- Mae Strategaeth Rheoli Risg gyfredol.
- Mae arweinyddiaeth effeithiol a rolau a chyfrifoldebau clir.
- Mae trefniadau llywodraethu a monitro effeithiol.
- Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod risgiau'n cael eu hadolygu gyda pherchnogion risg.
- Mae tystiolaeth yn dangos bod perchnogion risg yn gwbl ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.
- Mae rhaglen hyfforddi'n cael ei chyflwyno i'r holl staff, a rhoddir hyfforddiant uwch i'r staff priodol.

## Gwelliant parhaus

Fe wnaethom ddechrau adolygiad strategol o'n system rheoli risg yn 2021 i sicrhau ein bod yn rheoli risgiau i hybu arloesedd a newid ac felly'n cyfrannu at gyflawni ein hamcanion busnes cyffredinol a'n huchelgais.

Fel rhan o'n diwylliant gwelliant parhaus, rydym wedi datblygu adnodd aeddfedrwydd risg ac wedi defnyddio hwn i feincnodi ac asesu ein gweithrediadau. Rydym nawr yn cwblhau'r asesiad hwn bob blwyddyn i fesur ein perfformiad a'r cynnydd rydym yn ei wneud.

Mae ein hadolygiad diweddar yn dangos bod y lefel aeddfedrwydd risg bresennol yn cael ei gwreiddio, a hynny drwy ein model gweithredu, fframwaith a llywodraethu risg. Fodd bynnag, gan fod rheoli risg yn system allweddol ac yn galluogi llwyddiant, rhaid ymdrechu bob amser i wella'n barhaus er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol TrC.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r system rheolaeth fewnol a rheoli risg drwy'r swyddogaeth archwilio mewnol, a thrafodaethau a heriau dilynol drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Ar sail yr archwiliad a'r adolygiad diweddaraf, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn fodlon ar effeithiolrwydd y rheoli risg a'r systemau rheolaeth fewnol.

| Adnodd aeddfedrwydd risg |
|---|
| **Sylfeini** |
| • Diwylliant risg |
| • Llywodraethu risg |
| **Galluogwyr** |
| • Capasiti a gallu |
| • Methodolegau ac arfau |
| • Data a gwybodaeth |
| **Integreiddio** |
| • Strategaeth a chynllunio busnes |
| • Prosiectau |
| • Rhaglenni a pherfformiad gweithredol |
| • Adrodd a chyfathrebu |
| • Trydydd partïon |

## Y byd go iawn, risgiau go iawn

Rhaid rheoli risgiau yn ystwyth er mwyn ymateb i sefyllfaoedd newydd yn effeithiol. Mae'n rhaid iddo edrych ymlaen er mwyn rhagweld risgiau posibl i weithrediadau a phrosiectau hysbys ac ymateb i'r potensial i ddigwyddiadau allanol neu fyd-eang gael effaith ar y sefydliad.

Fel rhan o'n proses sganio'r gorwel, rydym wedi dechrau adolygiad llawn o'r Gofrestr Risgiau Genedlaethol i ystyried digwyddiadau arwyddocaol a allai effeithio ar TrC. Mae ein arbenigwyr ar barhad busnes, diogelwch, cynaliadwyedd ac iechyd a diogelwch yn adolygu ac asesu'r risg a'r mesurau lliniaru sy'n deillio o ymosodiadau maleisus, troseddau difrifol a chyfundrefnol, peryglon amgylcheddol, iechyd pobl ac anifeiliaid, damweiniau mawr a risgiau cymdeithasol.

Er mwyn asesu effeithiau posibl gwrthdaro Rhyfel Wcráin a Rwsia ar TrC, bu ein tîm risg yn gweithio ar y cyd â'n timau cadwyn gyflenwi, caffael, Adnoddau Dynol a gweithredol. Roedd y dull gweithredu strategol hwn yn caniatáu i ni weithredu ymatebion strategol presennol fel ein cynlluniau parhad busnes ar gyfer prinder tanwydd a chymorth i weithwyr sydd â chysylltiadau â'r gwrthdaro. Rydym hefyd wedi gallu llywio drwy'r gadwyn gyflenwi i liniaru neu leihau effeithiau colli cyflenwad a chynnydd o ran costau. Ar ben hynny, roeddem yn allu adnabod risgiau eilaidd o ganlyniad i ddwyn, fel y copr sy'n cael ei ddefnyddio yn ein seilwaith ceblau, ac wrth i gost deunyddiau crai gynyddu, mae dwyn yn dod yn fwy deniadol i'r rheini sydd â bwriad troseddol.

## Prif risgiau

Mae'r tabl hwn yn nodi'r prif risgiau a allai effeithio ar TrC fel y pennir gan ein Prif Swyddog Risg, wedi'i oruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Nid yw'r tabl yn rhestr gynhwysfawr o'r risgiau a'r ansicrwydd a all godi.

Mae'r tabl yn nodi'r camau lliniaru sydd ar waith; sylwadau ar y cynnydd o ran rheoli'r risg; asesiad ynglŷn â p'un ai yw effaith bosibl y risg yn cynyddu, yn lleihau neu'n sefydlog; pa mor gyflym mae'r risg yn debygol o gael effaith.

### 1. Methiant y partner rheoli seilwaith i weithredu

**Disgrifiad o'r Risg**

Methiant y partner rheoli seilwaith i fodloni ei awdurdodiad i weithredu fel Rheolwr Seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd fel y cytunwyd gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR) gan arwain at golli'r gallu i reoli a chynnal Seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.

Effaith – y gallu i weithredu ar Linellau Craidd y Cymoedd ac oedi/tarfu ar y rhaglen drawsnewid.

**Camau lliniaru**

- Llywodraethu ar lefel uwch a monitro perfformiad allweddol.
- Monitro iechyd y gadwyn gyflenwi yn rheolaidd er mwyn deall iechyd cyflenwyr.
- Archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau sicrwydd.
- Adborth ac ymgysylltiad ORR.
- Proses seilwaith y dewis olaf fel cynllun parhad busnes.

**Datblygiadau**

- Trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad clir ar waith ac yn cael eu defnyddio.
- Proses uwchgyfeirio adroddiadau iechyd caffael.
- Rhaglenni sicrwydd ac archwilio TrC sy'n gysylltiedig â llywodraethu.
- Rhyngweithio rheolaidd ag ORR.
- Rheoli parhad busnes.

**Y cyflymder y gallai'r risg daro**

Llai na chwe mis

### 2. Methiant Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig i weithredu

**Disgrifiad o'r Risg**

Methiant Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig i gyflawni ei awdurdodiad i weithredu fel Gweithredwr Trên fel y cytunwyd gan yr ORR, gan arwain at golli'r gallu i weithredu gwasanaethau gan arwain at oedi neu darfu ar y rhaglen drawsnewid.

**Camau lliniaru**

- SeLlywodraethu ar lefel uwch a monitro perfformiad allweddol.
- Systemau, prosesau a rhaglenni integredig.
- Archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau sicrwydd.
- Adborth ac ymgysylltiad ORR.
- Cynlluniau llywodraethu'r bwrdd a pharhad busnes.

**Datblygiadau**

- Trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad clir ar waith ac yn cael eu defnyddio.
- Rhaglenni sicrwydd ac archwilio TrC sy'n gysylltiedig â llywodraethu.
- Rhyngweithio rheolaidd ag ORR.
- Rheoli parhad busnes.

**Y cyflymder y gallai'r risg daro**

Llai na chwe mis

## 3. Cyflawni trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd

### Disgrifiad o'r Risg

Risg nad yw rhaglen trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn cael ei chyflawni o fewn yr amser a'r gyllideb ac nad yw'r system wedi'i hintegreiddio'n iawn. Gallai oedi yn y rhaglen arwain at golli cyllid ERDF.

### Camau lliniaru

- Rheolaeth gadarn dros reoli a rheoli rhaglenni a phrosiectau.
- Adolygiadau rheolaidd o raglenni Gweithredu gwell llywodraethu a chraffu.

### Datblygiadau

- Cynnal adolygiadau rheolaidd o'r rhaglen ac ail-bennu llinell sylfaen.
- Cynnal a chadw a chanolbwyntio blaenoriaethol ar gerrig milltir ERDF.
- Is-bwyllgor y Bwrdd yn ei le i fonitro a chefnogi prosiectau mawr.

### Y cyflymder y gallai'r risg daro

Llai na thri mis

## 4. Digwyddiadau tywydd eithafol

### Disgrifiad o'r risg

Risg barhaus o amharu mawr ar y rhwydwaith oherwydd tywydd eithafol fel llifogydd, eira trwm a gwyntoedd stormus.

### Camau lliniaru

- Strategaethau a rhaglenni tarfu tymhorol ar y cyd.
- Monitro rhybuddion a rhagolygon y tywydd.
- Rheoli llystyfiant ac asesiadau ar gyfer coed marw, coed sydd yn marw a choed nad ydynt yn iach.
- Adolygu safleoedd llifogydd a rhaglenni adfer.
- Caniatáu i docynnau tymor gael eu defnyddio ar linellau eraill cyfagos a chynnal cytundebau gyda gweithredwyr bysiau.

### Datblygiadau

- Cyfarfodydd paratoi a newid tymhorol ar waith gyda Rheolwyr Gweithrediadau Trenau a Seilwaith.
- Gwasanaethau yn lle trenau mewn contract.
- Datblygu cynllun addasu a chydnerthedd hinsawdd TrC.

### Y cyflymder y gallai'r risg daro

Llai na thri mis

## 5. Gweithredu diwydiannol

### Disgrifiad o'r risg

Risg o streic ddiwydiannol barhaus yn achosi aflonyddwch i wasanaethau TrC. Yn benodol:

- Mae diffyg signalwyr yn golygu bod y rhan fwyaf o rwydwaith Cymru a'r gororau ar gau ar ddiwrnodau streic RMT.
- Mae diffyg gwasanaethau gweithredwyr eraill oherwydd gweithredu diwydiannol yn golygu mwy o bwysau a gorlenwi ar rai o wasanaethau TrC.

### Camau lliniaru

- Paratoi cynlluniau priodol ar gyfer y trenau wrth gefn ar gyfer y streic.
- Defnyddio cynllun cyfathrebu i roi gwybod i gwsmeriaid am yr effeithiau ar wasanaeth trên a'r rhesymau dros y streic.
- Diogelu Trenau i Drin y Cledrau (RHTT) y gallai streiciau effeithio arnynt.
- Gofyn am gadarnhad gan Network Rail eu bod yn hyfforddi signalwyr wrth gefn ar gyfer ein llwybrau er mwyn gallu rhedeg gwasanaethau ychwanegol ar ddiwrnodau streic.

### Datblygiadau

- Nid yw'r papurau presennol wedi cynnwys Rheilffyrdd TrC na staff Amey Infrastructure Wales. Fodd bynnag, byddai effaith colli gweithrediadau Network Rail yn effeithio ar weithrediadau TrC, yn enwedig ar brif wasanaethau'r rheilffordd.
- Gweithio gyda Network Rail (Cymru a Gorllewin Lloegr, a rhanbarthau'r Gogledd-orllewin a'r Canolbarth) i ganiatáu i TrC gael mynediad at rai gwasanaethau a'u gweithredu yn unol â'r strategaethau llwybrau allweddol sydd wedi'u cyhoeddi. Byddai gwasanaeth Llinellau Craidd y Cymoedd yn gweithredu i'r gogledd o Radur, gan ymestyn i orsaf Caerdydd Canolog ar adegau pan fydd signalwr Network Rail ar gael.
- Bydd bysiau yn rhedeg yn lle trenau rhwng Caerdydd Canolog a Radur ar adegau pan na fydd signalwyr dibynnol Network Rail ar ddyletswydd (er enghraifft, ar ôl 1830 ar ddiwrnodau streic).

### Y cyflymder y gallai'r risg daro

Llai nag wythnos

## 6. Toriadau mewn pŵer

### Disgrifiad o'r risg

Risg o golli pŵer yn effeithio'n ddifrifol ar weithrediadau TrC, gan darfu ar weithgareddau busnes ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.

### Camau lliniaru

- Datblygu Fframwaith Cydnerthedd Cenedlaethaol ar gyfer Toriad mewn Cyflenwad Pŵer.
- Datblygu cynllun wrth gefn llawn.
- Datblygu cynllun wrth gefn ar gyfer tanwydd.
- Ymgysylltu â Fforymau Lleol Cymru Gydnerth.
- Cymharu cyflenwadau pŵer.
- Cynnal ymarferion senario rheolaidd.
- Cysoni cynlluniau â chanllawiau'r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd.

### Datblygiadau

- Mae'r Fframwaith Cydnerthedd Cenedlaethol ar gyfer Toriad mewn Cyflenwad Pŵer wedi'i gwblhau.
- Mae ymgysylltu â Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn parhau.
- Gweithio ar gynllun wrth gefn llawn ar gyfer gweithrediadau busnes cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad o doriad mewn cyflenwad pŵer.
- Mynychu digwyddiadau ar doriad mewn cyflenwad pŵer.
- Mae manylion yn cael eu casglu am gyflenwadau pŵer cyfredol ac unrhyw gynlluniau wrth gefn neu sicrwydd a gynigir gyda nhw. Rydym yn cael rhestrau o'n safleoedd lle mae cyflenwadau wrth gefn ar gael os bydd Toriad Cenedlaethol mewn Cyflenwad Pŵer.
- Mapio sut ac ar ba raddfa y gallai'r rhwydwaith (Llinellau Craidd y Cymoedd a'r Brif Linell) weithredu yn ystod toriad pŵer a sut rydym yn cysylltu hynny ag ymateb brys.

### Y cyflymder y gallai'r risg daro

Llai nag wythnos



# Datganiad Adran 172

## Datganiad uniongyrchol

Yn ystod y flwyddyn, mae ein Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi gweithredu i hyrwyddo llwyddiant TrC er budd ei berchennog, Llywodraeth Cymru, gan ystyried (ymhlith materion eraill) y ffactorau a nodir yn adran 172(1)(a) i (f) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r materion hyn yn chwarae rhan ganolog yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel Bwrdd a ledled y cwmni. Rydym wedi integreiddio ein hadroddiadau ar draws yr adroddiad blynyddol hwn i'w gwneud yn glir sut rydym wedi ystyried canlyniadau tymor hir ein penderfyniadau. Yn benodol, rydym yn ystyried ein cyfrifoldebau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler isod), buddiannau gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr, yr amgylchedd, ein cymunedau a Llywodraeth Cymru. Mae'r penderfyniadau hyn bob amser yn seiliedig ar ein dymuniad i gynnal safonau ymddygiad uchel.

Er na fydd pob penderfyniad a wnawn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol i bawb, mae barn ein cyfarwyddwyr am y materion hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein holl randdeiliaid yn gadarn, yn ymddiried yn y prosesau gwneud penderfyniadau, yn deg ac yn gyson.

## Ein dull gweithredu

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau i'r rheini y mae ein gwaith yn effeithio arnynt, mae ein Bwrdd yn darparu arweiniad, her a chyfrannu yn y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r arweinyddiaeth hon yn gosod tôn glir ac esiampl i'w dilyn ar gyfer gweddill y cwmni, sy'n cael ei adlewyrchu yng ngwaith ein tîm o ddydd i ddydd gyda'n rhanddeiliaid.

Mae ein Bwrdd wedi mynd ati'n rhagweithiol gyda'n rhanddeiliaid drwy ymgysylltu ag amrywiaeth eang o grwpiau cynrychioliadol i wneud yn siŵr ein bod yn gwybod sut mae ein penderfyniadau'n effeithio arnyn nhw. Rydym hefyd wedi sefydlu strwythurau i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac i'n helpu ni i greu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid drwy rwydwaith trafnidiaeth diogel y mae Cymru'n falch ohono.

Rydym wedi gwneud ein penderfyniadau o fewn cyfyngiadau ein hawdurdod dirprwyedig gan Lywodraeth Cymru a'n cylch gwaith, ac mae llawer o'n penderfyniadau strategol allweddol dros y flwyddyn hefyd wedi bod drwy brosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru.

# Yn ymarferol

## Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru

**Sut rydym yn ymgysylltu:**

Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru yw perchennog TrC, ac rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd â nhw ynghylch cynlluniau, cynigion a chymeradwyaethau allweddol.

Ers mis Mai 2023, mae sylwedydd o Lywodraeth Cymru wedi bod yng nghyfarfodydd Bwrdd TrC. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal i ddarparu cynrychiolaeth llywodraeth leol yng nghyfarfodydd Bwrdd TrC.

Mae Bwrdd Llywio misol Llywodraeth Cymru yn hwyluso trafodaethau strategol am gylch gwaith a chyfeiriad TrC yn y dyfodol. Mae'n darparu trosolwg a chraffu pwysig.

**Cyfraniad y Bwrdd:**

Mae Cadeirydd Bwrdd TrC, y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol yn mynychu Bwrdd Llywio Llywodraeth Cymru.

Mae ein Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cyfarfod sy'n amlinellu trafodaethau a phenderfyniadau a wnaed yn y Bwrdd Llywio.

Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn darparu diweddariad misol ar weithgareddau TrC, sy'n cynnwys manylion penderfyniadau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru.

## Ein cwsmeriaid

**Sut rydym yn ymgysylltu:**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod buddiannau ein cwsmeriaid yn rhan greiddiol o'n prosesau gwneud penderfyniadau.

Rydym yn gwahodd adborth gan ein grwpiau cynghori a chwsmeriaid yn rheolaidd, sy'n helpu i wella ein profiad i gwsmeriaid. Gall cwsmeriaid gysylltu â ni dros y ffôn, drwy lythyr neu ar-lein i gofrestru cwynion a rhoi adborth gwerthfawr iawn i ni.

Ar ein gwefan, rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl am ein gwasanaethau ac unrhyw newidiadau, yn enwedig unrhyw darfu sydd wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio. Rydym hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael am sut i archebu cymorth teithio hygyrch.

**Cyfraniad y bwrdd:**

Mae ein Bwrdd yn sicrhau bod buddiannau cwsmeriaid yn ganolog i'w benderfyniadau, ac mae ei Bwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn darparu arweiniad ac yn herio materion sy'n ymwneud â chwsmeriaid. Mae hefyd yn derbyn gwybodaeth reolaidd am fodlonrwydd cwsmeriaid ac ansawdd gwasanaeth.

Mae pob cyfarfod o'r Bwrdd a'r Is-bwyllgor Bwrdd yn dechrau gyda 'sylw i ddiogelwch a chwsmeriaid' lle mae pynciau o ddiddordeb yn cael eu codi a'u trafod a chaiff gwersi eu dysgu.

## Ein gweithwyr

**Sut rydym yn ymgysylltu:**

Rydym yn cydnabod mai ein pobl yw un o'r ffactorau pwysicaf sy'n sbarduno llwyddiant. Maen nhw'n cael eu gwahodd yn rheolaidd i roi adborth, awgrymiadau a phryderon yn ystod ein 'Trafodaethau Cwmni Cyfan', ein blwch derbyn e-bost i gydweithwyr a'n rhwydwaith Yammer mewnol.

Rydym wedi lansio ein Siarter Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chydweithwyr. Ei nod yw creu gwasanaeth cyfathrebu mewnol ar y cyd 'y gorau o'i fath'. Mae gennym Friff Craidd: crynodeb o'r hyn sy'n digwydd ar draws y sefydliad sy'n berthnasol neu'n bwysig i gydweithwyr. Mae'r cynlluniau hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod ein dulliau cyfathrebu mewnol yn cefnogi gweledigaeth a gwerthoedd TrC, a'u bod yn effeithlon ac yn gynaliadwy.

**Cyfraniad y bwrdd:**

Mae sylwedydd undebau llafur yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd i helpu i feithrin perthynas ddiwydiannol o ymddiriedaeth gyda'n gweithwyr.

Mae ein Bwrdd hefyd yn derbyn ac yn herio diweddariadau rheolaidd gan ein Tîm Gweithredol ar faterion pwysig sy'n effeithio ar ein pobl, ac yn monitro diwylliant a pherfformiad ein strategaeth pobl.

> "Rydym yn gwahodd adborth gan ein grwpiau cynghori a chwsmeriaid yn rheolaidd, sy'n helpu i wella ein profiad i gwsmeriaid."

## Y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

**Sut rydym yn ymgysylltu:**

Gall ein gwasanaethau a'n gwaith gael effaith ar gymunedau ledled Cymru a'r Gororau. Drwy ein timau Rheilffyrdd Cymunedol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chymunedau, rydym yn gweithio'n galed i feithrin cysylltiadau â'r cymunedau hynny, eu nodi a'u hyrwyddo drwy brosiectau lleol a digwyddiadau galw heibio cyn gwaith seilwaith mawr.

Nid yw bob amser yn bosib atal tarfu ac effeithiau negyddol ar y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, ond mae ein timau'n darparu adborth yn TrC ar eu rhan er mwyn llywio ein penderfyniadau a lleihau'r tarfu lle bynnag y bo modd.

Mae ein Panel Cynghori chwarterol yn dod â chynrychiolwyr ynghyd o grwpiau cwsmeriaid, y llywodraeth, diwydiant a phobl o gefndiroedd a hunaniaeth sydd ar y cyrion er mwyn rhoi adborth, craffu a chyngor i TrC. Mae eu gweithgareddau'n cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau ac yn rhoi arweiniad pwysig yn ein proses o wneud penderfyniadau.

Dros y cyfnod adrodd, rydym hefyd wedi newid y ffordd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill, drwy gyflwyno fforwm rhanddeiliaid Cymru a'r Gororau bob tri mis sy'n rhannu'n bedwar fforwm rhanbarthol yn cynnwys Gogledd Cymru, Cymru a'r Gororau, De-ddwyrain Cymru, a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae pob fforwm yn gyfle i gynrychiolwyr o amrywiaeth eang o grwpiau y mae ein gwaith yn effeithio arnynt, i gael gwybodaeth am lawer o faterion trafnidiaeth gyhoeddus a rhoi adborth arnynt, gan amrywio o amserlenni rheilffyrdd i ymgynghoriadau sydd ar y gweill ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.

**Cyfraniad y bwrdd:**

Mae ein Bwrdd yn ymwybodol o bwysigrwydd deall ac ystyried anghenion ein cymunedau. Maen nhw'n cael diweddariadau misol drwy ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr, sy'n rhoi manylion am ein hymgysylltiad â chymunedau ac yn tynnu sylw at feysydd effaith posibl a achosir gan ein rhaglen waith a newidiadau i wasanaethau.

Mae ein Cadeirydd a Phrif Weithredwr yn mynychu ein cyfarfodydd panel cynghori, gan sicrhau eu bod yn cael adborth uniongyrchol gan aelodau.

Mae ein Prif Weithredwr yn mynychu ein Fforymau Rhanddeiliaid Cymru Gyfan a'r Gororau i gael adborth ac i drafod â'r rhai sy'n bresennol, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff addysg, partneriaid awdurdodau trafnidiaeth rhanbarthol, cyrff gwarchod trafnidiaeth, partneriaid busnes a thwristiaeth.

## Ein cyflenwyr

**Sut rydym yn ymgysylltu:**

Mae ein cynlluniau tymor hir a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu yn golygu bod ein partneriaethau cyflenwyr yn hanfodol i bopeth rydym yn ei wneud. Rydym wedi parhau i weithio i wella ein cadwyn gyflenwi, sydd wedi golygu bod angen ymgysylltu'n agos â'n cyflenwyr.

Rydym hefyd wedi parhau i hyrwyddo ein rhaglen Tegwch, Cynhwysiant a Pharch. Rydym yn aelod o Gynghrair Craidd mewn partneriaeth â Balfour Beatty, Siemens Mobility, Alun Griffiths Contractors Ltd ac Amey Infrastructure Wales. Mae'r gynghrair wedi'i chydnabod yn flaenorol am ei dull o rannu adnoddau, profiad a sgiliau er budd ei gyflenwyr, cwsmeriaid a phartneriaid.

**Cyfraniad y bwrdd:**

Mae Bwrdd TrC yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddarparu her ac adborth ar faterion y gadwyn gyflenwi drwy adroddiadau wedi'u huwchgyfeirio gan ein tîm Gweithredol ac ystyried ein cofrestr risg.

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg ein Bwrdd hefyd yn cael cyfle rheolaidd i ystyried yn y fanwl y materion sy'n ymwneud â risg.

> "Mae ein Cadeirydd a Phrif Weithredwr yn mynychu ein cyfarfodydd panel cynghori, gan sicrhau eu bod yn cael adborth uniongyrchol gan aelodau."

## Gwneud penderfyniadau cynaliadwy

Mae ein Bwrdd yn ymwybodol y bydd llawer o benderfyniadau y mae'n eu gwneud neu wedi'u dirprwyo yn cael effaith ar genedlaethau'r dyfodol yn y tymor hir, gan gynnwys ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, yr amgylchedd, yr economi ac iechyd y rhai rydym yn eu gwasanaethu. Mae ein Bwrdd yn deall yn llawn bod rhaid gwneud pob penderfyniad yn unol â nodau llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, pum ffordd o weithio tuag at yr egwyddorion datblygu cynaliadwy, a Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cymru.

Mae cynigion y Bwrdd a'r Weithrediaeth yn gofyn am ystyriaeth gynnar a thystiolaeth o unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o benderfyniadau, yn enwedig yn y tymor hir. Mae hyn yn ein herio i wneud newidiadau i ddatrys neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol yn gynnar a gwneud penderfyniadau gwell.

Mae ein Bwrdd yn poeni am y cyfraniad rydym i gyd yn ei wneud at newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth a heriau amgylcheddol eraill. Maen nhw wedi ymrwymo i leihau ein heffaith a darparu arweinyddiaeth a her ar ein hymdrechion datgarboneiddio a newid dulliau teithio.

## Symud ymlaen

Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae ein Bwrdd wedi ymrwymo i ddatblygu ein gwaith cyfredol i wella'r ffordd maen nhw'n gwneud penderfyniadau ac i roi sylw dyledus i'r materion o dan Adran 172(1)(a) i (f) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Er enghraifft, rydym yn datblygu Cod Moeseg TrC. Bydd yn cael ei gwblhau a'i roi ar waith dros y flwyddyn nesaf. Bydd y cod hwn yn dwyn ynghyd yr egwyddorion a'r disgwyliadau sydd gan ein Bwrdd ar gyfer pob gweithiwr. Bydd yn cynnwys cyngor defnyddiol ar sut i gynnal y safonau uchel o ymddygiad moesegol y mae ein cwsmeriaid a'n cymunedau yn eu disgwyl gennym.

> "Rydym yn poeni am y cyfraniad rydym i gyd yn ei wneud at newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth a heriau amgylcheddol eraill."



**James Price**

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**

Cafodd yr Adroddiad Blynyddol hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd y Cyfarwyddwr ar 27 Mehefin 2023. Mae pob cyfarwyddwr a oedd yn ei swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol yn cadarnhau fod yr Adroddiad Blynyddol, yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i randdeiliaid allu asesu safle a pherfformiad, model busnes a strategaeth TrC.

# Ein Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn cynrychioli safbwyntiau annibynnol ac amrywiol ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

Mae pob un yn chwarae rhan weithredol a gwerthfawr yn y gwaith o gyflawni ein hamcanion strategol ac maent yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau ein bod yn parhau i yrru gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o ansawdd uchel y gall pobl Cymru fod yn falch ohono.

## Cyfarwyddwyr Anweithredol

- **Scott Waddington**
  Cadeirydd
- **Sarah Howells**
  Cadeirydd, Pwyllgor Cyfathrebu a Chwsmeriaid
- **Alison Noon-Jones**
  Cadeirydd, Pwyllgorau Pobl a Thaliadau
- **Nicola Kemmery**
  Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles
- **Alun Bowen**
  Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg
- **Vernon Everitt**
  Cadeirydd, Pwyllgor Prosiectau Mawr

## Cyfarwyddwyr Gweithredol

- **James Price**
  Prif Weithredwr
- **Heather Clash**
  Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Llywodraethu

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae gennym chwe is-bwyllgor. Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan aelod annibynnol o'r Bwrdd. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Archwilio a Risg
- Cyfathrebu a Chwsmeriaid
- Pobl
- Tâl
- Iechyd, Diogelwch a Lles
- Prosiectau Mawr



## Scott Waddington

**Cadeirydd**

Yn wreiddiol o Abertawe ac wedi graddio o Brifysgol Reading, mae Scott wedi cael amrywiaeth o swyddi uwch yn y sector lletygarwch, yn bennaf ym maes marchnata diodydd a manwerthu tafarndai.

Am 17 mlynedd, bu'n Brif Weithredwr cwmni bragwyr a thafarndai Cymreig sy'n eiddo preifat, SA Brain & Co, lle bu'n arwain adolygiad cynhwysfawr o strategaeth gorfforaethol, gan ail-leoli brand Brains, buddsoddi'n helaeth mewn ehangu'r ystâd tafarndai a chaffael, datblygu a gwerthu'r gadwyn Coffee#1. Roedd hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o greu menter ar y cyd i ailddatblygu safle'r Hen Fragdy yn y Cei Canolog.

Scott oedd Cadeirydd CBI Cymru yn 2010 a 2011. Bu'n Gomisiynydd Cymru ar gyfer Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau am bum mlynedd o fis Ebrill 2012, a bu'n gadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'n Gadeirydd Clwb Busnes Caerdydd ac yn Llywodraethwr ar Fwrdd Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



## Sarah Howells

**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Wedi'i magu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Sarah yw prif swyddog cwsmeriaid Jurassic Fibre Limited, y prif ddarparwr gwasanaeth rhyngrwyd sy'n gwasanaethu De Orllewin Lloegr.

Mae'n gyfrifol am arwain yr adrannau marchnata, gwerthu, gosod a gweithrediadau cwsmeriaid wrth iddynt gyflwyno rhyngrwyd ffeibr llawn i gymunedau lleol.

Mae gan Sarah dros 20 mlynedd o brofiad ym maes gwasanaeth cwsmeriaid ar mewn amrywiaeth o ddiwydiannau. Mae hi wedi cael sawl swydd uwch mewn sefydliadau mawr ac adnabyddus yn y DU ac yn Seland Newydd, gan gynnwys Virgin Media, Vodafone, Les Mills Clothing and Merchandising, a 2 Degrees Mobile. Bu hefyd yn arwain tîm o dros 1,000 o bobl i ddarparu cymorth gwasanaeth pan roedd hi'n Bennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid i Tesco.

Mae gan Sarah enw da am ddatblygu pobl, gwella gallu digidol a sicrhau newid trawsnewidiol.



## Alison Noon-Jones

**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Mae gan Alison Noon-Jones dros 35 mlynedd o brofiad ym maes Adnoddau Dynol, 25 mlynedd ar lefel bwrdd cenedlaethol a rhyngwladol, o fewn ystod o sefydliadau proffil uchel o'r radd flaenaf, gan gynnwys Invacare Corporation, General Motors Acceptance Corporation ac Airbus Defence and Security. Mae hi wedi gweithio ar draws Ewrop ac yn y Dwyrain Canol.

Ar hyn o bryd, Alison yw Is-lywydd Pobl a Diwylliant Leidos UK and Ewrop. Mae hi'n gyfrifol am arwain tîm o 25 o weithwyr proffesiynol, sy'n darparu gwasanaethau adnoddau dynol i gefnogi busnes gwerth $500m sy'n cynnwys 1,400 o weithwyr a chontractwyr ar 11 o safleoedd ar draws y DU ac Ewrop. Ymunodd Alison â Leidos yn 2016 a chyn ymgymryd â'r rôl hon, hi oedd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y rhaglen LCST, rhaglen logisteg amddiffyn gwerth £8bn ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Mae Alison wedi treulio llawer iawn o'i gyrfa ym maes trawsnewid a rhaglenni newid strategol ar raddfa fawr yn y maes adnoddau dynol, ac mae'n ffynnu ar feithrin timau i sicrhau'r perfformiad a'r ddarpariaeth orau bosib. Mae hi'n gydweithredol ac yn meithrin partneriaethau cryf ar draws rhaglenni a busnesau.

Mae gan Alison radd mewn ieithoedd modern o Brifysgol Abertawe, mae'n Gymrawd o'r CIPD ac mae'n Fentor ac yn Hyfforddwr Gweithredol cymwys.



## Nicola Kemmery

**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Mae gan Nicola brofiad helaeth ym maes iechyd a diogelwch ac uwch reoli. Hi yw Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch Dŵr Cymru, lle mae'n gweithio ers 2010.

Ar ôl treulio'r rhan fwyaf o'i gyrfa yn y diwydiant dŵr, mae Nicola yn gyfrifol am ddatblygu ac arwain strategaeth gwella iechyd, diogelwch a llesiant Dŵr Cymru. Mae hi'n adrodd i'r Prif Weithredwr, gan ddarparu cyfeiriad ac arweiniad fel rhan o'r tîm rheoli gweithredol. Mae hi hefyd yn arwain tîm o weithwyr iechyd a diogelwch proffesiynol gan reoli amrywiaeth o swyddogaethau cynghori a llywodraethu sy'n cynorthwyo dros 3,500 o weithwyr a'u partneriaid contract.

Mae Nicola yn weithiwr proffesiynol siartredig ym maes iechyd a diogelwch, a dechreuodd ei bywyd gwaith yn Swydd Efrog. Bu'n rheolwr iechyd a diogelwch ar gyfer y Kelina Group (Gwasanaethau Dŵr Swydd Efrog) am 14 mlynedd. Dyfeisiodd a gweithredodd systemau rheoli iechyd a diogelwch a chynlluniau gwella'r Grŵp.

Mae Nicola wedi bod yn aelod o'r Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ers 29 mlynedd, gan gynnwys 6 blynedd fel Aelod etholedig o'r Cyngor. Mae hi hefyd wedi bod yn aelod gweithredol o Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Water UK am y 23 mlynedd diwethaf.



## Alun Bowen

**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Ac yntau wedi graddio mewn gwyddorau naturiol yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt, bu Alun yn gweithio i KPMG am 37 o flynyddoedd, gan gyflawni nifer o swyddi ar draws y byd, gan gynnwys yng Nghaerdydd, Llundain, Hong Kong, Sydney a Kazakhstan.

Yn wreiddiol o Landeilo, Alun oedd prif ymgynghorydd cynllunio busnes Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru. Ef oedd pennaeth byd-eang practis gwasanaethau cynaliadwy KPMG cyn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros 600 o bobl yn rhanbarth Canol Asia y busnes.

Yn gyn Gadeirydd Busnes yn y Gymuned yng Nghymru, roedd Alun yn aelod o Bwyllgor Archwilio Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr ac yn aelod o gyngor y Prince's Trust yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Pwyllgor Archwilio KAZ Minerals Limited. Alun hefyd yw Cadeirydd Pullman Rail Limited.



## Vernon Everitt

**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad ar draws y sectorau cyllid, trafnidiaeth a thechnoleg, Vernon yw Comisiynydd Trafnidiaeth Manceinion Fwyaf. Mae'n cynghori'r Maer ar ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig ar gyfer y rhanbarth ochr yn ochr â mwy o gyfleusterau teithio llesol.

Rhwng 2007 ac Ionawr 2022, Vernon oedd Rheolwr Gyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Thechnoleg yn Trafnidiaeth Llundain. Roedd Vernon yn canolbwyntio ar roi cwsmeriaid wrth galon strategaethau a gweithrediadau trafnidiaeth, gan gynnwys sut y gall integreiddio gwasanaethau a thechnoleg a data arwain at deithiau gwell. Bu Vernon yn arwain strategaeth farchnata a chyfathrebu lwyddiannus ar draws y Llywodraeth a'r diwydiant trafnidiaeth ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 Llundain, yr ymgyrch integredig fwyaf erioed o'i bath.

Mae Vernon hefyd wedi gweithio ar lefel uwch yn yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac ym Manc Lloegr mewn amrywiaeth o swyddi bancio, rheoleiddio, corfforaethol a chyfathrebu. Mae hefyd yn uwch gynghorydd i'r cwmni ymgynghori Teneo, ac mae'n Gadeirydd y Cyngor Cynghori ar Dechnoleg, National Grid ESO. Ymunodd â TrC fel Cyfarwyddwr Anweithredol ym mis Medi 2019.



## James Price

**Prif Swyddog Gweithredol**

Penodwyd James, cyn Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol yn Llywodraeth Cymru, yn Brif Swyddog Gweithredol TrC ym mis Ionawr 2018 ar ôl bod yn Gadeirydd yn ystod y cyfnod sefydlu.

Dechreuodd James ar ei yrfa ym maes contractio peirianneg sifil yn wreiddiol. Ac yntau'n economegydd proffesiynol, mae wedi gweithio ledled y DU gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a gydag asiantaethau sy'n eiddo i'r llywodraeth yng Nghymru a Lloegr.

Tan ddiwedd 2017, ef hefyd oedd y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer yr Economi, Trafnidiaeth, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, gan arwain tîm o tua 2,500 o weision sifil.

Mae James wedi bod yn gyfrifol am gyflenwi seilwaith i Lywodraeth Cymru er 2007, yn gyntaf fel Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ac yna fel Cyfarwyddwr Cyffredinol a Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol. Erbyn hyn, mae'n gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd TrC a stiwardiaeth briodol dros arian cyhoeddus. Mae James hefyd yn Gadeirydd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf ac yn Gyfarwyddwr Pullman Rail Ltd.



## Heather Clash

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid a Llywodraethu**

Ar ôl byw, astudio a gweithio yng Nghymru am dros 26 o flynyddoedd, ymunodd Heather â TrC ym mis Gorffennaf 2018. Mae hi'n weithiwr proffesiynol profiadol ym maes cyfrifyddu, ac astudiodd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hi wedi gweithio ym maes cyllid ar hyd ei gyrfa.

Mae Heather yn arbenigo mewn rheolaeth a rheoli portffolios contractau allanol a swyddogaethau corfforaethol mewn sefydliadau corfforaethol mawr. Cyn ymuno â Trafnidiaeth Cymru, bu'n Gyfarwyddwr Cyllid mewn amrywiaeth o sefydliadau mawr gan gynnwys Is-adran Gwasanaethau TG Capita Group Plc a Gwerthu a Marchnata yn y Deyrnas Unedig i Compass yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

Mae Heather yn aelod o uwch dîm arwain TrC ac mae'n gyfrifol am gynllunio a strategaeth ariannol, dadansoddi perfformiad a risg y sefydliad, goruchwylio ei swyddogaeth llywodraethu a chyllid, yn ogystal â'r holl reolaethau ariannol mewnol ac archwilio. Mae Heather hefyd yn gyfarwyddwr Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig.

# Pwyllgorau'r Bwrdd ac adroddiadau gan eu cadeiryddion

## Pwyllgor Archwilio a Risg

### Cadeirydd – Alun Bowen

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio system rheoli risg a rheolaeth fewnol TrC, ei adroddiadau ariannol ac anariannol, a'r Gymraeg yn TrC a'r tu allan iddo.



### Uchafbwyntiau 2022/23

Mae 2022/23 wedi arwain at welliant sylweddol yn amgylchedd rheolaeth fewnol TrC a'i fframwaith rheoli risg, er bod y cynnydd tuag at gyflawni ein nodau ar gyfer y flwyddyn wedi cael ei ohirio ychydig er mwyn sicrhau bod y gwelliannau'n cyd-fynd â'r model gweithredu rheoli newydd y cyfeirir ato mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

Un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor o hyd yw sicrhau bod gwybodaeth ariannol ac anariannol TrC a chynnwys yr adroddiad blynyddol hwn yn deg, yn gytbwys, ac yn ddealladwy. Mae'r pwyllgor yn herio'r tybiaethau a'r amcangyfrifon a wnaed gan reolwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol ac wrth baratoi'r wybodaeth anariannol sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, y mater mwyaf perthnasol yn y datganiadau ariannol yw prisio asedau seilwaith TrC.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio a Risg ei Bolisi Archwilio a Sicrwydd cyntaf ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 ar yr un pryd ag y cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2021/22. Mae'r Polisi Archwilio a Sicrwydd yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r gwaith a wneir gan y pwyllgor, ac yn unol ag argymhellion dogfen ymgynghori Llywodraeth y DU – "Restoring trust in corporate governance and audit", sydd heb ddod i rym eto, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi penderfynu paratoi Adroddiad Gweithredu Blynyddol sy'n nodi newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r Polisi Archwilio a Sicrwydd a sut mae'r gweithgarwch sicrwydd a nodir yn y Polisi Archwilio a Sicrwydd yn gweithio'n ymarferol. Mae Adroddiad Gweithredu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ar gael yma.

Mae'r Adroddiad Gweithredu Blynyddol hefyd yn rhoi rhywfaint o fanylion am uchafbwyntiau 2022/23, er enghraifft, penllanw'r broses ar gyfer penodi archwilydd allanol TrC; y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gwella rheolaethau mewnol dros adroddiadau ariannol ac anariannol, sy'n cyd-fynd â'r dyfodol disgwyliedig diwygiadau llywodraethu corfforaethol y DU ar gyfer cwmnïau mawr; monitro a lliniaru risg twyll yn barhaus; a sylwadau'r pwyllgor ar sut mae'n credu bod y gweithgarwch sicrwydd yn TrC yn gweithio'n ymarferol.

Rwy'n falch o adrodd bod TrC yn parhau i ddatblygu ei uchelgeisiau ar gyfer sicrhau ei bod mor hawdd ymgysylltu â phob agwedd ar waith TrC yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae cael staff ymroddedig i hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Fel y dywedais mewn adroddiadau blaenorol, mae'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud gan TrC mewn trenau newydd a thechnoleg newydd yn ei gwneud yn haws cyflawni'r amcan hwn yn gyffredinol, ac mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae trenau hŷn TrC ac agweddau ar deithio lle nad oes gan TrC lawer o reolaeth fel tocynnau papur (a reolir ar sail y DU gyfan) yn fwy problemus, a bydd atebion tymor hwy o reidrwydd yn golygu croesawu technoleg yr unfed ganrif ar hugain.

## Blaenoriaethau 2023/24

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ymrwymo yn ystod y deuddeg mis nesaf i sicrhau bod yr agweddau canlynol ar y materion y mae'n eu goruchwylio yn cael eu cwblhau neu eu datblygu'n foddhaol:

- Cynnydd sylweddol o ran gwella'r rheolaethau mewnol ar gyfer adroddiadau ariannol ac anariannol, gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith a sicrhau ei fod wedi'i wreiddio'n llawn erbyn diwedd 2025.
- Cwblhau'r gwaith ar y fframwaith rheoli risg a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws Grŵp TrC.
- Sicrhau bod TrC, cyn belled ag y bo modd, yn cyflawni ei rwymedigaethau o ran y Gymraeg ac yn parhau i ymdrechu i fod yn sefydliad sy'n esiampl o ran defnyddio'r Gymraeg.

# Y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu

## Cadeirydd – Sarah Howells

Mae'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn goruchwylio strategaeth cwsmeriaid TrC a'i gynlluniau cyflawni. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu metrigau perfformiad gweithredol anariannol (fel prydlondeb) ynghyd ag adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn a bod cynllun clir ar waith i gyflawni'r gwasanaeth a'r trawsnewid y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.



### Uchafbwyntiau 2022/23

- Adolygu perfformiad ein hymgyrch newid ymddygiad aml-ddull a'n rhaglenni buddsoddi mewn gorsafoedd, gan flaenoriaethu adborth a diogelwch cwsmeriaid.
- Monitro'r gwaith o ddatblygu a darparu cynlluniau peilot tocynnau ledled Cymru a datblygu cynnyrch tocynnau a thocynnau aml-ddull.
- Adolygu'r rhaglen barhaus cyswllt cwsmeriaid, sy'n ceisio darparu gwell gwybodaeth a chefnogaeth i'n cwsmeriaid yng Nghymru a rhanbarthau'r ffin.
- Goruchwylio ac adolygu'r gwasanaethau fflecsi trafnidiaeth seiliedig ar alw, gan ddarparu technoleg arloesol i gwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Craffu ar berfformiad gweithredol a monitro gwasanaethau rheilffyrdd parhaus yn lle trenau a datblygu cynlluniau gwella.
- Craffu ar raglenni buddsoddi mewn gorsafoedd, gan sicrhau eu bod yn gwella profiad y cwsmer.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

- Craffu parhaus ar fetrigau perfformiad gweithredol a chynlluniau gwella ynghyd â gwelliannau pellach i wasanaethau yn lle trenau.
- Monitro gwelliannau mewn cymorth i gwsmeriaid, gan sicrhau bod technolegau, prosesau a pherfformiad yn cael eu gwella i gyflawni'r canlyniadau y mae cwsmeriaid yn eu disgwyl.
- Adolygiad parhaus o'r rhaglen gwella gorsafoedd a pherfformiad trawsnewid y Metro.
- Parhau i fonitro ac adolygu ein hymgyrchoedd newid ymddygiad aml-ddull.

# Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles

## Cadeirydd – Nicola Kemmery



Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod ei fuddiannau a'i atebolrwydd ar gyfer iechyd, diogelwch, lles, cynaliadwyedd, addasu i'r hinsawdd, gwydnwch, diogelwch a pharhad busnes yn cael eu rheoli'n briodol. Mae'n sicrhau bod mesurau cadarn ar waith mewn perthynas â gweithgareddau'r cwmni gan eu bod yn effeithio ar y cyhoedd (gan gynnwys cwsmeriaid), gweithwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol, contractwyr a chyflenwyr. Mae'n hyrwyddo gwelliant parhaus a rhannu arferion gorau.

## Uchafbwyntiau 2022/23

- Adolygodd y pwyllgor ei rôl a'i gylch gwaith yn ystod y flwyddyn ac erbyn hyn mae'n cynnwys cynaliadwyedd, diogelwch a pharhad busnes ochr yn ochr ag iechyd, diogelwch a lles. Mae'r aelodaeth hefyd wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol newydd a sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phob agwedd ar weithgareddau TrC, gan gynnwys unrhyw weithgareddau neu gaffaeliadau newydd.
- Monitro'r risgiau iechyd a diogelwch i weithwyr a chwsmeriaid o ganlyniad i'r coronafeirws wrth i ni gynyddu gwasanaethau a dychwelyd i 'fusnes fel arfer' ar ôl y pandemig.
- Parhau i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a sicrhau profiad teithio diogel i gwsmeriaid a gweithwyr.
- Sicrhau gwelliant parhaus o ran rheoli risg iechyd a diogelwch. Lle bu digwyddiadau—naill ai yn TrC neu'r diwydiant rheilffyrdd ehangach—mae pwyntiau dysgu allweddol wedi cael eu nodi a chamau gwella addas wedi cael eu cymryd.
- Gwelodd y pwyllgor fod amrywiaeth o gynlluniau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, gan gynnwys:
    - Teithiau arweinyddiaeth a digwyddiadau camau diogelwch i sicrhau bod uwch reolwyr yn ymgysylltu'n weithredol â staff a chontractwyr ar draws y busnes.
    - Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Network Rail i fynd i'r afael â throseddu, tresmasu, dwyn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
    - Ymchwilio i achosion y Signalau a Basiwyd yn Beryglus ac ymyriadau dilynol i atal digwyddiadau yn y dyfodol.
    - Datblygu Cynghrair Craidd, gan weithio gyda'n contractwyr allweddol i osod safonau a rhannu'r hyn a ddysgwyd, yn enwedig y rheini sy'n gweithio ar welliannau i seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.
    - Canolbwyntio ar iechyd galwedigaethol, hylendid a llesiant, cefnogi cydweithwyr sy'n gweithio ar y safle a gartref wrth i ni newid i fodel gweithio hybrid.

## Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

- Parhau i fonitro perfformiad ar draws holl weithgareddau TrC, gan sicrhau ein bod yn nodi ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, yn datblygu gwelliannau ac yn ymgymryd â gweithgareddau monitro a sicrwydd priodol.
- Annog arweinyddiaeth iechyd a diogelwch amlwg, gan gynnwys teithiau diogelwch sy'n cael eu cynnal gan ein huwch arweinwyr, a sesiynau briffio iechyd a diogelwch staff.
- Monitro'r gwaith o weithredu, adeiladu a chynnal a chadw ein hasedau'n ddiogel er mwyn sicrhau bod risgiau o anafiadau, salwch ac effeithiau amgylcheddol yn cael sylw effeithiol.
- Meithrin diwylliant o welliant parhaus, gan sicrhau bod timau'n canfod cyfleoedd i rannu dysgu a rheoli risgiau. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar y tymor hwy ac effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd.
- Sicrhau bod gan y busnes brosesau effeithiol ar waith i reoli iechyd, diogelwch, lles a chynaliadwyedd wrth i'r sefydliad ddatblygu ac ysgwyddo swyddogaethau a chyfrifoldebau ychwanegol.

# Pwyllgor Prosiectau Mawr



## Cadeirydd – Vernon Everitt

Mae'r Pwyllgor Prosiectau Mawr yn sicrhau bod y weithrediaeth yn canolbwyntio'n drylwyr ar ddiogelwch, cyflawni, rheolaethau a rheoli risg prosiectau mawr. Mae'r pwyllgor hefyd yn monitro'r llif o brosiectau newydd posibl. Mae'r pwyllgor yn cymryd adroddiadau rheolaidd ar gyflawni prosiectau ar ran Bwrdd TrC. Mae'n monitro ac yn herio mesurau lliniaru risg a'r amgylchedd rheoli a sefydlwyd gan y weithrediaeth.

## Uchafbwyntiau 2022/23

- Canolbwyntio ar ddylunio a chyflawni prosiectau'n ddiogel—gyda diogelwch bob amser yn parhau i fod y brif flaenoriaeth—ac adfer prosiectau'n barhaus o ganlyniad i'r tarfu a achoswyd gan bandemig y coronafeirws.
- Monitro cynnydd:
    - Uwchraddio Llinellau Craidd y Cymoedd, trawsnewid gwasanaethau bysiau, darparu cerbydau, datblygu cynlluniau Metro, cyflawni Cyfnewidfa Bws Caerdydd a chynnydd ar nifer o brosiectau mawr eraill TrC.
    - Cwblhau cyfraniad TrC at ddatblygu a chyflawni'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd.
    - Gweinyddiaeth TrC o grantiau'r Gronfa Teithio Llesol ar ran Llywodraeth Cymru.
- Cynhyrchu adroddiadau cryno rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Prosiectau ar statws prosiectau sy'n symud ymlaen drwy Gylch Bywyd Cynllun Gwaith TrC ac olrhain aeddfedrwydd y Swyddfa Rheoli Prosiect ei hun fel mecanwaith allweddol ar gyfer rheoli prosiectau mawr yn effeithiol.

## Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

- Cynllunio a chyflawni prosiectau mawr yn ddiogel.
- Sicrhau iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n gweithio ar y prosiectau.
- Cyflawni a rheoli risg prosiectau mawr yn effeithiol, gan gynnwys Llinellau Craidd y Cymoedd, trawsnewid bysiau a darparu cerbydau.
- Datblygu achosion busnes ar draws ystod eang o gynlluniau Metro a chynlluniau eraill a allai arwain at lif o brosiectau mawr newydd posibl.
- Safoni Swyddfa Rheoli Prosiect TrC a rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y gwaith o gyflawni prosiectau.

# Y Pwyllgor Pobl

## Cadeirydd – Alison Noon-Jones

Mae'r Pwyllgor Pobl yn helpu'r Bwrdd i adolygu Strategaeth Pobl TrC. Mae'n sicrhau bod y Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol yn cadw strwythur, maint a chydbwysedd priodol. Mae'n adolygu cynlluniau datblygu blynyddol timau arwain. Mae'r pwyllgor yn monitro metrigau a dangosfyrddau allweddol i gefnogi'r gwaith o asesu perfformiad presennol a nodau TrC ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio'r rhaglen amrywiaeth a chynhwysiant.



### Uchafbwyntiau 2022/23

- Denu a chadw talent o ansawdd uchel mewn marchnad arbennig o fywiog ar ôl y pandemig.
- Mynd i'r afael â ffyrdd hybrid newydd o weithio.
- Cwblhau'r gwaith o gynllunio cyflogau blynyddol yn gyflym.
- Integreiddio a chydweithio'n effeithiol â thîm Pullman.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

- Parhau i ddatblygu ein llif o dalent yn y dyfodol drwy Raglen i Raddedigion TrC.
- Parhau i ganolbwyntio ar y rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant gan gynnwys ymrwymiad i fynd i'r afael yn rhagweithiol â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
- Annog ymgysylltiad cadarnhaol â gweithwyr drwy ryngweithio a chyfathrebu ar lefel uchel â'r gweithlu.
- Datblygu cynllun olyniaeth cadarn ar gyfer y Tîm Arwain Gweithredol.

# Y Pwyllgor Taliadau

## Cadeirydd – Alison Noon-Jones

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn adolygu ac yn argymell polisi taliadau sy'n denu ac yn cadw Swyddogion Gweithredol ac Uwch Arweinwyr TrC. Mae'n nodi egwyddorion gwobrwyo cyffredinol y Bwrdd Gweithredol sy'n ysgogi ein huwch staff i gyflawni amcanion TrC.



### Uchafbwyntiau 2022/23

- Adolygu a gweithredu'r strwythur arweinyddiaeth diwygiedig yn llwyddiannus.
- Cadw talent eithriadol o ran Arweinyddiaeth Weithredol mewn cyfnod bywiog yn y farchnad a chysylltiadau sy'n tarfu yn y sector.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

- Parhau i ddatblygu rhaglen o iawndal Gweithredol cystadleuol yn TrC.
- Sicrhau bod gwahanol fuddion Gweithredol yn cael eu llywodraethu lle bo hynny'n briodol, fel pensiynau.

# Datganiad llywodraethu corfforaethol

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu TrC, rwy'n bersonol gyfrifol am reolaeth a llywodraethu cyffredinol grŵp cwmniau TrC gan gynnwys ei dri is-gwmni (Rheilffyrdd TrC Cyf, Gwasanaethau Arloesi TrC Cyf a Pullman Rail Ltd).

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol i Fwrdd TrC ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn amlinellu sut rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Trafnidiaeth Cymru eleni. Mae TrC wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ran lywodraethu, atebolrwydd a thryloywder. Mae'r gwerthoedd hyn yn hollbwysig i lwyddiant pob agwedd ar grŵp TrC.

Mae TrC yn cael ei lywodraethu gan y canlynol:

- Y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y cwmni.
- Cyfrifoldeb Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru (i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ac yn uniongyrchol i Senedd Cymru) fel Prif Swyddog Cyfrifyddu dros wariant a rheolaeth TrC.
- Fy nghyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu TrC.
- Bwrdd TrC, a gefnogir gan ei is-bwyllgorau, sydd â chyfrifoldeb ar y cyd dros oruchwylio gwaith y cwmni, yn ogystal â goruchwylio, craffu a chynnig sicrwydd i wneud yn siŵr bod TrC yn cyflawni ei nodau a'i amcanion gyda lefel priodol o reolaeth fewnol.
- Byrddau is-gwmniau TrC: Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru, a Pullman Rail Ltd.

Mae system lywodraethu TrC hefyd yn cynnwys y Tîm Arwain Gweithredol.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar ein Herthyglau Cymdeithasu a Chytundeb Rheoli rhwng TrC a Gweinidogion Cymru. Ar gyfer TrC, mae llywodraethu corfforaethol da yn golygu sicrhau bod grŵp cwmnïau TrC yn cyd-fynd ag amcanion Gweinidogion Cymru fel y nodir yn y ddwy ddogfen hyn, ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru a'n hamserlen ar gyfer dirprwyo.

## Bwrdd TrC

Mae Bwrdd TrC yn goruchwylio ein holl weithgareddau gan ddarparu arweinyddiaeth a gweledigaeth strategol. Mae'n sicrhau bod safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol a ffyrdd o weithio yn cael eu cynnal. Mae'n gweithredu ar y cyd, gan ganolbwyntio ar:

- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith o ran llywodraethu a goruchwylio.
- Materion strategol a sylweddol sy'n effeithio ar weithrediadau Trafnidiaeth Cymru o ran cyflawni ei gylch gwaith.
- Rhoi strategaeth y Bwrdd ar waith. Mae'n llywio, yn herio ac yn craffu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd perfformiad TrC, gyda'r bwriad o sicrhau ei ddyfodol a'r weledigaeth o greu rhwydwaith trafnidiaeth y mae Cymru'n falch ohono.

Gall y Bwrdd ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros weinyddu materion rheoli o ddydd i ddydd i'r Tîm Gweithredol ond nhw sy'n parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol am bob mater yn y pen draw. Mae ein Cyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol yn craffu ar berfformiad y tîm gweithredol wrth gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt. Felly mae aelodau o Dîm Gweithredol TrC yn mynychu'n rheolaidd i gyflwyno papurau gydag argymhellion ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae sylwedydd enwebedig o'r undebau llafur yn ymuno â'r Bwrdd ar gyfer rhan o'r sesiwn strategol. Mae'r sylwedydd yn cael ei ethol drwy broses a oruchwylir gan TUC Cymru ac er nad yw'n aelod llawn o'r Bwrdd ac nad oes ganddo hawliau pleidleisio, mae'n gallu cymryd rhan mewn trafodaethau.

Mae ein Cyfarwyddwyr wedi arwyddo Datganiad Gwrthdaro Rhwng Buddiannau ac yn diweddaru datganiadau buddiannau'n chwarterol. Mae'r buddiannau a ddatganwyd ar gael ar wefan TrC. Mae datganiadau buddiannau yn cael eu gwneud ar ddechrau pob cyfarfod.

Disgwylir i bob cyfarwyddwr ymddwyn yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus ac mae pob un wedi llofnodi telerau Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol TrC sy'n cynnwys Cod Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Mae TrC wedi dewis cydymffurfio ag Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol Cymru. Fe wnaethom brofi cydymffurfiad â'r egwyddorion hyn yn ystod 2021/22 ac ni welsom unrhyw wendidau. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i lywodraethu yn 2022/23. Byddwn yn cynnal adolygiad cydymffurfio manwl arall yn ystod 2023/24.

Eleni, cyfarfu ein Bwrdd un ar ddeg o weithiau. Mae cofnodion pob cyfarfod y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos presenoldeb cyfarwyddwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r is-bwyllgorau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023:

| | Bwrdd | Archwilio a Risg | Cwsmeriaid a Chyfathrebus | Iechyd, Diogelwch a Lles | Prosiectau Mawr | Pobl, Taliadau ac Enwebiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Alun Bowen | 11/11 | 4/4 | | | 5/6 | |
| Heather Clash | 11/11 | 4/4 | | | 6/6 | |
| Vernon Everitt | 10.5/11 | | | | 5/6 | |
| Sarah Howells | 9/11 | 4/4 | 4/4 | | | |
| Nicola Kemmery | 10.5/11 | | | 3/3 | | 4/4 |
| Alison Noon-Jones | 10/11 | | 3/4 | | | 4/4 |
| James Price | 11/11 | | 4/4 | | 5/6 | |
| Scott Waddington | 11/11 | | | | | 1/4 (Tâl yn unig) |

Mae ein Bwrdd yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau chwe aelod anweithredol annibynnol a dau aelod gweithredol annibynnol i gynnig gwybodaeth a phrofiad er mwyn helpu i siapio ein cyfeiriad strategol. Mae bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd ar gael ar dudalen 63. Mae'r Cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol yn cynnig amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad i'r Bwrdd, ac mae pob un ohonynt yn weithwyr proffesiynol blaenllaw yn eu meysydd eu hunain. Maent yn rhoi barn annibynnol ar faterion yn ymwneud â strategaeth, perfformiad a risg. Maent mewn sefyllfa dda i herio a chraffu'n adeiladol ar berfformiad y rheolwyr.

## Amrywiaeth y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod amrywiaeth ym mhob maes yn allweddol i wneud yn siŵr bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu cyflwyno i'w prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn credu bod rhywedd yn elfen bwysig wrth greu'r Bwrdd gorau posibl o ran cydbwysedd a chyfansoddiad. Yn ein Bwrdd ar hyn o bryd mae pedair menyw a pedwar dyn.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae ein Bwrdd wedi dirprwyo pwerau penodol i bump is-bwyllgor y Bwrdd, sy'n gweithredu i gynorthwyo'r Bwrdd i gwblhau ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau cyffredinol. Mae'r is-bwyllgor Archwilio a Risg yn cynnig sicrwydd i'r Bwrdd ynglŷn â rheoli risg, rheolaeth fewnol ac adroddiadau ariannol.

Mae'r is-bwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn cynorthwyo'r Bwrdd i adolygu, monitro a rhoi cyfarwyddyd ar bynciau sy'n ymwneud â chwsmeriaid. Rydym yn helpu pobl i deithio'n ddiogel. Rydym yn rhoi sylw penodol i leisiau ein cwsmeriaid. Rydym yn trawsnewid profiad y cwsmer drwy gyfathrebu'n agored ac yn onest. Rydym yn defnyddio arloesedd digidol i wella teithiau.

Mae'r is-bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn cynorthwyo'r Bwrdd i wneud y canlynol:

- argymell polisi iechyd a diogelwch
- monitro ac asesu cydymffurfedd
- datblygu a chyflawni gwelliant parhaus
- adolygu ac ymchwilio i ddigwyddiadau iechyd a diogelwch
- ystyried materion iechyd a diogelwch a allai fod â goblygiadau strategol, busnes neu i enw da i'r cwmni
- argymell mesurau ac ymatebion priodol.

Mae'r is-bwyllgor Prosiectau Mawr yn helpu'r Bwrdd i adolygu a chraffu ar brosiectau mawr ac argymell penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau mawr ym mhortffolio TrC. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio'n bennaf ar brosiectau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflawni rhaglen buddsoddi TrC mewn seilwaith cyfalaf.

Mae'r is-bwyllgor Pobl, Taliadau ac Enwebiadau yn cynorthwyo'r Bwrdd gyda phob mater sy'n ymwneud â strwythur y sefydliad, cydymffurfiad â pholisi, fframweithiau cyflog a pholisi, hyfforddi a datblygu, egwyddorion a pharamedrau polisi taliadau, gweinyddu'r cynllun buddion ac enwebiadau'r Bwrdd.

Ym mis Mehefin 2022, bydd y pwyllgorau Tâl a Phobl hefyd yn cael eu cyfuno i gynnwys cylch gwaith ar gyfer enwebiadau'r Bwrdd. O ganlyniad, ffurfiwyd y Pwyllgor Pobl, Taliadau ac Enwebiadau yn ystod y flwyddyn.

Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol, ac maent yn cwrdd bob chwarter o leiaf. Mae'r pwyllgorau Prosiectau Mawr a Phrofiad Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn cyfarfod bob deufis. Mae gan bob is-bwyllgor Bwrdd awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn ei gylch gorchwyl. Mae Cadeirydd pob is-bwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau'r is-bwyllgor yn y mis diwethaf, ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar ran yr is-bwyllgor i'w cymeradwyo (pan fo hynny'n briodol).

## Fframwaith llywodraethu

Mae ein Bwrdd yn atebol i Weinidogion Cymru, sef yr unig aelod o'r cwmni. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bolisi strategol sy'n gysylltiedig â'r holl faterion trafnidiaeth datganoledig. Mae'r Prif Weinidog wedi rhoi'r prif gyfrifoldeb dros oruchwyliaeth TrC i'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Mae'r Gweinidog yn goruchwylio TrC drwy osod amcanion, blaenoriaethau a chyllidebau cyfalaf a gweithredol sy'n sail i gynlluniau busnes a chorfforaethol TrC.

Mae'r berthynas rhwng TrC a Llywodraeth Cymru o ran rheoli arian a llywodraethu corfforaethol wedi'i amlinellu yn y Cytundeb Rheoli. Mae'r ddogfen hon yn nodi telerau'r cytundeb rhwng TrC a Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi cysylltiadau adeiladol a chlir rhyngddynt.

## Y Tîm Arwain Gweithredol

Mae ein Tîm Arwain Gweithredol yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol (fi) ac wyth aelod arall sy'n canolbwyntio ar reolaeth TrC o ddydd i ddydd. Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn cwrdd bob wythnos i drafod a gwneud penderfyniadau ar faterion gweithredol a strategol. Mae'r tîm yn gyfrifol am gyllid, iechyd a diogelwch, pobl, rheoli risg, llywodraethu a pherfformiad a chynnydd prosiectau a rhaglenni.

## Bwrdd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf

Mae Bwrdd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn gyfrifol am yr holl rwymedigaethau sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb Grant Gweithredwr Dewis Olaf sy'n ymwneud â masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Fel Swyddog Cyfrifyddu TrC, rwy'n cadeirio'r Bwrdd sy'n fy ngalluogi i ddal i gyfrif Prif Swyddog Gweithrediadau TrC sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros yr holl faterion gweithredol sy'n ymwneud â Rheilffyrdd TrC Cyf. Yn ei dro, mae Bwrdd TrC yn fy nal i gyfrif am berfformiad Rheilffyrdd TrC Cyf. Mae aelodau eraill Bwrdd TrC yn cynnwys y Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol, y Prif Swyddog Masnachol, y Prif Swyddog Gweithrediadau, y Prif Swyddog Cwsmeriaid a Diwylliant ac un Cyfarwyddwr Anweithredol annibynnol sydd hefyd yn cadeirio Grŵp Gweithredol Diogelwch Rheilffyrdd TrC Cyf.

## Bwrdd Gwasanaethau Arloesi TrC Cyf

Mae Bwrdd Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyf yn goruchwylio'r fenter ar y cyd rhwng TrC, Keolis ac Amey. Mae'r Bwrdd yn goruchwylio cylch gwaith y cwmni gan gefnogi'r gwaith o ddarparu system drafnidiaeth integredig ar gyfer Cymru a'r Gororau.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan aelod o Dîm Arwain Gweithredol TrC ac mae hefyd yn cynnwys tri aelod arall o Dîm Arwain Gweithredol TrC, Cyfarwyddwr o Amey a Chyfarwyddwr o Keolis.

## Pullman Rail Ltd

Mae Pullman Rail yn gweithredu fel cwmni annibynnol sy'n darparu gwasanaethau o dan ei frand ei hun. Gan weithredu o'i depo yn Nhreganna, Caerdydd, mae Pullman Rail yn darparu arbenigedd technegol ar y rheilffyrdd; uwchraddio cerbydau arbenigol; atgyweirio, adnewyddu a chynnal a chadw pob cerbyd rheilffordd sy'n cludo teithwyr neu nwyddau; ac atebion rheilffyrdd peirianneg.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol TrC ac mae hefyd yn cynnwys dau Gyfarwyddwr Gweithredol TrC arall ac uwch reolwr o TrC. Mae Rheolwr Cyffredinol Pullman ac uwch reolwyr eraill yn bresennol fel y bo'n briodol.

Mae Bwrdd TrC yn cael diweddariadau ar ôl cyfarfod pob un o'i is-bwyllgorau cwmni.

## Fframwaith rheolaeth fewnol

Mae pob corff sy'n cael ei gyllido gan arian cyhoeddus yng Nghymru yn gaeth i reolaethau mewnol ac allanol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â fframweithiau Llywodraeth Cymru, fel Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Drwy waith y Pwyllgor Archwilio a Risg, mae TrC wedi rhoi trefniadau rheoli mewnol ar waith i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod arian ac adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn effeithlon. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol gyda sicrwydd a gafwyd gan ddefnyddio'r model "tair llinell amddiffyn".

Mae ein hamserlen dirprwyo'n nodi gyda phwy mae'r awdurdod yn y cwmni ar gyfer mathau penodol o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn enw neu ar ran TrC, a lle mae'r Bwrdd wedi dirprwyo unrhyw benderfyniadau o'r fath i'r Weithrediaeth neu un o is-bwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r amserlen yn nodi pa faterion sydd wedi'u cadw ar gyfer y Bwrdd yn unig, ac mae'n cynnwys awdurdodau gwario a gwneud penderfyniadau corfforaethol. Adolygodd y Bwrdd yr amserlen dirprwyo a gadwyd ar gyfer y Bwrdd ym mis Mehefin a Rhagfyr 2022. Ym mis Rhagfyr 2022, cyfunwyd dirprwyaethau awdurdod TrC a Rheilffyrdd TrC.

## Llywodraethu a rheoli ariannol

Mae cynlluniau busnes TrC yn dibynnu ar y gyllideb sy'n cael ei gosod gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei nodi yn y llythyr cyllido blynyddol a'r llythyr cylch gwaith bob pum mlynedd. Mae'r canlyniadau'n cael eu cymharu gyda'r rhagolygon ac yn cael eu hadolygu bob mis i wneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n unol â chyllidebau sydd wedi'u cymeradwyo ac er mwyn rhoi sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd.

## Gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a chwythu'r chwiban

Nid yw TrC yn goddef unrhyw fath o ymddygiad sy'n ymwneud â thwyll, llwgrwobrwyo na llygredd. Mae gan TrC bolisïau a gweithdrefnau Gwrth-Dwyll, Llygredd a Gwrth-Lwgrwobrwyo a pholisi a gweithdrefn Chwythu'r Chwiban. Ymchwilir yn llawn i unrhyw achosion a amheuir o dwyll neu lygredd. Cymerir camau disgyblu a/neu gyfreithiol lle bo'n briodol yn unol â'n polisi. Ni chafwyd gwybod am unrhyw achos o dwyll, llygredd na llwgrwobrwyo yn TrC yn ystod 2022-23.

Mae'n ofynnol i holl weithwyr newydd TrC ddilyn proses gynefino Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys modiwlau ar atal twyll, gwrthdaro rhwng buddiannau, rhoddion a lletygarwch a chwythu'r chwiban.

Mae ein polisi a'n trefniadau chwythu'r chwiban wedi'u cynllunio i sicrhau diwylliant o hyder ac amgylchedd diogel pe byddai rhywun yn mynegi unrhyw bryder yn TrC. Codwyd nifer o bryderon drwy ein trefn chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn. Ymchwiliwyd i'r rhain a chymerwyd camau priodol.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi bod yn datblygu ein Hamgylchedd Rheoli Mewnol mewn ymateb i drefn lywodraethu gorfforaethol newydd y DU.

## Agored a Thryloyw

Rydym ni wedi ymrwymo i fod yn agored a thryloyw yn y ffordd y mae TrC yn gweithredu fel busnes, ac rydym ni wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol sydd wedi'i lunio a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ymrwymo TrC i wneud gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn.

Yn ystod 2022/23, cafodd TrC 229 cais am wybodaeth, ac fe gafodd y terfynau amser statudol eu cyrraedd ar gyfer bron pob un o'r ceisiadau hyn.

## Rheoli Risg

Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau TrC. Rydym yn cynnal asesiadau rheolaidd o'r risgiau rydym yn eu hwynebu. Mae'r prif risgiau'n cael eu cofnodi yn y Gofrestr Risgiau Strategol ac mae'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr hon ym mhob cyfarfod. Mae'r uwch dîm gweithredol yn ystyried y Gofrestr Risgiau Strategol a'r Gofrestr Risgiau Gweithredol yn ei gyfarfodydd.

Mae ein cofrestr risgiau'n nodi'r risgiau posibl ac yn eu blaenoriaethu yn ôl eu heffaith a'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. Mae camau lliniaru yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â phob risg er mwyn rheoli a lleihau'r risgiau a nodwyd.

Yn ystod y flwyddyn, gosododd ein Bwrdd ei archwaeth risg yn ffurfiol i bennu maint, lefel a math y risgiau y mae prosiectau, rhaglenni, gweithgareddau busnes a TrC yn gyffredinol yn fodlon eu cymryd er mwyn cyflawni ei amcanion strategol ar bob lefel. Roedd y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd yn seiliedig ar Lyfr Oren Llywodraeth EF ac arweiniodd at ddatganiadau archwaeth risg ar gyfer TrC yn ei gyfanrwydd ac ar draws 16 maes gweithgarwch.

## Sicrwydd

Mae prif ffynhonnell sicrwydd TrC yn dod o nodi a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni a'r risgiau'n cael eu rheoli'n dda. Yn ogystal â threfniadau archwilio mewnol TrC, rydym hefyd yn cael sicrwydd drwy adroddiadau misol i'r Bwrdd, is-bwyllgorau'r Bwrdd, y tîm arwain gweithredol, cofrestrau risgiau a gwybodaeth reoli arall. Rydym hefyd wedi darparu adroddiadau uchafbwyntiau gweithredol i Fyrddau Gweithredol a Llywio Llywodraeth Cymru.

Mae gweithgareddau archwilio mewnol wedi parhau ar draws y grŵp llawn yn ystod 2022/23. Eleni, fe wnaethom ymestyn y gweithgareddau i Pullman Rail ar ôl eu prynu yn 2021/22. Mae'r tîm archwilio wedi datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fusnes Trafnidiaeth Cymru. Mae hyn wedi eu galluogi i gefnogi'r busnes ymhellach gydag argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r cynllun archwilio a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2022 wedi cael ei gyflawni dros y flwyddyn, gan gynnwys adolygiadau ym meysydd systemau a phrosesau cyllid, cyfathrebu, rheoli asedau, cydymffurfiaeth gyfreithiol, rheoli caffael a'r gadwyn gyflenwi, systemau adnoddau dynol, cynllunio'r gweithlu, seiberddiogelwch, parhad busnes a risg.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2023/24 ym mis Mawrth 2023 gyda rhaglen lawn yn cwmpasu'r holl gyfarwyddiaethau busnes ac amrywiaeth o agweddau ariannol ac anariannol ar ein gwaith.

Rwyf yn fodlon nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn fframwaith llywodraethu TrC na'n systemau rheoli mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Roedd fframwaith llywodraethu a systemau rheolaeth fewnol TrC yn cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion TrC, yn hwyluso arfer swyddogaethau'r Cwmni'n effeithiol ac yn diogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf i, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn bersonol gyfrifol amdanynt.



**James Price**

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
27 Mehefin 2023

# Datganiad Cydnerthedd

Mae llawer o'r gweithgareddau y mae TrC yn ymwneud â nhw yn gofyn am bersbectif hirdymor.

Rydym yn cael ein cyllido'n bennaf o'r pwrs cyhoeddus gan grant cylch gwaith a chyllid arall ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu i Lywodraeth Cymru. Mae'r grant cylch gwaith hwn yn cynnwys y cymhorthdal grant ar gyfer gwasanaethau teithwyr rheilffyrdd ledled Cymru a'r Gororau.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi llythyr cylch gwaith i TrC a llythyr ariannu ar wahân ar gyfer y gyllideb a ddyrannwyd i gynnal gweithgareddau penodol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi cyfarwyddiadau uniongyrchol eraill yn ystod y flwyddyn ar gyfer prosiectau penodol. Ar ben hynny, ym mis Rhagfyr 2022 cyhoeddodd TrC strategaeth gorfforaethol pum mlynedd, y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru, a chyhoeddodd gynllun busnes 2023/24 fel y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru yn gynnar ym mlwyddyn ariannol 2023/24.

Fodd bynnag, mae llawer o'n gweithgareddau'n gofyn am feddwl yn fwy hirdymor fel cynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith, integreiddio mwy ar system drafnidiaeth Cymru a sicrhau dyfodol gydag allyriadau carbon is.

Yn unol â hynny, mae ein dadansoddiad o'n cydnerthedd yn y tymor hwy wedi ei seilio ar wybodaeth y cyfarwyddwyr am y gweithgareddau hynny y gofynnwyd i ni gymryd cyfrifoldeb drostynt gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw'n rhagweld effaith rhagor o weithgareddau a allai o bosibl effeithio ar ein cydnerthedd yn y tymor byr a chanolig.

## Cydnerthedd tymor byr

Mae'r cyfarwyddwyr wedi pennu "tymor byr" at ddibenion y Datganiad Cydnerthedd hwn fel y deuddeg mis ar ôl llofnodi'r datganiadau ariannol. Yn benodol, tan ddiwedd mis Mehefin 2024. Mae hyn yn cyd-daro â chyfnod asesiad y cyfarwyddwyr bod TrC yn fusnes gweithredol at ddibenion paratoi ein datganiadau ariannol.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, mae'r cymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi dangos ei pharodrwydd i ddarparu cymorth ariannol ar adegau o straen eithriadol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ysgrifennu at ein cyfarwyddwyr yn cadarnhau ei hymrwymiad i gyllido TrC a'i is-gwmnïau am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad llofnodi ein datganiadau ariannol.

## Cydnerthedd tymor canolig

Mae Polisi Archwilio a Sicrwydd TrC ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 yn cynnwys dwy senario bosibl i ddangos cydnerthedd TrC:

- sensitifrwydd ariannol i newidiadau yn ymddygiad cwsmeriaid trafnidiaeth
- sensitifrwydd ariannol sy'n ymwneud â chyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) i raglen gwariant cyfalaf ac adfywio TrC.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi dewis dangos effaith ariannol y senario cyntaf drwy ddefnyddio cynnydd neu ostyngiad o 10% yn nifer y teithwyr rheilffyrdd. Mae'r sensitifrwydd hwn yn tybio bod y cymysgedd a'r gwariant cyfartalog fesul teithiwr yn aros yr un fath ac nad yw'r rheolwyr yn cymryd unrhyw gamau i gymell neu osgoi annog galw.

Byddai cynnydd neu ostyngiad o'r fath, nad yw chwaith yn ystyried gorlenwi posibl yn ystod y cyfnod brig pe bai cynnydd yn nifer y teithwyr, yn arwain at ofyniad cyllid refeniw is neu uwch gan Lywodraeth Cymru o tua £16 miliwn y flwyddyn.

Mae'r ail senario'n ymwneud â chyllid ERDF ar gyfer rhaglen trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Yn benodol, y posibilrwydd o golli cyllid petai TrC yn wynebu oedi yn amserlen yr hawliad fel na fydd digon o wariant cymwys yn digwydd cyn y dyddiad cau ar gyfer hawliadau ERDF (31 Hydref 2023). Gallai llithriad o un i dri mis mewn gwaith sy'n gymwys ar gyfer ERDF—gan dybio na fydd rheolwyr TrC yn cymryd unrhyw gamau lliniaru (senario annhebygol) arwain at ddiffyg o £7-9miliwn mewn cyllid ERDF (ac felly at gynnydd cyfatebol yn y cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru). Felly, byddai'r ddau senario hyn yn gofyn am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i alluogi TrC i barhau i gyflawni'r gweithgareddau perthnasol sy'n cael eu dileu.

## Cydnerthedd tymor hwy

Yn y cyfnod ar ôl 2027, rydym yn debygol o wynebu sawl her arall, a fydd yn effeithio ar ein cydnerthedd yn y tymor hwy. Y rhain yw:

- Newid yn yr hinsawdd – bydd symud i economi carbon is yn cael effaith sylweddol ar TrC. Mae'r heriau hyn wedi'u nodi yn yr adran ar wahân ar newid yn yr hinsawdd.
- Newidiadau posibl i bolisi trafnidiaeth Cymru a'r DU yn y dyfodol.

Mae ein dull o adnabod risgiau sy'n dod i'r amlwg, sganio'r gorwel a chydweithio â chyrff trafnidiaeth a llywodraeth eraill yn rhoi rhywfaint o hyder i'r cyfarwyddwyr y bydd amser i allu mynd i'r afael â materion o'r fath ymhell ymlaen llaw, yn amodol ar gyllid priodol.

# Datganiad datgarboneiddio trafnidiaeth

Yn 2020, roedd trafnidiaeth yn gyfrifol am 15% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wedi cynnig llwybr lleihau carbon i gyflawni sero net yng Nghymru lle mae angen haneru allyriadau o drafnidiaeth (ac eithrio teithio mewn awyren) rhwng 2020 a 2030.

Byddwn yn cefnogi'r gwaith o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth yng Nghymru drwy newid dulliau teithio o gerbydau preifat i drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Rydym yn galluogi'r newid hwn drwy ddarparu gwasanaethau sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd a mwy o seilwaith yn unol ag argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi targed sector cyhoeddus Cymru o sero net erbyn 2030 fel yr amlinellir yng Nghanllaw Adroddiadau Carbon Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru.

## Llywodraethu

Mae Bwrdd TrC yn cydnabod newid yn yr hinsawdd fel mater perthnasol i'w fusnes, yn enwedig yng ngoleuni'r datganiad o argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019 ac uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau sy'n cyfateb i garbon deuocsid ($CO_2e$) i sero net erbyn 2050.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau tryloywder a gweithredu mewn perthynas â risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Rydym yn cefnogi argymhellion gwirfoddol Tasglu'r Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol ar Ddatgeliadau Ariannol yn ymwneud â'r Hinsawdd.

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg TrC yn gyfrifol am sicrhau bod y datgeliad yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â gofynion datgelu'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol yn Ymwneud â'r Hinsawdd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithiol yn y sefydliad.

## Strategaeth

Rydym wrthi'n datblygu ein Cynllun Rheoli Carbon. Bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023 a bydd yn nodi'n fanwl ein strategaeth a'n targedau i ddatgarboneiddio allyriadau o'n hystâd i gefnogi targed sector cyhoeddus Cymru o sero net erbyn 2030.

Mae dadansoddiad diweddar o'n hôl troed carbon yn dangos bod y rhan fwyaf o allyriadau $CO_2e$ TrC yn deillio o weithgareddau cwmpas 3 (adeiladu yn bennaf). Y prif weithgarwch allyrru o fewn cwmpas 1 yw tanwydd disel, sy'n cael ei ddefnyddio mewn gwasanaethau trenau i deithwyr ledled Cymru. Mae gweddill yr ôl troed carbon yn deillio o weithrediadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gorsafoedd, depos a swyddfeydd.

Bob blwyddyn, mae TrC yn cynhyrchu Ôl Troed Carbon sefydliadol sy'n seiliedig ar gyfrifiannell a ddatblygwyd gan yr Ymddiriedolaeth Garbon sy'n cyfrifo ein hallyriadau cwmpas 1, 2 a 3.

Er mwyn galluogi TrC i gyflawni ein strategaeth, mae gennym Dîm Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni penodol sy'n cynnwys pedwar unigolyn: Rheolwr Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni, Arweinydd Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chydnerthedd, Arweinydd Ynni a Charbon a Chydlynydd Ynni a Chyfleustodau.

## Rheoli risg

Mae'r gwaith o nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd wedi'u hintegreiddio'n llawn ym mhroses rheoli risg gyffredinol TrC.

Mae'r tîm rheoli hefyd yn sicrhau bod risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu gwreiddio'n ddiwylliannol mewn busnes o ddydd i ddydd. Mae'r risgiau a'r cyfleoedd hyn yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith yn rhaglen drawsnewid TrC.

Mae ein Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chydnerthedd yn manylu ar sut byddwn yn asesu ac yn rheoli'r risg o ran yr hinsawdd ar draws ein rhwydweithiau a'n gweithrediadau.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn darparu dull cyson ac atebol ar gyfer adrodd a rheoli ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cyd-fynd â datgeliadau a argymhellir gan TCFD ar gyfer risgiau a chyfleoedd yn yr hinsawdd. Rydym wedi ystyried ond nid ydym wedi cydymffurfio'n llawn â'r datgeliadau hyn eto, ac rydym yn gobeithio sicrhau cydymffurfiaeth lawn o fewn y flwyddyn nesaf.

| Math o Risg | Bwrdd | Archwilio a Risg |
|---|---|---|
| Tymor Byr | Methiant i gyrraedd targed sero net Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru erbyn 2030. | Mae Targed Sero Net y Sector Cyhoeddus yn Darged cyfun ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Rhagwelir y bydd gweithredu ar y cyd ar draws y sector yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol. |
| Tymor Byr | Gallai cynyddu costau tariffau trydan gynyddu costau cyflawni rhaglenni datgarboneiddio. | Bydd y Strategaeth Ynni yn nodi cyfle i gyflwyno technoleg adnewyddadwy ac arbedion effeithlonrwydd. |
| Tymor Byr | Gall Digwyddiadau Tywydd Eithafol (llifogydd, gwres eithafol, rhew, eira) darfu ar seilwaith a allai arwain at oblygiadau gweithredol a chost. | Rydym yn cynnal Asesiadau Risg Newid Hinsawdd (CCRA) gan ddefnyddio ein Hadnodd CCRA. Mae ein Gweithgor Tywydd Eithafol yn datblygu gweithdrefn i greu cynlluniau ymateb i leihau'r risg ar wasanaethau a gweithrediadau. |
| Tymor Byr | Mae risg y gallai allyriadau cerbydau o deithio busnes arwain at losgi tanwyddau ffosil, llygredd aer, cyfrannu at gynhesu byd-eang a chostau ceir a thacsis. | Bydd cyflwyno'r rhwydwaith Gwefru cerbydau trydan yn galluogi newid i gerbydau trydan a bydd mwy a gwell seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn golygu bod modd newid dulliau teithio ar gyfer teithiau busnes. |
| Tymor Canolig | Methu â chyflawni'r targed sero net oherwydd colli mannau gwyrdd i ddatblygu seilwaith, a allai leihau potensial atafaelu'r tir rydym yn berchen arno. | Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ac rydym yn cwblhau Strategaeth Bioamrywiaeth ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd. |
| Tymor Hir | Risg na fyddwn yn gallu cyrraedd y targed 2040 o gael gwared â threnau teithwyr diesel yn unig. | Rydym yn datblygu Strategaeth Datgarboneiddio Cerbydau. |

## Addasu a chydnerthedd o ran yr hinsawdd

Rydym yn gweithio'n agos gyda Network Rail sy'n berchen ar y rhan fwyaf o'r asedau rheilffyrdd yng Nghymru. Maent wedi cynnal Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ar y Rheilffordd ac, ym mis Rhagfyr 2021 cyhoeddwyd Adroddiad Addasu newydd. Rydym yn bwriadu cydweithio â Network Rail i ddatblygu dull llwybrau Addasu'r Hinsawdd i helpu i nodi penderfyniadau allweddol i gynyddu cydnerthedd yn ymwneud â'r hinsawdd.

Daeth Trafnidiaeth Cymru yn berchen ar Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd ym mis Mawrth 2020, gydag Amey Infrastructure Wales (AIW) yn gweithredu fel partneriaid cyflenwi TrC. Mae eu rôl yn cynnwys cydymffurfio â Safonau Network Rail sy'n cynnwys datblygu cynlluniau tywydd eithafol (NR/L3/CIV/190) ar gyfer rheoli asedau yn ystod tywydd eithafol.

Fel rhan o'r dyletswyddau rheoli asedau, mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n diweddaru ei Gynllun Rheoli Asedau Strategol (SAMP) sy'n tynnu sylw at y weledigaeth strategol ar gyfer rheoli'r asedau, gan gynnwys draenio, strwythurau a gwaith cloddio. Mae'r Cynllun hefyd yn tynnu sylw at weithgareddau allweddol sy'n gysylltiedig â gwella gwybodaeth a chadernid asedau. Ar ben hynny, mae AIW yn cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Asedau, sy'n tynnu sylw at weithgareddau allweddol gan gynnwys tywydd garw a sefydlu safleoedd treialu.

Rydym wedi defnyddio system gwybodaeth ddaearyddol i fapio asedau Llinellau Craidd y Cymoedd a'u rhyngwyneb â safleoedd llifogydd hysbys, fel sy'n deillio o ddata llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer llifogydd afonydd ac ar yr wyneb. Rydym wrthi'n cynnal astudiaeth gynhwysfawr o lifogydd afon sydd â'r potensial i effeithio ar rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd rhwng TrC a sefydliadau eraill (fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru) ynghylch cydweithio a sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i wella dealltwriaeth o asedau a hyrwyddo dull ar y cyd o ddeall a gweithredu cydnerthedd. Rydym yn deall pwysigrwydd gweithio gyda pherchnogion seilwaith eraill yng Nghymru i nodi ac asesu risgiau hinsawdd, yn enwedig y rheini sy'n rhyngweithio, yn gwaethygu neu'n draws-sefydliadol eu natur.

Rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Addasu a Chydnerthedd Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r Cynllun yn nodi'r camau arfaethedig y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod ein rhwydwaith a'n gweithrediadau'n gallu gwrthsefyll digwyddiadau tywydd eithafol rydym yn debygol o'u profi wrth i'n hinsawdd yng Nghymru newid yn ystod y ganrif hon.

## Rheoli llystyfiant

Rydym yn rheoli llystyfiant ar ochr y cledrau ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd er mwyn lleihau effaith tymor yr hydref (a thymhorau eraill fwyfwy) ar ein gwasanaethau. Gall dail sydd wedi cwympo a choed sy'n marw ddisgyn ar draws traciau, ar drenau ac i mewn i offer y llinell uwchben, sy'n beryglus ac yn gostus. Gall digwyddiadau sy'n ymwneud â choed sydd wedi disgyn yn ystod tywydd garw effeithio'n ddifrifol ar ein gwasanaethau.

## Metrigau a thargedau

Dyma'r prif fetrigau sy'n cael eu defnyddio gan TrC i asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd:

- Allyriadau $CO_2$e uniongyrchol cwmpas 1: o weithgareddau sy'n ymwneud â'n gweithrediadau a'n gweithgareddau fel tanwydd trên, oeri ac aerdymheru.
- Allyriadau $CO_2$e anuniongyrchol (wedi'i berchnogi) cwmpas 2: allyriadau anuniongyrchol fel cynhyrchu ynni wedi'i brynu, gan ddarparwr cyfleustodau.
- Allyriadau $CO_2$e anuniongyrchol (na pherchnogir) cwmpas 3: yn cynnwys allyriadau o weithgareddau fel gwastraff, dŵr, cymudo, adeiladu a chaffael.
- Dull safonol ar draws TrC, wedi'i gefnogi gan ganllawiau amcanestyniadau newid yn yr hinsawdd TrC ac adnodd asesu risg wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio data Rhagolygon Hinsawdd y DU 2018.

## Adolygu targedau

Sefydlodd TrC y targedau canlynol tra oedd y Cynllun Rheoli Carbon yn cael ei ddatblygu:

- Allyriadau Cwmpas 1 (tyniant) Llinellau Craidd y Cymoedd – 100% o ostyngiad erbyn diwedd 2023.
- Allyriadau Cwmpas 1 (tyniant) Llinellau Cymru a Thrawsffiniol – 30% o ostyngiad erbyn diwedd 2023.
- Allyriadau Cwmpas 2 – 100% o ostyngiad erbyn diwedd 2023.

Cafodd pandemig y coronafeirws effaith niweidiol ar gynnydd ein Metro a chyflwyno fflyd newydd, gan arwain at oedi. Yng ngoleuni'r heriau a achosir gan y gwaith gwella a ohiriwyd ar y rheilffordd, rydym yn ail-werthuso ac yn adolygu targedau lleihau allyriadau. Er nad yw'r targedau gwreiddiol yn gyraeddadwy o fewn yr amserlen gychwynnol, rydym yn dal wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i gyrraedd y targedau hyn yn y dyfodol.

- Allyriadau Cwmpas 1 (tyniant) Llinellau Craidd y Cymoedd: Ein hamcan diwygiedig yw lleihau allyriadau Cwmpas 1 yn sylweddol erbyn 2024, gan ganolbwyntio ar sicrhau gostyngiad o 100%.
- Allyriadau Cwmpas 1 (tyniant) Llinellau Cymru a Thrawsffiniol: Rydym wedi addasu ein targed i anelu at ostyngiad sylweddol o 30% yn allyriadau cwmpas 1 erbyn 2024. Gan weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn parhau i leihau ein hallyriadau ymhellach y tu hwnt i'r amserlen hon.
- Allyriadau cwmpas 2: Ein huchelgais yw gweithio tuag at leihau allyriadau cwmpas 2 erbyn 2024 gan ganolbwyntio ar sicrhau gostyngiad o 100%.

Er bod y gwaith gwella wedi achosi heriau i'n llinell amser wreiddiol, rydym yn benderfynol o oresgyn y rhwystrau hyn. Byddwn yn mynd ar drywydd strategaethau a chynlluniau arloesol i gyflawni ein targedau lleihau allyriadau diwygiedig wrth i ni ymdrechu i sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy ac amgylcheddol gyfrifol.

## Cynnydd o ran targedau

Rydym yn cyhoeddi ein hôl troed carbon blynyddol yn unol â Chanllaw Llywodraeth Cymru i'r Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net.

Wrth i ni ddatblygu ein methodoleg adrodd a'i gwella yn unol â gofynion ehangach, mae ein hôl troed carbon wedi cynyddu. Mae ein hadroddiad carbon ar gyfer 2021/22 wedi cael ei ddiwygio oherwydd anghysondebau yn y data tanwydd. Roedd ffigurau blaenorol ar gyfer cerbydau sy'n defnyddio diesel hefyd yn cynnwys tanwyddau a ddefnyddir i wresogi ein depos. Dylid bod wedi adrodd ar y tanwydd hwn ar wahân. Mae'r ffigurau ar gyfer ein hallyriadau defnyddio tanwydd (Cwmpas 1 a 3) wedi cael eu diwygio i roi cyfrif am y gwahanol ffynonellau. Roedd data ar gyfer defnyddio diesel cerbydau hefyd yn cynnwys tanwydd rydym yn ei ailwerthu i gwmnïau gweithredu trenau eraill. Mae'r gwerthoedd ailwerthu wedi cael eu tynnu o ddata tanwydd cerbydau i ddal y diesel a ddefnyddir gan ein fflyd trenau. Rydym wedi datblygu proses i sicrhau bod allyriadau tanwydd gwres a cherbydau'n cael eu hadrodd ar wahân wrth symud ymlaen a bod tanwydd wedi'i fasnachu yn cael ei dynnu yn y ffynhonnell cyn i amcangyfrifon allyriadau gael eu cyfrifo.


Ein cadwyn gyflenwi yw ein gweithgarwch allyrru uchaf. Wrth i ni fwrw ymlaen â'n rhaglen drawsnewid, bydd allyriadau ein cadwyn gyflenwi yn parhau i fod yn anodd eu lleihau a gallant gynyddu o ganlyniad. Fodd bynnag, er bod ein hallyriadau cadwyn gyflenwi yn uchel ar hyn o bryd, ystyrir bod ein buddsoddiad mewn creu system drafnidiaeth gynaliadwy integredig, amlfodd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gostyngiad hirdymor a mwy o lawer mewn allyriadau o sector trafnidiaeth Cymru. Serch hynny, rydym yn parhau i archwilio cyfleoedd i leihau allyriadau o'n cadwyn gyflenwi, er mwyn sicrhau bod ein carbon yn cael ei gyfrif a'i leihau'n briodol cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Allyriadau Carbon Corfforaethol TrC 2022/23

O'n hallyriadau corfforaethol yn 2022/23, cyfanswm ein hallyriadau carbon ($tCO_2e$) ar gyfer cwmpasau 1-3 oedd 291,740 $tCO_2e$. Mae hyn yn gynnydd cyffredinol o 9% (23,941 $tCO_2e$) o'i gymharu â 2021/2021. Mae'r cynnydd yn ein hallyriadau corfforaethol yn bennaf oherwydd cynnydd yn y defnydd o danwydd cerbydau a chynnydd yn y gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a brynwyd.

Mae'r graff isod yn dangos dadansoddiad o'r allyriadau o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae Cwmpas 3 yn cyfrif am 68% o'n holl ôl troed carbon.

**Allyriadau TrC yn ôl blwyddyn ariannol**




Categori allyrru uchaf TrC oedd ein cadwyn gyflenwi a gynhyrchodd 173,050 $tCO_2e$. Mae hyn yn gynnydd o 12,200 $tCO_2e$ o'i gymharu â 2021/2021.

Yr ail weithgaredd allyrru uchaf yn 2022/23 oedd ein defnydd o danwydd cwmpas 1 sydd wedi cynyddu 9,787 $tCO_2e$ o'i gymharu â 2021/22.

# Adroddiad taliadau

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl aelodau'r Bwrdd. Mae'n cynnwys cyflogau a hawliau pensiwn.

## Cyfanswm tâl unigol

| Cyfarwyddwr | Cyflog 2022/23 £000 | Cyflog 2021/22 £000 | Buddion pensiwn 2022/23 £000 | Buddion pensiwn 2021/22 £000 | Cyfanswm 2022/23 £000 | Cyfanswm 2021/22 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **James Price**<br>Prif Swyddog Gweithredol* | 195-200 | 160-165 | 10-15 | 30-35 | 210-215 | 190-195 |
| **Heather Clash**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 135-140 | 130-135 | 10-15 | 10-15 | 150-155 | 140-145 |
| **Scott Waddington**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol – Cadeirydd | 35-40 | 35-40 | - | - | 35-40 | 35-40 |
| **Sarah Howells**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20-25 | 20-25 | - | - | 20-25 | 20-25 |
| **Nicola Kemmery**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20-25 | 20-25 | - | - | 20-25 | 20-25 |
| **Alison Noon-Jones**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20-25 | 20-25 | - | - | 20-25 | 20-25 |
| **Alun Bowen**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20-25 | 20-25 | - | - | 20-25 | 20-25 |
| **Vernon Everitt**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20-25 | 20-25 | - | - | 20-25 | 20-25 |

* Tan 9 Hydref 2022, roedd James Price ar secondiad yn TrC o Lywodraeth Cymru, gya chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £160-165,000 a buddion pensiwn wedi'u cronni fel aelod o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar y dyddiad hwn, ymunodd â TrC fel gweithiwr gyda chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £215-220,000 heb unrhyw fuddion pensiwn. Mae ei gyflog cyfwerth â blwyddyn lawn uwch yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'n cael unrhyw fuddion pensiwn gan TrC ac mae'n arbediad o'i gymharu â'r tâl secondiad o Lywodraeth Cymru i TrC. Ei dâl uchod yw cyfanswm y taliadau gan Lywodraeth Cymru a TrC yn ystod y flwyddyn.

## Manylion pensiwn

| Manylion pensiwn | Pensiwn buddion diffiniedig cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/23 £000 | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £000 | Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb ag Arian Parod ar 31/03/23 £000 | Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb ag Arian Parod ar 31/03/22 £000 | Gwir gynnydd mewn Trosglwyddo sy'n Cyfateb ag Arian Parod Gwerth £000 | Cyfraniad at gynllun cyfraniadau diffiniedig £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **James Price** Prif Swyddog Gweithredol* | 70-75 | 0-2.5 | 1,039 | 993 | 0 | - |
| **Heather Clash** Prif Swyddog Gweithredol* | - | - | - | - | - | 10-15 |

* Mae'r datgeliadau pensiwn uchod yn cynrychioli buddion pensiwn James Price a gronnwyd yn ystod ei gyflogaeth yn Llywodraeth Cymru. Ers 9 Hydref 2022, fel un o weithwyr TrC, nid yw'n cael unrhyw fuddion pensiwn mwyach.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros a goramser. Ni chafodd buddion o fath arall eu talu gan TrC.

## Pensiynau

Roedd James Price yn aelod gweithredol o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn ystod ei gyflogaeth gan Lywodraeth Cymru (ar secondiad yn TrC). Mae'r ffigur Buddion Pensiwn ar gyfer Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cynrychioli gwerth oes buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn a gyfrifwyd gan (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Effeithir arno gan effaith chwyddiant a all arwain at amrywiadau sylweddol rhwng blynyddoedd.

Mae gweithwyr TrC yn aelodau o gynllun pensiwn cyfrannol diffiniedig. Mae'r ffigur budd-daliadau pensiwn ar gyfer y cynllun hwn yn cynrychioli cyfraniad y cyflogwr o 8%. Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn aelodau o gynllun pensiwn cyflogwyr TrC.

## Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod

Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV) yw gwerth cyfalafol a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisiwyd yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall yw CETV pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm aelodaeth y cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydyn nhw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb ag Arian Parod

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Datgeliadau Cyflog Teg

Cyfrifir y Datgeliadau Cyflog Teg canlynol fel sy'n ofynnol gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth Trysorlys EF. Mae cyfanswm y tâl a ddefnyddir yn y cyfrifiadau'n cynnwys cyflog ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Tâl band y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn TrC yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd £195-200,000 (yn 2021/22, roedd yn £160-165,000) – gweler tudalen 88 am esboniado'r newid hwn. Ni chafodd unrhyw weithiwr dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf.

Mae'r gymhareb tâl rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a chyflog a buddion y gweithiwr ar wahanol ganraddau cyflog a buddion cyflogeion y grŵp ar 31 Mawrth wedi'u nodi isod:

| | 2022/23 | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflog a buddion | Cymhareb | Cyflog a buddion | Cymhareb |
| **25ain Canradd** | £34,633 | 5.7 gwaith | £33,153 | 4.9 gwaith |
| **50fed Canradd (Canolrif)** | £45,159 | 4.4 gwaith | £43,231 | 3.8 gwaith |
| **75ain Canradd** | £59,720 | 3.3 gwaith | £56,591 | 2.9 gwaith |

Mae'r newid o un flwyddyn i'r llall yn y cymarebau yn deillio o'r newid ym mhecyn tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf ers iddo gael ei drosglwyddo i TrC gan Lywodraeth Cymru, gan adlewyrchu'r ffaith nad yw'n cael unrhyw fuddion pensiwn gan TrC. Cyfrifir y datgeliadau cymhareb heb gynnwys buddion pensiwn ac, o'r herwydd, nid ydynt yn rhoi darlun cyflawn o daliadau'r cyfarwyddwr neu'r cyflogeion sy'n cael y tâl uchaf. Gan addasu ar gyfer newidiadau i fuddion pensiwn y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf (ni allwn gynnwys buddion pensiwn gweithwyr gan nad yw'r data ar gael yn rhwydd i weithwyr sy'n aelodau o'n cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig), mae'r twf yn y gymhareb cyflog canolrifol wedi cynyddu 3.1% o un flwyddyn i'r llall.

Roedd cyflogau sylfaenol blynyddol y grŵp yn amrywio o £18,525 i £195-200,000 (yn 2021/22 roedd yn £16,800 i £160-165,000).

Y newid cyfartalog ers y flwyddyn ariannol flaenorol o ran cyflog a lwfansau ar gyfer holl weithwyr y grŵp (a gyfrifir drwy rannu cyfanswm y cyflogau blynyddol yn ôl nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn) yw 7.3%.

Er bod codiadau cyflog yng ngrŵp TrC yn adlewyrchu perfformiad unigolion, ychydig iawn o gyflog a bonysau perfformiad penodol sy'n uwch na chyflogau sylfaenol sy'n cael eu talu ar draws Grŵp TrC i rai grwpiau o weithwyr (ee comisiwn ar gyfer staff rheng flaen). Cyfanswm y cyflog cysylltiedig â pherfformiad a dalwyd ar draws y grŵp yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2021/22 oedd £453,106, sydd, o'i ddefnyddio fel cyfartaledd ar draws yr holl weithwyr yn unol â gofynion cyfrifo FReM, wedi cynyddu 167% o'i gymharu â 2021/22 (£151,443). Mae'r cynnydd yn y cyfartaledd yn bennaf o ganlyniad i fwy o deithio gan deithwyr yn dilyn effaith cyfyngiadau pandemig y coronafeirws ar flynyddoedd blaenorol (telir comisiwn goruchwylwyr ddwywaith y flwyddyn chwe mis mewn ôl-daliadau – felly roedd y comisiwn a dalwyd yn 2021/22 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Hydref 2020 a mis Medi 2021). Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o weithwyr yn gymwys i gael cyflog perfformiad ac felly nid yw'r cyfrifiad hwn yn berthnasol iawn i Grŵp TrC. Nid oes cynlluniau bonws uwch reolwyr.

## Pecynnau ymadael

Nid oedd unrhyw gynlluniau diswyddo gwirfoddol neu orfodol nac ymddeoliad cynnar yn 2022-23 na 2021-22 a dim ond cynlluniau ymadael unigol oedd ar waith. Mae'r taliadau ymadael y cytunwyd arnynt ym mhob blwyddyn wedi'u nodi isod:

| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer 2022/23 | Cyfanswm nifer 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **<£10,000** | - | - | - | 14 |
| **£10,000 – £25,000** | - | 1 | 1 | 2 |
| **£25,000 – £50,000** | - | - | - | 4 |
| **£50,000 – £100,000** | - | 2 | 2 | - |
| **£100,000 – £150,000** | - | - | - | - |
| **£150,000 – £200,000** | - | - | - | - |
| **£200,000 +** | - | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | - | 3 | 3 | 20 |
| **Cyfanswm y gost £** | | | 168,629 | 208,183 |

Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2022/23 (mae ffigurau cymharol 2021/22 hefyd yn cael eu rhoi). Mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl yn darparu cyfanswm cost unrhyw allanfa i TrC (gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiynau).

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae ein Cyfarwyddwyr yn cyflwyno'u hadroddiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

## Cyfarwyddwyr

Dyma'r Cyfarwyddwyr a oedd dal mewn swydd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn:

| Enw | Rôl |
|---|---|
| J S Waddington | Cadeirydd/Cyfarwyddwr Anweithredol |
| S Howells | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| N J Kemmery | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| A J Noon-Jones | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| D A Bowen | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| V J Everitt | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| J R Price | Cyfarwyddwr Gweithredol |
| H J Clash | Cyfarwyddwr Gweithredol |

Does dim penodiadau nac ymddiswyddiadau wedi bod yn 2022/23.

## Offerynnau Ariannol

**Hylifedd a risg llif arian**

Rydym yn monitro ein cyfalaf gweithio'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod digon o arian wedi cael ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru ar gyfer ein rhwymedigaethau pan fyddan nhw'n ddyledus.

Mae gan y Grŵp gynllun ymddiogelu prisiau tanwydd i liniaru effaith amrywiadau ym mhris tanwydd a fyddai'n peri ansicrwydd arall o ran mewnforion i berfformiad ariannol y busnes. Daeth y cynllun ymddiogelu blaenorol i ben ar 31 Mawrth 2023; ym mis Ebrill 2023 ymrwymodd y Grŵp i gynllun newydd tan 31 Mawrth 2026.

## Risg credyd

Nid ydym yn wynebu risg sylweddol o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o weithgarwch y Grŵp naill ai'n cael ei ariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru a dderbynnir ymlaen llaw, drwy fasnachu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus neu drwy werthu arian parod i'r cyhoedd. Caiff ein risg credyd ei fonitro'n rheolaidd.

## Difidend arfaethedig

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn argymell talu difidend. Bydd ein gwarged wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i ariannu ein gweithgareddau yn y dyfodol.

## Gweithwyr

Ceir gwybodaeth am amrywiaeth a chynhwysiant ar dudalen 50ac yn adroddiad y pwyllgor pobl ar dudalen 74. Mae rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â gweithwyr ar gael yn y datganiad Adran 172 ar dudalen 59.

## Ymgysylltu â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill mewn perthynas fusnes â'r Cwmni

Mae gwybodaeth am sut rydym yn ymgysylltu â'n cyflenwyr, ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill wedi'i chynnwys yn ein datganiad Adran 172 ar dudalen 59. Ein nod yw talu ein holl gyflenwyr cyn gynted ag y caiff y gwariant ei gymeradwyo gan gydymffurfio â Chod Talu'n Brydlon y Llywodraeth.

## Adroddiadau ynni a charbon

Mae gwybodaeth am ein defnydd o ynni a'n camau gweithredu wedi'u cynnwys yn yr adroddiad datgarboneiddio ar dudalen 84.

## Cyfraniadau gwleidyddol

Fel is-gwmni dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, nid oes gan TrC yr hawl i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwleidyddol, ac oherwydd hynny nid ydym wedi rhoi unrhyw roddion gwleidyddol na derbyn unrhyw wariant gwleidyddol yn ystod y flwyddyn.

## Y drefn ar gyfer chwythu'r chwiban

Rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd safonau uchel, ac yn cadw'r safonau hynny, o ran ymddygiad yn y gwaith, gwasanaeth i'r cyhoedd, a'i holl arferion gwaith. Disgwylir i'n gweithwyr ymddwyn yn gywir, yn ddiduedd ac yn onest ac rydym yn ceisio datblygu diwylliant lle rydym yn herio ymddygiad annerbyniol ar bob lefel. Er mwyn sicrhau hyn, rydym annog pawb i roi gwybod am bryderon gwirioneddol am gamymarfer, gweithredoedd anghyfreithlon, neu achosion o fethu cydymffurfio â safonau gwaith cydnabyddedig, heb ofni y bydd neb yn gwneud cam â hwy nac yn eu cosbi am wneud hynny.

## Darparu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae'r Cyfarwyddwyr a oedd yn y swydd ar ddyddiad cymeradwyo adroddiad y cyfarwyddwyr yn cadarnhau, hyd y gŵyr pob un ohonynt, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd TrC gwybod amdani; ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwr i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Archwilydd

Yn unol ag Adran 487 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ystyrir y bydd yr archwilydd yn cael ei ail-benodi, ac felly bydd KPMG LLP yn parhau yn y swydd.

Drwy orchymyn y Bwrdd



**James Price**

Cyfarwyddwr/Prif Weithredwr

3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
27 Mehefin 2023

# Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol y grŵp a'r rhiant-gwmni yn unol â'r gyfraith a rheoliadau perthnasol.

Yn ôl y gyfraith cwmnïau, mae'n rhaid i'n Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer y Grŵp a'r rhiant-gwmni am bob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y grŵp yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU ("IFRS a fabwysiadwyd yn y DU") yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 a'r gyfraith berthnasol, ac wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a'r gyfraith berthnasol (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys Fframwaith Datgelu Gostyngol FRS 101.

O dan y gyfraith cwmnïau, ni chaiff ein Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-gwmni yn ogystal â sefyllfa elw a cholled y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol, yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn graff;
- ar gyfer datganiadau ariannol y Grŵp, datgan a ydynt wedi cael eu paratoi yn ôl safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig;
- ar gyfer datganiadau ariannol y rhiant-gwmni, datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol a datgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a
- defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddyn nhw unrhyw ddewis realistig arall heblaw am hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigon i ddangos ac egluro trafodiadau'r rhiant-gwmni a datgelu sefyllfa ariannol y rhiant-gwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau o'r fath sydd, o fewn rheswm, ar gael iddynt er mwyn diogelu asedau'r grŵp a rhwystro ac adnabod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar wefan y cwmni, ac am gywirdeb y wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

# Datganiadau ariannol

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Trafnidiaeth Cymru

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Trafnidiaeth Cymru ("y cwmni") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cyfunol, y Datganiad Cyfunol am y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Cyfunol, Datganiadau'r cwmni am y Sefyllfa Ariannol, Datganiad y cwmni am Newidiadau mewn Ecwiti a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2023 ac o golled y grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae datganiadau ariannol y grŵp wedi'u paratoi'n briodol, yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU;
- mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 101 – Fframwaith Datgelu Llai; a
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

## Sail ein barn

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) ("ISAs (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau yn cael eu disgrifio isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU – gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol – ac rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â hynny. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydym ni wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

## Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol gan nad ydynt yn bwriadu diddymu'r grŵp na'r cwmni na dirwyn eu gweithrediadau i ben, a gan eu bod wedi dod i'r casgliad bod hyn yn realistig wrth ystyried sefyllfa ariannol y grŵp a'r cwmni. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd o bwys a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros eu gallu i barhau fel busnes gweithredol am flwyddyn o leiaf, o'r dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo ("cyfnod busnes gweithredol").

Rydym wedi defnyddio ein gwybodaeth am y Grŵp, ei ddiwydiant, a'r amgylchedd economaidd cyffredinol i ganfod risgiau i'w fodel busnes ac wedi dadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y grŵp a'r cwmni neu ar eu gallu i barhau i weithredu yn ystod y cyfnod busnes gweithredol. Yn ein barn ni, y risgiau a oedd yn fwyaf tebygol o gael effaith niweidiol ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Cwmni dros y cyfnod hwn oedd argaeledd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn unol â chylch gwaith y Grŵp a'r Cwmni.

Gan fod y Grŵp a'r Cwmni yn dibynnu ar gyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru, fe wnaethom asesu'r risg na fyddai'r cymorth hwn ar gael. Roeddem wedi archwilio llythyrau a dderbyniwyd gan y cyfarwyddwyr yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cymorth hwn, wedi archwilio datganiadau ariannol i asesu ei allu i ddarparu'r cymorth hwn dros gyfnod asesiad busnes gweithredol yr endid a archwiliwyd, ac wedi asesu'r rhesymau busnes pam y gallai neu pam na allai'r grŵp ddewis darparu'r cymorth hwn.

Roeddem wedi ystyried a yw'r datgeliad busnes byw yn nodyn 1 i'r datganiadau ariannol yn rhoi disgrifiad llawn a chywir o asesiad y cyfarwyddwyr o'r busnes gweithredol, gan gynnwys y risgiau a'r dibyniaethau a nodwyd. Rydym wedi asesu cyflawnder y busnes gweithredol.

Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym yn credu bod defnydd y cyfarwyddwyr o'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid ydym wedi canfod, ac rydym yn cytuno ag asesiad y cyfarwyddwyr nad oes, ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r grŵp neu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol yn ystod y cyfnod busnes gweithredol.

Fodd bynnag, gan na allwn ni ragweld yr holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol, a gan y gallai digwyddiadau yn y dyfodol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â barn a oedd yn rhesymol ar y pryd y rhoddwyd hi, nid yw'r canlyniadau uchod yn gwarantu y bydd y grŵp neu'r cwmni yn parhau i weithredu.

## Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau – y gallu i ganfod

### Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatganiadau o bwys o ganlyniad i dwyll

Er mwyn canfod risgiau o gamddatganiad o bwys o ganlyniad i dwyll ("risgiau twyll") rydym wedi asesu digwyddiadau neu amodau a allai awgrymu cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu roi cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi cyfarwyddwyr ac archwilio dogfennau polisi oedd yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio fewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal â p'un ai oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll, neu dwyll honedig.
- Darllen cofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i ganfod unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl.

Rydym wedi rhoi gwybod i'r tîm archwilio am y risgiau o dwyll a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll yn ystod yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol dan y safonau archwilio, rydym yn cynnal gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau, yn enwedig y risg y gallai tîm rheoli'r Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol a'r risg fod rhagfarn mewn amcangyfrifon cyfrifyddu a dyfarniadau fel prisio asedau. Yn yr archwiliad hwn, nid oeddem wedi canfod risg o dwyll sy'n gysylltiedig â chydnabod refeniw oherwydd y meini prawf cydnabod refeniw nad ydynt yn gymhleth, sy'n cyfyngu ar y cyfle i gam-drafod refeniw yn dwyllodrus.

Ni ddaethom o hyd i unrhyw risgiau ychwanegol o ran twyll.

Wrth benderfynu ar y gweithdrefnau archwilio, rydym wedi ystyried canlyniadau ein gwerthusiad a'n profion o effeithiolrwydd gweithredu rheolaethau rheoli risg twyll y Grŵp cyfan.

Rydym wedi cynnal gweithdrefnau gan gynnwys:

- Canfod cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill i'w profi ar sail meini prawf risg a chymharu'r cofnodion a ganfuwyd â dogfennau ategol. Roedd y rhain yn cynnwys postiadau anarferol i gyfrifon arian parod a phostio anarferol i asedau a oedd yn cael eu hadeiladu.

Rydym wedi canfod y cyfreithiau a'r rheoliadau y gellid disgwyl iddynt gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol cyffredinol a'n profiad o'r sector, a thrwy drafod gyda'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol dan y safonau archwilio), ac o arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol y Grŵp a thrafod gyda'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Rydym wedi rhoi gwybod i'n tîm am y cyfreithiau a'r rheoliadau a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfiad yn ystod yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol (gan gynnwys deddfwriaeth cwmnïau cysylltiedig), deddfwriaeth elw y dosbarthir, deddfwriaeth trethu a deddfwriaeth pensiwn, ac rydym wedi asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar eitemau'r datganiad ariannol cysylltiedig.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o ddeddfau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau peidio â chydymffurfio gael effaith sylweddol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft drwy roi dirwyon neu ymgyfreitha. Roeddem wedi nodi'r meysydd canlynol fel y rhai sydd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: iechyd a diogelwch, cyfreithiau diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyfraith cyflogaeth, rheoliadau amgylcheddol, rheoliadau sy'n berthnasol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, deddfwriaeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, a rhai agweddau ar ddeddfwriaeth cwmnïau. Mae safonau archwilio yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i holi'r cyfarwyddwyr ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes rhai. Felly, os na fydd torri rheoliadau gweithredol yn cael ei ddatgelu i ni neu'n amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y tor-amod hwnnw.

### Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri cyfraith neu reoliad

Oherwydd y cyfyngiadau sylfaenol sy'n gysylltiedig ag archwiliad, mae risg anochel na fyddwn wedi dod o hyd i rai achosion o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddai'r gweithdrefnau'r safonau archwilio sydd, yn eu hanfod yn gyfyngedig, yn eu canfod.

Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â dod o hyd i dwyll, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, anwiredd neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ddod o hyd i gamddatganiadau perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio na thwyll ac ni ellir disgwyl i ni ddod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad.

## Yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am yr adroddiad strategol ac am adroddiad y cyfarwyddwyr. Nid yw ein barn ni am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr adroddiadau hynny, ac nid ydym yn mynegi barn archwilio amdanynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr, ac wrth wneud hynny ystyried – ar sail ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol – a yw'r wybodaeth ynddynt yn cael ei chamddatgan yn sylweddol, neu a yw'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio ni. Ar sail y gwaith hwnnw'n unig:

- nid ydym wedi dod o hyd i gamddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y cyfarwyddwyr;
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn yr adroddiadau hynny ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiadau hynny wedi cael eu paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 yn ein barn ni.

## Materion y mae'n rhaid i ni adrodd arnynt drwy eithriad

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi os ydym yn credu bod y canlynol yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan y rhiant-gwmni, neu nid oes ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw rhai o daliadau'r cyfarwyddwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Fel mae datganiad y cyfarwyddwyr ar dudalen 94, yn ei egluro'n fanylach, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol, a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg; y gwaith rheoli mewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r grŵp neu'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.


## Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi yn sgil twyll neu gamgymeriad, ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os byddai'n rhesymol disgwyl iddynt – yn unigol neu gyda'i gilydd – ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae disgrifiad mwy cyflawn o'n cyfrifoldebau ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

## Pwrpas ein gwaith archwilio, ac i bwy mae gennym gyfrifoldebau

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb, ac eithrio i'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.



**Rees Batley** (Uwch-archwilydd Statudol)
ar ran ac yn enw KPMG LLP, Cyfrifwyr Siartredig
Archwilydd Statudol
3 Sgwâr y Cynulliad
Cei Britannia
Bae Caerdydd
CF10 4AX

29 Mehefin 2023

# Datganiad incwm cyfunol

**am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023**

| | Nodyn | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | 2 | **627,796** | 537,365 |
| Costau gweinyddol | | **(656,426)** | (565,154) |
| **Gwarged gweithredol – gwarged cyn treth** | | **(28,630)** | (27,789) |
| Treuliau ariannol | 6 | **(1,888)** | (1,289) |
| Llog sydd i'w dderbyn | 6 | **-** | 13 |
| **Incwm ariannu net/(traul)** | | **(1,888)** | (1,276) |
| **Gwarged/(diffyg) cyn treth** | | **(30,518)** | (29,065) |
| Credyd treth/(tâl) | 7 | **4,491** | (667) |
| **Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn** | | **(26,027)** | (29,732) |
| | | | |
| **Datganiad o Incwm Cynhwysfawr Arall** | | | |
| Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled: | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **129,191** | (549,624) |
| Ailfesur rhwymedigaeth/ased buddion diffiniedig | 18 | **553** | 45 |
| Treth gysylltiedig | 7 | **12** | (1) |
| Cyfanswm eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled | | **129,756** | (549,580) |
| | | | |
| Eitemau y gellid eu hailgategoreiddio wedyn i elw neu golled: | | | |
| Cyfran effeithiol o newidiadau mewn gwerth teg rhagfantoli llif arian | 19 | **(7,144)** | 6,171 |
| Treth gysylltiedig | 7 | **242** | (58) |
| Cyfanswm eitemau a allai gael eu hailddosbarthu i elw neu golled | | **(6,902)** | 6,113 |
| **Incwm cynhwysfawr arall am y flwyddyn, net treth** | | **122,854** | (543,467) |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **96,827** | (573,199) |

Priodolir yr holl incwm cynhwysfawr i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 106 i 141 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad sefyllfa ariannol cyfunol

**ar 31 Mawrth 2023**

| | Nodyn | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **3,361,950** | 2,681,987 |
| Asedau anniriaethol | 9 | **10,639** | 14,157 |
| Ewyllys da | 9 | **3,546** | 3,546 |
| Cyfanswm asedau anghyfredol | | **3,376,135** | 2,699,690 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Rhestrau | 11 | **11,965** | 9,343 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **183,238** | 133,732 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 13 | **66,835** | 63,766 |
| Cyfanswm asedau cyfredol | | **262,038** | 206,841 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **3,638,173** | 2,906,531 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 14 | **265,202** | 218,111 |
| Atebolrwyddau prydles | 20 | **23,603** | 18,622 |
| Darpariaethau | 15 | **356** | 673 |
| Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol | | **289,161** | 237,406 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Atebolrwyddau prydles | 20 | **175,735** | 80,284 |
| Grantiau'r llywodraeth wedi'u gohirio | 17 | **1,551,277** | 1,062,630 |
| Buddion gweithwyr | 18 | **549** | 1,140 |
| Darpariaethau | 15 | **2,289** | 2,736 |
| Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol | | **1,729,850** | 1,146,790 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau** | | **2,019,011** | 1,384,196 |
| **Asedau net** | | **1,619,162** | **1,522,335** |
| **Ecwiti** | | | |
| Gwarged wrth gefn | | **8,393** | 4,810 |
| Cronfa Cyfraniad Cyfalaf wrth Gefn | | **11,097** | 11,097 |
| Cronfa Ailbrisio wrth Gefn | | **1,599,672** | 1,499,526 |
| Cronfa wrth gefn rhagfantoli | | **-** | 6,902 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **1,619,162** | **1,522,335** |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan fwrdd y cyfarwyddwyr ar 27 Mehefin 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

**J R Price**, Cyfarwyddwr
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013

# Datganiad cyfunol am newidiadau mewn ecwiti

**am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023**

| | Gwarged wrth gefn £000 | Cyfraniad Cyfalaf – Cronfa wrth Gefn £000 | Ailbrisio – Cronfa wrth Gefn £000 | Cronfa wrth gefn rhagfantoli £000 | Cyfanswm ecwiti £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | 4,876 | - | 2,078,772 | 789 | 2,084,437 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | | | |
| Gwarged | (29,732) | - | - | - | (29,732) |
| Incwm Cynhwysfawr Arall | | | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | - | - | (549,624) | - | (549,624) |
| Ailfesur rhwymedigaeth/ ased buddion diffiniedig | 45 | | | | 45 |
| Cyfran effeithiol o newidiadau mewn gwerth teg rhagfantoli llif arian | - | - | | 6,171 | 6,171 |
| Treth ar incwm cynhwysfawr arall | (1) | - | - | (58) | (59) |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod | (29,688) | - | (549,624) | 6,113 | (573,199) |
| Cyfraniad Cyfalaf gan y Perchennog | - | 11,097 | - | - | 11,097 |
| Trosglwyddiad o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r | 29,622 | - | (29,622) | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **4,810** | **11,097** | **1,499,526** | **6,902** | **1,522,335** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2022** | 4,810 | 11,097 | 1,499,526 | 6,902 | 1,522,335 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | | | |
| Diffyg | (26,027) | - | - | - | (26,027) |
| Incwm Cynhwysfawr Arall | | | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | - | - | 129,191 | - | 129,191 |
| Ailfesur rhwymedigaeth/ ased buddion diffiniedig | 553 | | | | 553 |
| Cyfran effeithiol o newidiadau mewn gwerth teg rhagfantoli llif arian | - | - | | (7,144) | (7,144) |
| Treth ar incwm cynhwysfawr arall | 12 | - | - | 242 | 254 |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod | (25,462) | - | 129,191 | (6,902) | 96,827 |
| Trosglwyddiad o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gwarged Wrth Gefn | 29,045 | - | (29,045) | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **8,393** | **11,097** | **1,599,672** | **-** | **1,619,162** |

Priodolir yr holl incwm cynhwysfawr i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru.

# Datganiad cyfun o lifoedd arian

**am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023**

| | Nodyn | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn | | **(26,027)** | (29,732) |
| Addasiadau ar gyfer: | | | |
| Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariadau | 8 a 9 | **122,550** | 112,950 |
| Rhyddhau grantiau'r llywodraeth sydd wedi'u gohirio | | **(52,555)** | (45,967) |
| Costau cyllid | | **2,130** | 1,202 |
| Trethiant | 7 | **(4,558)** | 667 |
| (Cynnydd)/lleihad yn y rhestrau | 11 | **(2,622)** | (1,153) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **(17,212)** | (13,974) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 14 | **44,874** | 75,554 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau a buddion gweithwyr | 15 | **(932)** | 558 |
| Llog a dderbyniwyd | 6 | **-** | 13 |
| Treth a dderbyniwyd/(talwyd) | 7 | **279** | - |
| **Arian parod net o weithgareddau gweithredol** | | **65,927** | 100,118 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **(535,458)** | (299,636) |
| Caffael busnes (net o arian parod) | | **-** | (10,578) |
| Caffael asedau anniriaethol | | **(1,486)** | (2,842) |
| Enillion ar ôl derbyn grantiau cyfalaf y llywodraeth | 17 | **504,206** | 279,348 |
| **Arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(32,738)** | (33,708) |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Ad-dalu benthyciad (wrth gaffael Pullman Rail Limited) | | **-** | (6,000) |
| Derbyn benthyciad gan riant | | **-** | 6,900 |
| Cyfraniad cyfalaf gan riant | | **-** | 11,097 |
| Talu rhwymedigaethau prydles | | **(30,120)** | (33,583) |
| **Arian net o weithgareddau ariannu** | | **(30,120)** | (21,586) |
| Cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | | **3,069** | 44,824 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill | | **63,766** | 18,942 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth** | | **66,835** | 63,766 |

# Datganiad y cwmni o sefyllfa ariannol

**ar 31 Mawrth 2023**

| | Nodyn | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **2,929,809** | 2,435,576 |
| Asedau anniriaethol | 9 | **3,159** | 3,343 |
| Buddsoddiadau | 10 | **11,097** | 11,097 |
| Cyfanswm asedau anghyfredol | | **2,944,065** | 2,450,016 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Rhestrau | 11 | **19** | 72 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **165,211** | 137,135 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 13 | **35,056** | 26,391 |
| Cyfanswm asedau cyfredol | | **200,286** | 163,598 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **3,144,351** | 2,613,614 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 14 | **194,507** | 157,480 |
| Atebolrwyddau prydles | 20 | **1,206** | 626 |
| Darpariaethau | 15 | **356** | 673 |
| Cyfanswm asedau cyfredol | | **196,069** | 158,779 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Atebolrwyddau prydles | 20 | **12,080** | 12,996 |
| Grantiau'r llywodraeth wedi'u gohirio | 17 | **1,321,722** | 927,276 |
| Buddion gweithwyr | 18 | **16** | 504 |
| Darpariaethau | 15 | **2,289** | 2,736 |
| Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol | | **1,336,107** | 943,512 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau** | | **1,532,176** | 1,102,291 |
| **Asedau net** | | **1,612,175** | 1,511,323 |
| **Ecwiti** | | | |
| Gwarged wrth gefn | | **1,406** | 700 |
| Cronfa Cyfraniad Cyfalaf Wrth Gefn | | **11,097** | 11,097 |
| Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | | **1,599,672** | 1,499,526 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **1,612,175** | 1,511,323 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan fwrdd y cyfarwyddwyr ar 27 Mehefin 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



**J R Price**, Cyfarwyddwr
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013

# Datganiad y cwmni o newidiadau mewn ecwiti

**am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023**

| | Gwarged wrth gefn £000 | Cyfraniad Cyfalaf – Cronfa Wrth Gefn £000 | Ailbrisio – Cronfa Wrth Gefn £000 | Cyfanswm ecwiti £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | 652 | - | 2,078,772 | 2,079,424 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | | |
| Gwarged | (29,613) | - | - | (29,613) |
| Incwm Cynhwysfawr Arall | | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | - | - | (549,624) | (549,624) |
| Ailfesur rhwymedigaeth/ ased buddion diffiniedig | 39 | - | - | 39 |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod | (29,574) | - | (549,624) | (579,198) |
| Cyfraniad Cyfalaf gan y Perchennog | - | 11,097 | - | 11,097 |
| Trosglwyddiad o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gwarged Wrth Gefn | 29,622 | - | (29,622) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **700** | **11,097** | **1,499,526** | **1,511,323** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2022** | 700 | 11,097 | 1,499,526 | 1,511,323 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | | |
| Diffyg | (28,945) | - | - | (28,945) |
| Incwm Cynhwysfawr Arall | | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | - | - | 129,191 | 129,191 |
| Ailfesur rhwymedigaeth/ ased buddion diffiniedig | 606 | - | - | 606 |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod | (28,339) | - | 129,191 | 100,852 |
| Trosglwyddiad o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gwarged Wrth Gefn | 29,045 | - | (29,045) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **1,406** | **11,097** | **1,599,672** | **1,612,175** |

# Nodiadau

## Yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd canlynol yn adlewyrchu'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif yn y prisiad, gan ddangos effaith newidiadau mewn tybiaethau ar werth cyffredinol ased y rhwydwaith rheilffyrdd (ac eithrio seilwaith rheilffyrdd arall).

- Mae Sefyllfa 1 yn dangos effaith cynyddu neu leihau gweddill oes asedau cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd modern cyfatebol o 10%.
- Mae Sefyllfa 2 yn dangos yr effaith pe bai'r addasiad iawndal tir (fel arfer 45%) yn cynyddu neu'n gostwng 10%; h.y. addasiad iawndal o 35% neu 55% yn y drefn honno.
- Mae Sefyllfa 3 yn dangos effaith addasiad i'r ffactor risg a ddefnyddiwyd ar gyfer y prisiadau DRC cyffredinol, 37.2% ar hyn o bryd, gyda chynnydd neu ostyngiad o 10%, gan ddangos ffactorau risg o 47.2% a 27.2% i bob pwrpas.

| Math | Cost Amnewid wedi'i dadbrisio (-) £m | Cost Amnewid wedi'i dadbrisio £m | Cost Amnewid wedi'i dadbrisio (+) £m |
|---|---|---|---|
| **Gwerth sylfaenol** | | 2,126 | |
| **Senario 1** | (154) | | 154 |
| **Senario 2** | (41) | | 41 |
| **Senario 3** | (112) | | 112 |

## Asedau hawl i ddefnyddio

Ar 31 Mawrth 2023, mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys asedau hawl i ddefnyddio prydles a gydnabyddir o dan IFRS 16 fel a ganlyn:

| | Tir ac adeiladau £000 | Cerbydau £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Grŵp | 17,713 | 173,289 | 567 | 191,569 |
| Cwmni | 11,473 | - | - | 11,473 |

## Cysoni â'r datganiad grŵp o lifoedd arian

| | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|
| Ychwanegiadau diriaethol (nodyn 8) | **669,883** | 294,233 |
| Symudiad mewn credydwyr cyfalaf | **(6,135)** | 16,750 |
| Cydnabod darpariaeth dadfeiliadau | **(502)** | - |
| Prydles asedau hawl i ddefnyddio a gyfalafwyd | **(127,788)** | (11,347) |
| **Taliadau i gaffael asedau cyfalaf fesul datganiad llif arian** | **535,458** | 299,636 |

# 9. Asedau anniriaethol

## Grŵp

| | Ewyllys da £000 | Asedau anniriaethol caffaeledig £000 | Modelau data £000 | Trwyddedau Meddalwedd ac Eiddo Deallusol £000 | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (AUC) £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | | |
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | - | - | - | 11,941 | 3,982 | 15,923 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - | 579 | 579 |
| Yn deillio o gyfuniadau busnes | 3,546 | 2,367 | - | - | - | 5,913 |
| Amhariadau | - | - | - | - | (695) | (695) |
| Trosglwyddiadau o'r AUC | - | - | 3,137 | - | (3,137) | - |
| Balans ar 31 Mawrth 2022 | 3,546 | 2,367 | 3,137 | 11,941 | 729 | 21,720 |
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | 3,546 | 2,367 | 3,137 | 11,941 | 729 | 21,720 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | 3 | 486 | 489 |
| Amhariadau | - | - | - | - | - | - |
| Trosglwyddiadau o'r AUC | - | - | - | 798 | (798) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **3,546** | **2,367** | **3,137** | **12,742** | **417** | **22,209** |
| **Amorteiddiad ac amhariad** | | | | | | |
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | - | - | - | 282 | - | 282 |
| Amorteiddiad am y flwyddyn | - | 531 | 523 | 2,681 | - | 3,735 |
| Balans ar 31 Mawrth 2022 | - | 531 | 523 | 2,963 | - | 4,017 |
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | - | 531 | 523 | 2,963 | - | 4,017 |
| Amorteiddiad am y flwyddyn | - | 742 | 523 | 2,742 | - | 4,007 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **-** | **1,273** | **1,046** | **5,705** | **-** | **8,024** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | | |
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | - | - | - | 11,659 | 3,982 | 15,641 |
| Ar 31 Mawrth 2022 ac 1 Ebrill 2022 | 3,546 | 1,836 | 2,614 | 8,978 | 729 | 17,703 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **3,546** | **1,094** | **2,091** | **7,037** | **417** | **14,185** |

## Cwmni

| | Modelau data £000 | Trwyddedau Meddalwedd ac Eiddo Deallusol £000 | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (AUC) £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | - | - | 3,982 | 3,982 |
| Ychwanegiadau | - | - | 579 | 579 |
| Amhariadau | | | (695) | (695) |
| Trosglwyddiadau o'r AUC | 3,137 | - | (3,137) | - |
| Balans ar 31 Mawrth 2022 | 3,137 | - | 729 | 3,866 |
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | 3,137 | - | 729 | 3,866 |
| Ychwanegiadau | - | - | 486 | 486 |
| Amhariadau | | | - | - |
| Trosglwyddiadau o'r AUC | - | 798 | (798) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **3,137** | **798** | **417** | **4,352** |
| **Amorteiddiad ac amhariad** | | | | |
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | - | - | - | - |
| Amorteiddiad am y flwyddyn | 523 | - | - | 523 |
| Balans ar 31 Mawrth 2022 | 523 | - | - | 523 |
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | 523 | - | - | 523 |
| Amorteiddiad am y flwyddyn | 523 | 147 | - | 670 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **1,046** | **147** | **-** | **1,193** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | - | - | 3,982 | 3,982 |
| Ar 31 Mawrth 2022 ac 1 Ebrill 2022 | 2,614 | - | 729 | 3,343 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **2,091** | **651** | **417** | **3,159** |

Yn 2021/22, mae'r Grŵp wedi cydnabod ewyllys da ac asedau anniriaethol eraill sy'n gysylltiedig â chwsmeriaid o ganlyniad i gaffael 100% o gyfranddaliadau cyffredin Pullman Rail Limited gan Colas Rail Limited ar 8 Awst 2021 – gweler nodyn 23 am ragor o fanylion. Mae'r Grŵp yn profi ewyllys da bob blwyddyn ar gyfer dangosyddion amhariad – nid oes unrhyw ddangosyddion amhariad ar ddyddiad y fantolen.

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys prynu data allanol a datblygiad mewnol sy'n ymwneud â modelau data trafnidiaeth Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal â datblygu modelau meddalwedd a data sy'n ymwneud â phrosiectau diwygio bysiau, ac amrediad o drwyddedau eiddo deallusol yn ymwneud â rheilffyrdd a darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus arall. Mae'r cydbwysedd grŵp ehangach hefyd yn cynnwys y trwyddedau ar gyfer mynediad at feddalwedd ac eiddo deallusol arall sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith.

# 10. Buddsoddiadau

Mae'r Cwmni yn gyfranddaliwr 100% yn y cwmnïau canlynol:

- Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig. Cafodd y cwmni hwn ei ymgorffori ar 26 Mai 2020 gyda buddsoddiad o £1.
- Pullman Rail Limited. Prynwyd y cwmni hwn ar 8 Awst 2021 gyda buddsoddiad o £11,097,000.
- Rheolwr Seilwaith Cymru Last Resort Limited Cafodd y cwmni hwn ei ymgorffori ar 18 Medi 2019 gyda buddsoddiad o £1. Mae'r cwmni'n segur ar hyn o bryd.
- PTI Cymru Holdings Ltd Ar 1 Ebrill 2022, daeth TrC yn berchen ar PTI Cymru Holdings, cwmni cyfyngedig drwy warant, ynghyd â'i dri is-gwmni – PTI Cymru Ltd, PTI No2 Ltd, a PTI Cymru no 3 Ltd – am ddim buddsoddiad (gweler nodyn 23).

Mae'r Cwmni hefyd yn gyfranddaliwr 51% yn Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig.

Mae'r holl gwmnïau uchod wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr ac mae ganddynt yr un cyfeiriad cofrestredig â Trafnidiaeth Cymru ac mae'r cyfan wedi'u cyfuno yn y set hon o ddatganiadau ariannol.

Ar 20 Mawrth 2023, fel gofyniad i gaffael y lesddaliad ar Gyfnewidfa Fysiau Caerdydd, prynodd TrC 33% o'r cyfranddaliadau yn Cardiff Interchange Manco Limited am fuddsoddiad o £33. Y cwmni hwn sy'n dal y brif brydles ar gyfer datblygiad Cyfnewidfa Caerdydd ac mae'n dal is-brydles i denantiaid y Gyfnewidfa, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru. Nid yw'r cwmni'n gwneud elw ac nid oes ganddo elw na cholled ôl-caffael – felly mae wedi'i eithrio rhag cydgrynhoi ar sail perthnasedd.

## Cwmni

| | Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau £000 |
|---|---|
| **Cost a gwerth net ar y llyfrau** | |
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | - |
| Ychwanegiadau | 11,097 |
| Balans ar 31 Mawrth 2022 | 11,097 |
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | 11,097 |
| Ychwanegiadau | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **11,097** |

# 11. Rhestrau

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 |
| Deunyddiau crai a defnyddiau traul | **11,946** | 9,271 | **-** | - |
| Nwyddau gorffenedig | **19** | 72 | **19** | 72 |
| **Cyfanswm** | **11,965** | 9,343 | **19** | 72 |

# 12. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | **19,766** | 16,267 | **4,424** | 6,165 |
| Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus gan gwmnïau rhiant a grwpiau eraill | **2,789** | 10,107 | **22,512** | 25,641 |
| Asedau contract (incwm cronedig) | **17,580** | 10,201 | **9,878** | 8,834 |
| Cyllid cronedig – grant cyfalaf craidd Llywodraeth Cymru | **76,994** | 58,499 | **76,994** | 58,499 |
| Cyllid cronedig – grantiau eraill y Llywodraeth | **15,655** | 3,105 | **15,655** | 3,105 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **42,112** | 21,853 | **34,175** | 16,715 |
| Rhagdaliadau | **7,278** | 6,555 | **1,573** | 18,176 |
| Treth ohiriedig (Nodyn 16) | **1,064** | - | **-** | - |
| Offerynnau ariannol deilliadol | **-** | 7,145 | **-** | - |
| **Cyfanswm** | **183,238** | 133,732 | **165,211** | 137,135 |

# 13. Arian parod ac eitemau sy’n cyfateb i arian parod

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod fesul datganiad am y sefyllfa ariannol | **66,835** | 63,766 | **35,056** | 26,391 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod fesul datganiad am y llifoedd arian | **66,835** | 63,766 | | |

# 14. Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 |
| Symiau masnach taladwy | **40,685** | 35,441 | **8,457** | 12,191 |
| Symiau taladwy sy'n ddyledus i gwmnïau rhiant a chwmnïau grŵp eraill | **6,900** | 7,576 | **6,949** | 7,576 |
| Symiau taladwy eraill drwy fasnach | **4,810** | 3,902 | **2,144** | 1,481 |
| Treuliau wedi’u cronni | **175,641** | 129,420 | **150,817** | 110,350 |
| Incwm gohiriedig – grant refeniw craidd Llywodraeth Cymru | **11,135** | 15,141 | **11,135** | 15,141 |
| Incwm gohiriedig – trydydd parti | **20,254** | 16,728 | **14,205** | 9,961 |
| Nawdd cymdeithasol a mathau eraill o drethiant | **5,777** | 6,227 | **800** | 780 |
| Treth ohiriedig (Nodyn 16) | **-** | 3,676 | **-** | - |
| **Cyfanswm** | **265,202** | 218,111 | **194,507** | 157,480 |

Ar ddyddiad y fantolen, mae gan y Cwmni fenthyciad rhyng-gwmni o £6.9m (2022: £6.9m) gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chaffael Pullman Rail Limited ym mis Awst 2021. Mae’r cytundeb yn pennu cyfradd llog “cyfradd sylfaenol Banc Lloegr a 4%” a thelerau ad-dalu “fel y cytunwyd rhwng y partïon o bryd i’w gilydd”. Gan fod y benthyciad yn dechnegol ad-daladwy ar gais, mae’r benthyciad wedi’i ddosbarthu fel benthyciad tymor byr.

# 15. Darpariaethau

| | Hunan-yswiriant CVL £000 | Dirywiadau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| | Grŵp a Chwmni | | |
| Balans Agoriadol | 673 | 2,736 | 3,409 |
| Newid mewn amcangyfrif | 75 | (502) | (427) |
| Defnyddio darpariaethau | (392) | - | (392) |
| Datod disgownt ar ddarpariaethau | - | 55 | 55 |
| Balans terfynol | 356 | 2,289 | 2,645 |

## Amseru disgwyliedig y llifoedd arian

| | Hunan-yswiriant CVL £000 | Dirywiadau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| | Grŵp a Chwmni | | |
| Llai na blwyddyn | 356 | - | 356 |
| Mwy na phum mlynedd | - | 2,289 | 2,289 |
| **Cyfanswm** | 356 | 2,289 | 2,645 |

# 16. Treth ohiriedig – Grŵp

Mae'r rhwymedigaeth treth(/ased) ohiriedig yn cynnwys y balansau isod:

| | Balans ar 1 Ebrill 2021 £000 | Wedi caffael o dan gyfuniad o fusnesau £000 | Symudiad ar incwm cynhwysfawr arall incwm £000 | Symudiad mewn datganiad incwm £000 | Balans ar 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 19,059 | 1,249 | - | 12,757 | 33,065 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Rhagfantoli tanwydd | 184 | - | 58 | - | 242 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau tymor byr | - | - | - | (274) | (274) |
| Grantiau cyfalaf wedi'u gohirio | (17,426) | - | - | (11,930) | (29,356) |
| Rhwymedigaethau pensiwn | (2) | - | 1 | - | (1) |
| **Cyfanswm** | 1,815 | 1,249 | 59 | 553 | 3,676 |

| | Balans ar 1 Ebrill 2022 £000 | Wedi caffael o dan gyfuniad o fusnesau £000 | Symudiad ar incwm cynhwysfawr arall incwm £000 | Symudiad mewn datganiad incwm £000 | Balans ar 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 33,065 | - | - | 24,871 | 57,936 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Rhagfantoli tanwydd | 242 | - | (242) | - | - |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau tymor byr | (274) | - | - | 1 | (273) |
| Grantiau cyfalaf wedi'u gohirio | (29,356) | - | - | (28,033) | (57,389) |
| Rhwymedigaethau pensiwn | (1) | - | (12) | 40 | 27 |
| Colledion treth | | | | (1,365) | (1,365) |
| **Cyfanswm** | 3,676 | - | (254) | (4,486) | (1,064) |

# 17. Grantiau llywodraeth cyfalaf wedi'u gohirio

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | **1,062,630** | 821,091 | **927,276** | 721,363 |
| Ychwanegiadau | **541,202** | 286,030 | **429,788** | 222,671 |
| Rhyddhau yn unol â dibrisiant/amhariad asedau | **(52,555)** | (44,491) | **(35,342)** | (16,758) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,551,277** | 1,062,630 | **1,321,722** | 927,276 |

Disgwylir i £51.1m gael ei ryddhau o fewn 12 mis yn unol â'r tâl dibrisio ar yr asedau a ariennir gan grant – mae hyn wedi'i gynnwys fel rhwymedigaeth anghyfredol sy'n cyd-fynd â chyflwyno'r asedau anghyfredol cyfatebol.

# 18. Buddion gweithwyr

## Polisi pensiynau cyfraniadau diffiniedig

Dyma gyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â chynlluniau cyfraniadau wedi'u diffinio:

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 |
| **Cyfanswm costau** | **2,075** | 1,404 | **1,930** | 1,404 |

## Cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio

Mae'r Grŵp yn gweithredu dwy ran o Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd (RPS). Mae'r cyntaf o fewn Trafnidiaeth Cymru yng nghyswllt staff sy'n trosglwyddo i TrC o Network Rail fel rhan o gaffael asedau CVL. Mae'r ail o fewn Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig o ran staff sy'n trosglwyddo fel rhan o'r broses drosglwyddo OLR. Mae'r datganiadau ar gyfer pob un o'r adrannau hyn wedi'u nodi isod.

Mae'r cyfarwyddwyr yn credu y dylid rhoi ystyriaeth ar wahân i adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig o dan IAS 19 "Buddion gweithwyr" gan nad oes gan y cwmni unrhyw hawliau na rhwymedigaethau mewn perthynas â'r cynllun ar ôl i'r Cytundeb OLR ddod i ben.

Er ei bod yn dal yn agored i newydd-ddyfodiaid a chroniadau yn y dyfodol, mae'r risgiau a achosir gan RPS Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn gyfyngedig oherwydd, o dan y Cytundeb OLR, nid yw'r cwmni'n gyfrifol am unrhyw ddiffyg gweddilliol ar ddiwedd y contract. O'r herwydd, dim ond risg llif arian tymor byr sydd yn y busnes.

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 |
| Adran TrC | **16** | 504 | **16** | 504 |
| Adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig | **533** | 636 | **-** | |
| **Cyfanswm** | **549** | 1,140 | **16** | 504 |

## Adran TrC

Symudiad mewn atebolrwyddau/asedau buddion diffiniedig net

| | Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | | Gwerth teg asedau'r cynllun | | Atebolrwydd/ (ased) buddion diffiniedig net | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 3,081 | 2,923 | (2,241) | (2,216) | 840 | 707 |
| **Wedi'i gynnwys mewn elw neu golled** | | | | | | |
| Cost gwasanaeth | 443 | 318 | - | - | 443 | 318 |
| Costau gweinyddol | - | - | 18 | 44 | 18 | 44 |
| Cost llog/(incwm) | 79 | 60 | (60) | (46) | 19 | 14 |
| **Wedi'i gynnwys yn OCI** | | | | | | |
| Colled (enillion) actiwaraidd sy'n deillio o: | | | | | | |
| • Newid tybiaethau demograffeg | (44) | (87) | - | - | (44) | (87) |
| • Newid tybiaethau ariannol | (1,420) | (6) | - | - | (1,420) | (6) |
| • Addasu profiad | 254 | (113) | - | - | 254 | (113) |
| Enillion ar asedau'r cynllun ac eithrio incwm llog | - | - | 160 | 117 | 160 | 117 |
| **Arall** | | | | | | |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr | - | - | (173) | (108) | (173) | (108) |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr | - | - | (70) | (46) | (70) | (46) |
| Buddion a dalwyd | (164) | (14) | 164 | 14 | - | - |
| Diffyg y cynllun | 2,229 | 3,081 | (2,202) | (2,241) | 27 | 840 |
| Addasiad ar gyfer cyfran yr aelodau o asedau/atebolrwyddau | | | | | (11) | (336) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | | | | **16** | **504** |

## Asedau'r cynllun

| | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|
| Asedau twf | **2,009** | 2,045 |
| Bondiau | **167** | 163 |
| Asedau eraill | **26** | 33 |
| **Cyfanswm** | **2,202** | 2,241 |

## Rhagdybiaethau actiwaraidd

Dyma'r prif dybiaethau actiwaraidd ar y dyddiad adrodd (wedi'u mynegi fel cyfartaleddau pwysedig):

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt ar 31 Mawrth | **4.75%** | 2.65% |
| Chwyddiant prisiau | **3.30%** | 3.60% |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol | **3.30%** | 3.60% |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol | **2.95%** | 3.25% |

Mae'r tybiaethau sy'n ymwneud â hirhoedledd sy'n sail i rwymedigaethau'r pensiwn ar ddyddiad y fantolen yn seiliedig ar dablau marwolaethau actiwaraidd safonol ac maen nhw'n cynnwys lwfans ar gyfer gwella hirhoedledd yn y dyfodol. Mae'r tybiaethau'n cyfateb i ddisgwyl i rywun 65 oed fyw am nifer o flynyddoedd fel a ganlyn:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Dyn wedi ymddeol sy'n 65 oed | **19.8** | 20.0 |
| Dyn wedi ymddeol sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **21.1** | 21.4 |
| Menyw wedi ymddeol sydd yn 65 oed ar hyn o bryd | **23.8** | 22.2 |
| Menyw wedi ymddeol sydd yn 45 oed ar hyn o bryd | **23.8** | 23.9 |

## Dadansoddiad o sensitifrwydd

Mae cyfrifo'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau a nodir uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sut byddai'r effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd wedi cynyddu (gostyngiad) o 0.25 y cant yn sgil newid yn y tybiaethau perthnasol.

| | 2023<br>£000 | 2022<br>£000 |
|---|---|---|
| Gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt | **106** | 182 |
| Cynnydd yn y gyfradd ddisgownt | **(99)** | (168) |
| Gostwng chwyddiant prisiau | **(97)** | (159) |
| Cynnydd mewn prisiau | **98** | 171 |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol | **39** | 61 |

Wrth brisio atebolrwyddau'r gronfa bensiwn, gwnaed tybiaethau ynghylch marwoldeb fel y nodwyd uchod. Pe bai disgwyliad oes wedi cael ei newid i dybio bod holl aelodau'r gronfa'n byw am flwyddyn yn hwy, byddai gwerth y atebolrwyddau a adroddwyd ar 31 Mawrth 2023 wedi cynyddu £89,000 (2022: £123,000).

Mae'r sensitifrwydd uchod yn seiliedig ar brisiad actiwaraidd y cynllun a gynhaliwyd ar 31 Rhagfyr 2020. Er nad yw'r dadansoddiad yn ystyried dosbarthiad llawn y llifoedd arian a ddisgwylir o dan y cynllun, mae'n rhoi brasamcan o sensitifrwydd y tybiaethau a ddangosir.

## Cyllid

Mae'r Cwmni'n disgwyl talu £157,000 mewn cyfraniadau cyflogwr i'w gynlluniau buddion diffiniedig yn y flwyddyn a daw i ben ar 31 Mawrth 2024. Hyd cyfartalog pwysedig y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw 19 mlynedd.

## Adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig

Symudiad mewn atebolrwyddau/asedau buddion diffiniedig net

| | Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | | Gwerth teg asedau'r cynllun | | Atebolrwydd/ (ased) buddion diffiniedig net | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 807,597 | 820,693 | (507,066) | (447,048) | 300,531 | 373,645 |
| **Wedi'i gynnwys mewn elw neu golled** | | | | | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol | 28,294 | 28,624 | - | - | 28,294 | 28,624 |
| Addasiad masnachfraint i gost gwasanaeth | (19,657) | (20,597) | - | - | (19,657) | (20,597) |
| Costau gweinyddol | - | - | 973 | 964 | 973 | 964 |
| Cost llog/(incwm) | 12,723 | 10,016 | (8,062) | (5,503) | 4,661 | 4,513 |
| Llog ar addasu'r fasnachfraint | (4,644) | (4,497) | - | - | (4,644) | (4,497) |
| **Wedi'i gynnwys yn OCI** | | | | | | |
| Ailfesur y golled/(enillion): | | | | | | |
| Colled (enillion) actiwaraidd sy'n deillio o | | | | | | |
| • Newid tybiaethau demograffeg | (5,624) | (1,615) | - | - | (5,624) | (1,615) |
| • Newid tybiaethau ariannol | (343,087) | (51,376) | - | - | (343,087) | (51,376) |
| • Addasu profiad | 95,158 | 33,268 | - | - | 95,158 | 33,268 |
| Enillion ar asedau'r cynllun ac eithrio incwm llog | - | - | 21,097 | (53,250) | 21,097 | (53,250) |
| **Arall** | | | | | | |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr | - | - | (9,777) | (9,148) | (9,777) | (9,148) |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr | 6,541 | 6,031 | (6,541) | (6,031) | - | - |
| Buddion a dalwyd | (14,854) | (12,950) | 14,854 | 12,950 | - | - |
| Diffyg y cynllun | 562,447 | 807,597 | (494,522) | (507,066) | 67,925 | 300,531 |
| Addasiad ar gyfer cyfran yr aelodau o asedau/atebolrwyddau | | | | | (27,170) | (120,213) |
| Addasiad masnachfraint rheilffyrdd | | | | | (40,222) | (179,682) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | | | | **533** | **636** |

## Asedau'r cynllun

| | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|
| Ecwiti | **491,576** | 504,302 |
| Seilwaith | **134** | 106 |
| Asedau eraill | **2,812** | 2,658 |
| **Cyfanswm** | **494,522** | 507,066 |

## Rhagdybiaethau actiwaraidd

Dyma'r prif dybiaethau actiwaraidd ar y dyddiad adrodd (wedi'u mynegi fel cyfartaleddau pwysedig):

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt ar 31 Mawrth | **4.75%** | 2.65% |
| Chwyddiant prisiau | **3.00%** | 3.25% |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol | **3.35%** | 3.60% |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol | **3.00%** | 3.25% |

Mae'r tybiaethau sy'n ymwneud â hirhoedledd sy'n sail i rwymedigaethau'r pensiwn ar ddyddiad y fantolen yn seiliedig ar dablau marwolaethau actiwaraidd safonol ac maen nhw'n cynnwys lwfans ar gyfer gwella hirhoedledd yn y dyfodol. Mae'r tybiaethau'n cyfateb i ddisgwyl i rywun 65 oed fyw am nifer o flynyddoedd fel a ganlyn:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Dyn wedi ymddeol sy'n 65 oed | **19.9** | 20.0 |
| Menyw wedi ymddeol sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **21.2** | 21.4 |
| Menyw wedi ymddeol sydd yn 65 oed ar hyn o bryd | **22.5** | 22.2 |
| Menyw wedi ymddeol sydd yn 45 oed ar hyn o bryd | **24.1** | 23.9 |

## Dadansoddiad o sensitifrwydd

Mae cyfrifo'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau a nodir uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sut byddai'r effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig gros (cyn addasiadau aelod a masnachfraint) ar ddiwedd y cyfnod adrodd wedi cynyddu (gostyngiad) o 1%, neu 0.5% yn sgil newid yn y tybiaethau perthnasol lle nodir hynny.

| | 2023<br>£000 | 2022<br>£000 |
|---|---|---|
| Gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt | **117,803** | 214,048 |
| Cynnydd yn y gyfradd ddisgownt | **(89,914)** | (156,423) |
| Gostwng chwyddiant prisiau | **(89,448)** | (152,575) |
| Cynnydd mewn prisiau | **112,275** | 200,504 |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol (+0.5%) | **19,019** | 33,694 |

Wrth brisio atebolrwyddau'r gronfa bensiwn, gwnaed tybiaethau ynghylch marwoldeb fel y nodwyd uchod. Pe bai disgwyliad oes wedi cael ei newid i dybio bod holl aelodau'r gronfa'n byw am flwyddyn yn hwy, byddai gwerth gros yr atebolrwyddau a adroddwyd cyn addasiadau aelodau a masnachfraint ar 31 Mawrth 2023 wedi cynyddu £27,560,000 (2022: £26,639,000).

Mae'r sensitifrwydd uchod yn seiliedig ar ganlyniadau'r prisiad actiwaraidd llawn a gynhaliwyd gan dîm cynghori actiwaraidd Ymddiriedolwyr RPS ar 31 Rhagfyr 2019.

## Cyllid

Mae'r Cwmni'n disgwyl talu £11,743,000 mewn cyfraniadau cyflogwr i'w gynlluniau buddion diffiniedig yn y flwyddyn a daw i ben ar 31 Mawrth 2024. Hyd cyfartalog pwysedig y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw 18 mlynedd.

# 19. Offerynnau Ariannol

## Gwerthoedd teg offerynnau ariannol

Nid oes unrhyw wahaniaethau rhwng gwerthoedd teg pob dosbarth o asedau ariannol ac atebolrwydd ariannol a'u symiau cario yn y datganiad am y sefyllfa ariannol.

## Risg credyd

Nid yw TrC yn wynebu llawer o risg o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o'i weithgarwch yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru, a dderbynnir ymlaen llaw, a gweddill ei weithgarwch yn ymwneud â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Caiff risg credyd ei fonitro'n rheolaidd.

Mae swm cario'r symiau derbyniadwy drwy fasnach yn cynrychioli'r credyd mwyaf posibl. Felly, ar ddyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol, roedd y risg credyd mwyaf fel a ganlyn:

| | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|
| Grŵp | **22,555** | 26,374 |
| Cwmni | **26,936** | 31,806 |

Nid oedd unrhyw symiau derbyniadwy heb gael eu talu ar y dyddiad yr oeddynt yn ddyledus ar ddim un o'r dyddiadau adrodd.

Oherwydd natur y symiau derbyniadwy, ni ystyrir bod angen darparu ar gyfer colledion credyd disgwyliedig.

## Risg hylifedd

Mae TrC yn monitro ei gyfalaf gweithio'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod digon o arian wedi cael ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru ar gyfer ei rwymedigaethau pan fyddant yn ddyledus.

## Risg o ran pris tanwydd

Ymrwymwyd i arbed pris tanwydd gyda'r bwriad o leihau'r amrywiadau mewn prisiau sydd i'w priodoli i ffynonellau tanwydd. Mae'r risg sy'n cael ei rhagfantoli yn newid prisiau tanwydd a'r offerynnau rhagfantoli sy'n cael eu defnyddio yn danwydd a gyfnewidir. Daeth gwrych presennol y Grŵp i ben ar 31 Mawrth 2023 felly nid oes balans ar ddiwedd y flwyddyn – cafodd gwrych newydd ei dynnu allan ar 1 Ebrill 2023 ar delerau tebyg.

| | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 Cyfun Arall Incwm | £000 Symiau derbyniadwy | £000 Cyfun Arall Incwm | £000 Symiau derbyniadwy |
| Newidiadau mewn gwerth marchnad rhagfantoli llif arian | **(7,144)** | - | **6,171** | 7,145 |

Mae aneffeithlonrwydd rhagfantoli llif arian y deilliadau pris ynni a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm yn £dim (2022: £dim).

# 20. Prydlesi

## 20 (a) Prydlesi fel prydleswr

### Prydlesi gweithredu

Mae gan TrC brydles i Amey Infrastructure Wales Limited o ran asedau CVL. Dechreuodd y brydles hon ar 28 Mawrth 2020. Mae hyn wedi cael ei ystyried yn brydles weithredol gan fod hyd y brydles gryn dipyn yn llai na bywyd economaidd defnyddiol yr asedau. Bydd y les yn dod i ben ym mis Chwefror 2028 (yn dilyn newid y cyfnod fel rhan o drawsnewid Gweithredwr y Dewis Olaf). Mae gan y Cwmni hefyd nifer fach o brydlesi eiddo eraill (ee consesiynau gorsafoedd).

Yn ystod y flwyddyn, cafodd £2,872,000 (2022: £2,219,000) ei gydnabod fel incwm rhent gan y Cwmni.

Mae gan y Grŵp hefyd brydlesi gyda nifer o gwmnïau mewn perthynas â chonsesiynau gorsafoedd a fflyd. Mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu fel prydlesi gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd £2,243,000 (2021: £802,000) ei gydnabod fel incwm rhent o ran y prydlesi hyn.

## 20 (b) Prydlesi fel lesddeiliad

Mae gan y Cwmni bedair prydles eiddo—gan gynnwys y brydles ar ei brif swyddfa ym Mhontypridd, a ddechreuodd ym mis Hydref 2020 ac sy'n dod i ben yn 2035, yn ogystal â lesoedd eiddo sy'n para rhwng un a phum mlynedd ar gyfer ei swyddfeydd eraill yn Wrecsam a Phenrhyndeudraeth.

Mae is-gwmni Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf y Cwmni hefyd yn dal nifer o brydlesi cerbydau sy'n para chwe blynedd ar gyfartaledd a nifer o brydlesi eiddo ar gyfer depos a swyddfeydd.

Y gyfradd ddisgownt a gymhwysir i'r asedau hyn yw cyfradd fenthyca'r llywodraeth ar gyfer y flwyddyn galendr berthnasol (y gyfradd ddisgownt ar gyfer prydlesi sy'n dechrau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 yw 0.95% ar gyfer prydlesi sy'n dechrau yn 2022 a 3.51% ar gyfer prydlesi sy'n dechrau yn 2023).

Hefyd, mae gan y Grŵp nifer o brydlesi gwerth isel neu dymor byr o ran offer swyddfa.

### Asedau hawl i ddefnyddio

Cyflwynir asedau hawl i ddefnyddio sy'n gysylltiedig ag eiddo prydles fel eiddo, offer a chyfarpar:

### Grŵp

| | 2023 | | | | 2022 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir ac adeiladau | Cerbydau | Arall | Cyfanswm | Tir ac adeiladau | Cerbydau | Arall | Cyfanswm |
| Balans ar 1 Ebrill | 18,920 | 79,331 | 507 | **98,758** | 19,772 | 99,923 | - | 119,695 |
| Ychwanegiadau at asedau hawl i ddefnyddio | 318 | 127,562 | 185 | **128,065** | 536 | 10,228 | 583 | 11,347 |
| Tâl dibrisiant am y flwyddyn | (1,525) | (33,604) | (125) | **(35,254)** | (1,388) | (30,820) | (76) | (32,284) |
| Balans ar 31 Mawrth | 17,713 | 173,289 | 567 | **191,569** | 18,920 | 79,331 | 507 | 98,758 |

Ar ben hynny, mae £24,719,000 sy'n cael ei dalu gan y Grŵp fel premiwm prydles ar gyfer Cyfnewidfa Bws Caerdydd wedi cael ei gydnabod mewn Asedau sy'n cael eu Hadeiladu nes bod y safle'n cael ei drosglwyddo fel un sy'n barod i'w ddefnyddio yn 2023/24. Mae'r £24,719,000 yn cynnwys £4,500,000 a dalwyd i riant TrC, Llywodraeth Cymru, ar gyfer elfen llain fysiau'r gyfnewidfa.

## Cwmni

| | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac adeiladau | Cyfanswm | Tir ac adeiladau | Cyfanswm |
| Balans ar 1 Ebrill | 12,117 | **12,117** | 13,009 | 13,009 |
| Ychwanegiadau at asedau hawl i ddefnyddio | 262 | **262** | - | - |
| Tâl dibrisiant am y flwyddyn | (906) | **(906)** | (892) | (892) |
| Balans ar 31 Mawrth | 11,473 | **11,473** | 12,117 | 12,117 |

## Symiau a gydnabyddir mewn elw neu golled

Mae'r symiau canlynol wedi cael eu cydnabod mewn elw neu golled y mae'r Grŵp yn brydlesai ar eu cyfer:

| | Grŵp | |
|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 |
| Elfen llog ar daliadau atebolrwyddau prydles | **1,494** | 1,029 |
| Treuliau sy'n ymwneud â phrydlesi tymor byr (ac eithrio prydlesi tymor byr asedau gwerth isel) | **46** | 217 |
| Treuliau sy'n ymwneud â phrydlesi asedau gwerth isel | **93** | 35 |
| **Cyfanswm** | **1,633** | 1,281 |

Ar 31 Mawrth 2023, roedd y Grŵp wedi ymrwymo i brydlesi tymor byr a gwerth isel gyda chyfanswm ymrwymiad gros o £202,000 (2022: £240,000) ac mae ganddo gytundebau i brydlesu gyda'r prydlesi sydd heb ddechrau eto, sef cyfanswm o £440,042,000 (2022: £591,520,000) ac mae'r cyfan yn ymwneud â phrydlesi cerbydau yn y dyfodol. Ar 31 Mawrth 2023, roedd y Grŵp wedi ymrwymo i brydlesi tymor byr a gwerth isel gyda chyfanswm ymrwymiad gros o £31,000 (2022: £15,000) a heb gytundebau (2022: dim cytundebau) i brydlesu gyda'r prydlesi heb ddechrau eto.

## Atebolrwyddau prydles

### Rhannu cyfredol/anghyfredol

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 |
| Cyfran gyfredol atebolrwyddau'r brydles | **23,603** | 18,622 | **1,206** | 626 |
| Cyfran anghyfredol o atebolrwyddau'r brydles | **175,735** | 80,284 | **12,080** | 12,996 |
| **Cyfanswm** | **199,338** | 98,906 | **13,286** | 13,622 |

### Rhannu yn ôl math o ased

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 £000 | 2022 £000 | 2023 £000 | 2022 £000 |
| Tir ac adeiladau | **19,537** | 20,241 | **13,286** | 13,622 |
| Cerbydau | **179,230** | 78,157 | **-** | - |
| Arall | **571** | 508 | **-** | - |
| **Cyfanswm** | **199,338** | 98,906 | **13,286** | 13,622 |

# 21. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2022, ymrwymodd TrC i gontractau i brynu eiddo, offer a chyfarpar am £279,849,000 (2022: £217,831,000). Ar yr un dyddiad, mae ymrwymiadau cyfalaf Trafnidiaeth Cymru fel cwmni annibynnol yn £256,388,000 (2022: £185,143,000).

# 22. Partïon cysylltiedig

## Manylion partïon cysylltiedig y mae TrC wedi delio â nhw

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd TrC a'i is-gwmni Rheilffyrdd TrC grant refeniw ac arian cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru, sef £304,709,000 (2022: £348,790,000), yn ogystal â grantiau refeniw i'w talu i awdurdodau lleol o £1,071,000 (2022: 2,285,000). Yn ogystal â hyn, derbyniodd TrC arian grant cyfalaf ac arian cymhorthdal o £449,846,000 (2022: £282,197,000) yn ogystal â grantiau cyfalaf i'w talu i awdurdodau lleol o £53,918,000 (2022: £19,287,060). Wedi'i gynnwys mewn incwm gohiriedig mae credydwr o Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chostau grant adnoddau a gafwyd ond nid yw'r cyllid wedi dod i law eto ar 31 Mawrth 2023 sef £13,898,000 (2022: £15,141,000) a dyledwr am gostau grant cyfalaf a gafwyd ond nid yw'r cyllid wedi dod i law eto o £52,887,000 (2022: £58,499,000).

Yn ogystal, roedd TrC yn cydnabod incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau ymgynghori nad oedden nhw'n cael eu hariannu gan grant, a'r swm ar gyfer hynny oedd £10,994,000 (2022: £6,038,000). Ar 31 Mawrth 2023, roedd TrC yn ddyledus o £2,789,000 (2022: (£6,734,000) wedi'i anfonebu i Lywodraeth Cymru am y gwasanaethau ymgynghori hyn a ddarparwyd, ac mae hwn wedi'i gynnwys yn yr adran dyledwyr masnach. Mae gan TrC hefyd incwm cronedig ar gyfer gwasanaethau prosiect a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru ond nad ydyn nhw wedi cael eu hanfonebu eto, a'r swm hwnnw yw £3,035,000 (2022: £2,014,000).

Mae TrC wedi gwenud pryniadau gan Lywodraeth Cymru, a'r cyfanswm ar gyfer hynny oedd £274,000 (2022: £455,000) mewn perthynas â gwasanaethau a ail-godir amanynt (costau secondiad a chostau archwilio mewnol yn bennaf) a llunio cytundeb les 999 mlynedd gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer llain fysiau Cyfnewidfa Bws Caerdydd am bremiwm prydles o £4,500,000 (gyda rhent grawn pupur o £10 y flwyddyn). Mae ganddo falans symiau taladwy ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol o £dim sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru (2022: £455,000).

Mae gan TrC hefyd fenthyciad cyfalaf gweithio gyda Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2023, y balans yw £6,900,000 (2022: £6,900,000). Roedd y llog a oedd yn daladwy ar y benthyciad hwn yn ystod y flwyddyn yn £310,000 (2022: £183,000).

Mae gan is-gwmni'r Cwmni, Gwasanaethau Arloesi Cyfyngedig TrC, gyfranddaliwr budd lleiafrifol, ac o'r herwydd, mae angen datgeliadau partïon cysylltiedig ar gyfer y rhiant-gwmni yn unol ag FRS 101. Yn ystod y flwyddyn, gwaneth TrC bryniant o £440,000 gan Wasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig (2022: £1,070,000), ac mae dyledwyr masnach ac incwm cronedig yn ddyledus i Wasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig gan TrC ar 31 Mawrth 2023 o £349,000 (2022: £720,000) yn ogystal â benthyciad cyfalaf gweithredol gan TrC i Wasanaethau Arloesi TrC o £100,000 (2022: £100,000).

## Trafodion gyda'r prif bersonél rheoli

Tybir bod y prif bersonél rheoli yn cynnwys cyfarwyddwyr statudol y Cwmni (y dangosir eu taliadau cydnabyddiaeth yn nodyn 4) ac aelodau eraill o'r tîm gweithredol. Dyma'r taliadau gwneud iawn a roddwyd i'r prif bersonél rheoli:

| | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|
| Taliadau'r prif reolwyr yn cynnwys costau nawdd cymdeithasol | **1,911** | 1,332 |
| Cyfraniadau'r cwmni at gynlluniau pensiwn prynu arian | **110** | 83 |
| Taliadau i drydydd partïon yng nghyswllt secondeion | **146** | 277 |
| **Cyfanswm** | **2,168** | 1,692 |

# 23. Caffael busnes

## Caffaeliadau yn y cyfnod cyfredol

Ar 1 Ebrill 2022, daeth TrC yn berchen ar PTI Cymru Holdings Limited, cwmni cyfyngedig drwy warant, ynghyd â'i dri is-gwmni – PTI Cymru Ltd, PTI No2 Ltd, a PTI Cymru no 3 Ltd – am ddim buddsoddiad. Cytunwyd ar y cytundeb gyda Llywodraeth Cymru er mwyn creu canolfan wybodaeth integredig ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Mae PTI Cymru yn fusnes nid-er-elw sy'n cael ei ariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru, gyda gweithgarwch craidd o ddarparu gwybodaeth ddiduedd i'r cyhoedd am drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn ogystal â darparu gwasanaethau cyswllt cwsmeriaid dwyieithog i rai trydydd partïon. Ar 15 Rhagfyr 2022, cafodd masnach ac asedau'r cwmnïau eu trosglwyddo i Trafnidiaeth Cymru am ddim buddsoddiad. Roedd asedau net y Grŵp ar y dyddiad caffael a'r dyddiad trosglwyddo asedau yn sero ac nid oedd angen unrhyw addasiadau gwerth teg; felly ni chafodd ewyllys da ei chreu. Cyfanswm asedau cyfunol y tri is-gwmni ar 1 Ebrill 2022 oedd £1,030,733. Mae PTI Cymru Holdings Limited a'i is-gwmnïau i fod i gael eu diddymu yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

### Effaith caffael

Cafodd caffael PTI Cymru a'i is-gwmnïau yr effaith ganlynol ar asedau a rhwymedigaethau'r Cwmni.

| | Gwerthoedd cydnabyddedig wrth gaffael £000 |
|---|---|
| **Asedau net y caffaelwr ar y dyddiad caffael:** | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 122 |
| Asedau anniriaethol | 7 |
| Dyledwyr masnach a dyledwyr eraill | 118 |
| Arian parod | 708 |
| Credydwyr a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn | (830) |
| Credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | (125) |
| Asedau a rhwymedigaethau net adnabyddadwy | - |
| Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol sy'n ymwneud â chyfuniad o fusnes | - |
| Ewyllys da wrth gaffael | - |

## Caffaeliadau yn y cyfnod blaenorol

Ar 8 Awst 2021, prynodd TrC 100% o gyfalaf cyfranddaliadau arferol Pullman Rail Limited gan Colas Rail Limited. Roedd TrC wedi buddsoddi £11,097,000 yn y caffaeliad hwn. Prif weithgaredd y busnes yw adnewyddu a chynnal a chadw cerbydau rheilffyrdd ac mae'r caffaeliad yn galluogi TrC a Pullman i adeiladu ar bartneriaeth waith sy'n bodoli eisoes, a darparu mwy o gapasiti a chadernid yn nepo Treganna (lle mae Rheilffordd Pullman wedi'i leoli). Yn yr wyth mis hyd at 31 Mawrth 2022, cyfrannodd Pullman Rail Limited refeniw o £11.5m a cholled cyn treth o £91,000 i'r elw cyfunol am y flwyddyn (gan gynnwys costau pontio ac integreiddio untro o £339,000). Pe bai'r pryniant wedi digwydd ar 1 Ebrill 2021, amcangyfrifir y byddai'r refeniw a gyfrannir wedi bod yn £19.7m a byddai cyfraniad elw cyn treth wedi bod yn amcangyfrif o £105,000. Wrth bennu'r symiau hyn, mae'r rheolwyr wedi tybio y byddai'r addasiadau gwerth teg a godedd ar y dyddiad caffael yr un fath pe bai'r caffaeliad wedi digwydd ar 1 Ebrill 2021.

### Effaith caffael

Cafodd caffael Pullman Rail Limited yr effaith ganlynol ar asedau a rhwymedigaethau'r Cwmni.

| | Gwerthoedd cydnabyddedig wrth gaffael £000 |
|---|---:|
| **Asedau net y caffaelwr ar y dyddiad caffael:** | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 9,198 |
| Asedau anniriaethol a gydnabuwyd wrth gaffael (cysylltiadau cwsmeriaid) | 2,367 |
| Stociau | 3,387 |
| Dyledwyr masnach a dyledwyr eraill | 3,696 |
| Arian parod | 519 |
| Masnach a chredydwyr eraill | (10,367) |
| Rhwymedigaethau treth wedi'u gohirio | (1,249) |
| Asedau a rhwymedigaethau net adnabyddadwy | 7,551 |
| Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol sy'n ymwneud â chyfuniad o fusnes | 11,097 |
| Ewyllys da wrth gaffael | 3,546 |

Mae ewyllys da wedi cael ei gydnabod mewn perthynas â'r synergedd y mae Pullman Rail Limited yn ei ddarparu i'r grŵp, yn enwedig mewn perthynas â mwy o gapasiti a chadernid yn Nepo Treganna i gefnogi cynllun Metro De Cymru. Mae costau caffael o £309,000 sy'n ymwneud â ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol sy'n cefnogi'r caffaeliad wedi'u cynnwys yn y gwariant gweithredu yn y Datganiad Incwm Cyfunol.

# 24. Colledion a thaliadau arbennig

Mae'r canlynol yn ddatganiad o golledion a thaliadau arbennig fel sy'n ofynnol yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, gyda datgeliadau unigol lle mae'r cyfanswm a dalwyd dros y terfynau a ragnodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru o £300,000.

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y colledion a thaliadau arbennig | 115 | 60 |
| Cyfanswm gwerth colledion a thaliadau arbennig (£000) | 10,861 | 270 |

### Colledion unigol o £300,000 neu fwy

Yn ystod y flwyddyn, penderfynwyd rhoi'r gorau i brosiect Lein Gadw ar gyfer Digwyddiadau Mawr Llanwern. O'r herwydd, mae costau datblygu o £10.54m a oedd wedi codi ers 2018 ac a oedd yn cael eu trin fel ased sy'n cael ei adeiladu nawr yn cael eu hystyried yn rhai na ellir eu hadennill ac, gan nad ydynt wedi'u rhagweld ar gyfer y dyfodol ar hyn o bryd, mae colled amhariad wedi cael ei nodi. Mae'r amhariad hwn hefyd yn cael ei ystyried yn golled adeiladol o dan y diffiniadau a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

# 25. Prif riant-gwmni a rhiant-gwmni grŵp mwy

Mae TrC yn is-gorff sy'n dod o dan ofal Gweinidogion Cymru, a ystyrir hefyd yn brif riant-endid. Mae canlyniadau TrC wedi'u cynnwys yng nghyfrifon blynyddol cyfunol Llywodraeth Cymru, sydd ar gael o'r cyfeiriad cofrestredig, sef Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar y wefan.

